# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 24/02/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
3. Statement: Introduction of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

4. Datganiad: Treth ar Waredu i Safleoedd Tirlenwi
4. Statement: Landfill Disposals Tax

5. Trefn Trafod y Gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
5. Order of Consideration of Amendments for the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

6. Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015-16
6. Debate on the Police Settlement 2015-16

7. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013-14
7. Debate on the Estyn Annual Report 2013-14


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister. Question 1 is from Simon Thomas.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Prif Weinidog. Daw Cwestiwn 1 gan Simon Thomas.

### Datganoli Rhagor o Bwerau

### The Devolution of Further Powers

13:30

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

*1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â datganoli rhagor o bwerau pellach i Gymru? OAQ(4)2130(FM)*

*1. What discussions has the First Minister held with the UK Government regarding the devolution of further powers to Wales? OAQ(4)2130(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae sawl trafodaeth wedi cymryd lle dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf.

A number of discussions have taken place over the past few weeks and months.

13:31

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Fel y byddwn i wedi gobeithio, Brif Weinidog.

As I would have hoped, First Minister.

Un enghraifft o le mae datganoli honedig wedi bod yn fethiant i Gymru yw'r datganoli a ddigwyddodd gyda'r heddlu a sefydlu comisiynwyr yr heddlu. Mae hwnnw wedi arwain at fwy o benderfyniadau pwysig i ni yng Nghymru yn cael eu cymryd y tu fas i Gymru, a dweud y gwir. Edrychwch chi ar yr esiampl ddiweddaraf: yr hofrennydd Dyfed-Powys ym Mhen-bre yn cael ei symud gan benderfyniad y tu fas i Gymru. Yn eich barn chi, a fydd yr heddlu yn cael ei ddatganoli ar ôl etholiad cyffredinol nesaf San Steffan?

One example of where alleged devolution has been a failure for Wales is the devolution that happened with policing and the creation of the police and crime commissioners. That has led to more of the important decisions for us here in Wales being taken outside Wales, in all honesty. Look at the most recent example: the helicopter in Dyfed-Powys at Pembrey being moved as a result of a decision taken outside of Wales. In your view, will policing be devolved following the next Westminster general election?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Allaf i ddim siarad am y pleidiau eraill, wrth gwrs, ond ynglŷn â fy mhlaid i, wrth gwrs, mae'r ymrwymiad wedi cael ei wneud i ddatganoli yr heddlu, o ran strwythur yr heddlu yng Nghymru, a'r pŵer i sicrhau a ddylem ni gael comisiynwyr ai peidio. Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

I can't speak for the other parties, of course, but in terms of my party, of course, the commitment has been made to devolve policing, in terms of the structure of the police forces in Wales, and the power to decide as to whether we should have commissioners or not. Of course, that is to be welcomed.

13:31 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Mae'n amlwg y bydd yna fwy o bwerau yn cael eu datganoli i Gymru yn y dyfodol agos. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn gweld pwerau yn cael eu datganoli o'r lle hwn i gymunedau ar draws Cymru. Yn yr amgylchiadau, a allwch chi gadarnhau os byddwch chi'n dal i fod yn Brif Weinidog dros y blynyddau nesaf y byddwch chi yn sicrhau y bydd mwy o bwerau'n cael eu datganoli yn agosach at bobl? Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael ag Ysgrifennydd Cymru ynglŷn â datganoli pwerau i gymunedau ar draws Cymru?

It's clear that further powers will be devolved to Wales in the near future. It's also crucial that we see powers devolved from this place to communities across Wales. In those circumstances can you confirm whether, if you continue to be First Minister over the next few years, you will ensure that further powers are devolved to be closer to the people? What discussions have you had with the Secretary of State for Wales in terms of the devolution of powers to communities across Wales?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddai hwnnw ddim yn rhywbeth, wrth gwrs, i Ysgrifennydd Cymru: mae hwnnw wedi cael ei ddatganoli. Ar ôl inni ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru, wedyn y byddwn ni mewn sefyllfa i sicrhau pa bwerau y dylid eu rhoi iddyn nhw—a hefyd i gynghorau trefi a chymunedau. Un o'r pethau y mae'r Papur Gwyn yn sôn amdano yw ym mha ffordd y gallwn ni ddatganoli pwerau iddyn nhw. Allwn ni ddim â thrin pob un ohonyn nhw yn yr un ffordd, achos y gwahanol meintiau sydd gan y cynghorau eu hunain, ond rwyf o blaid sicrhau ein bod ni'n gallu datganoli i lawr i gymunedau, lle mae'n bosibl i wneud hynny.

Well, that wouldn't be a matter for the Secretary of State for Wales, as that's been devolved. Following the restructuring of local government in Wales, we will then be in a position to decide which powers to provide to them—and to town and community councils, as well. One of the things that the White Paper mentions is how we can devolve powers to them. We can't treat them all in the same way because of the different sizes of the councils themselves, but I am in favour of ensuring that we can devolve down to communities, where it's possible to do so.

## Galwadau 999 Diangen

## Unnecessary 999 Call-outs

13:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae galwadau 999 diangen yn ei chael ar wasanaethau ambiwlans brys yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2136(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the impact unnecessary 999 call-outs is having on emergency ambulance services in north Wales? OAQ(4)2136(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, they place additional pressure on the ambulance services across the whole of Wales, diverting resources away from life-threatening incidents. We do continue to encourage members of the public to use Choose Well and, of course, to only use the 999 service for genuine medical emergencies.

Wel, maen nhw'n rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru gyfan, gan dynnu adnoddau oddi wrth ddigwyddiadau sy'n bygwth bywyd. Rydym ni'n parhau i annog y cyhoedd i ddefnyddio Dewis Doeth ac, wrth gwrs, i ddefnyddio'r gwasanaeth 999 dim ond ar gyfer achosion brys meddygol dilys.

13:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I welcome the £11 million investment recently announced to improve the performance of the ambulance service, but new figures show that one in six calls in north Wales last year could've been dealt with by another NHS service. What other initiatives, apart from the Choose Well campaign, are being taken to reduce the number of these unnecessary 999 calls, to ease the pressure on the ambulance service and ensure patients get the treatments they actually need?

Diolch i chi am hynna. Rwy'n croesawu'r buddsoddiad o £11 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar i wella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans, ond mae ffigurau newydd yn dangos y gallai gwasanaeth GIG arall fod wedi ymdrin ag un o bob chwe galwad yn y gogledd y llynedd. Pa fentrau eraill, ac eithrio ymgyrch Dewis Doeth, sy'n cael eu mabwysiadu i leihau nifer y galwadau 999 diangen hyn, i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans ac i sicrhau bod cleifion yn cael y triniaethau y mae wir eu hangen arnynt?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, three things: Choose Well, which the Member has referred to, is making sure that people understand that the first place to go in many instances is a pharmacy and then, of course, possibly a practice nurse, GP and so forth; also using 111 as a service rather than 999 to obtain medical advice to see whether, in fact, a 999 call is needed; and, of course, improving access to GPs. We've seen great progress in that regard since 2012.

Wel, tri pheth: mae Dewis Doeth, y mae'r Aelod wedi cyfeirio ato, yn gwneud yn siŵr bod pobl yn deall mai'r lle cyntaf i fynd iddo mewn llawer o achosion yw fferyllfa ac yna, wrth gwrs, efallai nyrs practis, meddyg teulu ac yn y blaen; a hefyd, defnyddio 111 fel gwasanaeth yn hytrach na 999 i gael cyngor meddygol i weld pa un a oes angen galwad 999 mewn gwirionedd; ac, wrth gwrs, gwella mynediad at feddygon teulu. Rydym ni wedi gweld gwelliant sylweddol yn hynny o beth ers 2012.

13:34 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

First Minister, with the proposed changes at Ysbyty Glan Clwyd in relation to maternity obstetrics and gynaecology, what assessment have you made of the additional pressures on the ambulance service in north Wales in respect of mothers who may need to be transported? We know that 46% of new mothers may need to be transported from an all-midwife led unit and 10% of mothers anticipating a normal birth. So, what measures have you taken to assess that impact?

Brif Weinidog, o gofio'r newidiadau arfaethedig yn Ysbyty Glan Clwyd o ran obstetreg mamolaeth a gynaecoleg, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth ambiwlans yn y gogledd o ran mamau y gallai fod angen eu cludo? Rydym ni'n gwybod y gallai fod angen i 46% o famau newydd gael eu cludo o uned dan arweiniad bydwragedd yn gyfan gwbl a 10% o famau sy'n rhagweld genedigaeth normal. Felly, pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i asesu'r effaith honno?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's a matter, of course, for the local health board. There will undoubtedly be an impact in terms of having to take some mothers from the area to Wrexham and to Bangor. That's why, of course, it's absolutely essential that the current situation at Glan Clwyd is purely temporary.

Wel, mater i'r bwrdd iechyd lleol yw hwn, wrth gwrs. Nid oes amheuaeth y bydd effaith o ran gorfod mynd â rhai mamau o'r ardal i Wrecsam ac i Fangor. Dyna pam, wrth gwrs, mae'n gwbl hanfodol mai sefyllfa dros dro yn unig yw'r un bresennol yng Nglan Clwyd.

13:35 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Yn sicr, mae galwadau dianghenraid yn cyfrannu at y broblem, ond, wrth gwrs, y gwir yw bod niferoedd y galwadau ffug, er enghraifft, wedi disgyn—o dros 2,500 bum mlynedd yn ôl, i ryw 1,200. Mae wedi haneru, mewn gwirionedd, dros y cyfnod o bum mlynedd ddiwethaf. Onid y gwir yw bod rhai o broblemau, a phrif broblemau, y gwasanaeth ambiwlans yn seiliedig ar fethiant eich Llywodraeth chi i gynllunio gwasanaethau mewn modd sydd yn ateb y galw fel ag y mae heddiw?

Undoubtedly, unnecessary calls do contribute to the problem, but of course the truth is that the number of hoax calls, for example, has fallen from 2,500 five years ago to some 1,200. So, that figure has actually halved over that period of five years. Isn't it true to say that some of the problems, and the major problems at that, of the ambulance service are as a result of the failure of your Government to plan services in a way that responds to the demand that actually exists today?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, dyna beth rydym yn ei wneud, wrth gwrs. Mae ei blaid ef wedi sefyll yn erbyn rhai o'r newidiadau sydd wedi cymryd lle. Rydym ni'n moyn sicrhau, wrth gwrs, fod pobl yn gallu cael triniaeth mor agos ag sy'n bosibl i ble maen nhw'n byw, ond mae'n bwysig dros ben hefyd i sicrhau bod triniaethau yn driniaethau saff, a sicrhau bod yr arbenigedd ar gael i sicrhau bod y driniaeth yna yn saff.

Well, that's what we're doing, of course. His party has actually opposed some of the changes that have taken place. What we want to ensure, of course, is that people can receive treatment as close as possible to wherever they live, but it is also absolutely vital that we ensure that treatments are safe, and that we have the expertise available to ensure that treatments are safe.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:36 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, two weeks ago, I asked you about the maternity changes that were proposed by the health board in north Wales around Ysbyty Glan Clwyd. You said that, by the summer of 2016, those services should be reinstated. A couple of days later, the Minister for Health and Social Services then drew attention to what he believed: that it was a 12-month delay for these services to be reinstated. The health board have said that it could be as late as 2017, when the new intensive care unit is established. Who is correct? Because, if you take any one of those dates, it is deeply troubling for anyone with maternity services who care about them in north Wales.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, bythefnos yn ôl, gofynnais ichi am y newidiadau mamolaeth a gynigiwyd gan y bwrdd iechyd yn y gogledd yn ymwneud ag Ysbyty Glan Clwyd. Dywedasoch y dylai'r gwasanaethau hynny gael eu hailgyflwyno erbyn haf 2016. Diwrnod neu ddau yn ddiweddarach, tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw wedyn at yr hyn yr oedd ef yn ei gredu: y byddai oedi o 12 mis cyn ailgyflwyno'r gwasanaethau hyn. Mae'r bwrdd iechyd wedi dweud y gallai fod mor hwyr â 2017, pan gaiff yr uned gofal dwys newydd ei sefydlu. Pwy sy'n iawn? Oherwydd, os cymerwch chi unrhyw un o'r dyddiadau hynny, mae'n peri pryder mawr i unrhyw un yn y gwasanaethau mamolaeth sy'n bryderus amdanyn nhw yn y gogledd.

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let me be quite clear: we expect those services to be restored within 12 months. I've seen the reference to 18 months and beyond; we do not accept that. The local health board must ensure that they're in a position to restore those services in the 12-month period that was originally envisaged.

Gadewch imi fod yn gwbl eglur: rydym ni'n disgwyl i'r gwasanaethau hynny gael eu hailgyflwyno o fewn 12 mis. Rwyf wedi gweld y cyfeiriad at 18 mis a thu hwnt; nid ydym ni'n derbyn hynny. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol sicrhau ei fod mewn sefyllfa i ailgyflwyno'r gwasanaethau hynny yn y cyfnod o 12 mis a ragwelwyd yn wreiddiol.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that very clear answer, First Minister. So, certainly, residents in north Wales can expect to have the service back up to consultant-led level this time next year, without a shadow of a doubt—in my view, that's a 12-month period. But the other concern came out last week, when the medical director talked about, I think the words he used were, 'sleepwalking into disaster' if there wasn't a centralisation of existing services, i.e. downgrading of services at district general hospitals. Do you identify with the proposals that he has put forward, and can you see services being taken away from district general hospitals across north Wales?

Diolch ichi am yr ateb eglur iawn yna, Brif Weinidog. Felly, yn bendant, gall trigolion yn y gogledd ddisgwyl y bydd y gwasanaeth yn ôl hyd at y lefel o fod dan arweiniad ymgynghorwyr yr adeg hon y flwyddyn nesaf, heb unrhyw amheuaeth—dyna yw cyfnod o 12 mis yn fy nhyb i. Ond codwyd y pryder arall yr wythnos diwethaf, pryd y soniodd y cyfarwyddwr meddygol am, rwy'n credu mai'r geiriau a ddefnyddiodd oedd, gerdded yn ddiarwybod i mewn i drychineb pe na byddai gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn cael eu canoli, h.y. israddio gwasanaethau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth. A ydych chi'n uniaethu â'r cynigion y mae wedi eu cyflwyno, ac a allwch chi weld gwasanaethau'n cael eu cymryd oddi wrth ysbytai cyffredinol dosbarth ledled y gogledd?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. What I can envisage is when the sub-regional neonatal intensive care centre is established at Glan Clwyd—and I make it absolutely clear that Glan Clwyd is the site that the SuRNICC will be established at—then there will be a need to examine services in Bangor and Wrexham, in relation to what's provided then at the SuRNICC. But it's been made absolutely clear—and I make this point again to the local health board—we expect that service to be restored within 12 months. This cannot be anything other than a temporary situation.

Na allaf. Yr hyn y gallaf ei ragweld yw pan fydd y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig wedi ei sefydlu yng Nglan Clwyd—ac rwy'n ei gwneud yn gwbl eglur mai Glan Clwyd yw'r safle lle bydd y ganolfan yn cael ei sefydlu—yna bydd angen archwilio gwasanaethau ym Mangor a Wrecsam, o ran yr hyn a ddarperir wedyn yn y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Ond fe'i gwnaed yn gwbl eglur—ac rwy'n gwneud y pwynt hwn eto i'r bwrdd iechyd lleol—rydym ni'n disgwyl i'r gwasanaeth hwnnw gael ei ailgyflwyno o fewn 12 mis. Ni all hon fod yn unrhyw beth heblaw sefyllfa dros dro.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I think, in fairness, in respect of the medical director, he was talking more generally about services across the DGHs, across the whole of north Wales, and the existence of services to be provided on all three sites. So, I accept your assurances about the service being replaced within 12 months' time. I hope the health board are listening, because, certainly, that's not the timeline that people have been given in other areas. But, obviously, the medical director was talking specifically about the removal of other services at the district general hospitals across north Wales. Is it your understanding that, in 12 or 18 months' time, the district general hospitals in north Wales will be providing the full array of services that you would typically identify with a district general hospital?

Rwy'n meddwl, i fod yn deg, o ran y cyfarwyddwr meddygol, ei fod yn siarad yn fwy cyffredinol am wasanaethau ar draws yr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, ar hyd a lled y gogledd, a bodolaeth gwasanaethau i'w darparu ar bob un o'r tri safle. Felly, rwy'n derbyn eich sicrwydd am y gwasanaeth yn cael ei ailgyflwyno o fewn 12 mis. Rwy'n gobeithio bod y bwrdd iechyd yn gwrando, oherwydd, yn sicr, nid dyna'r amserlen a roddwyd i bobl mewn ardaloedd eraill. Ond, yn amlwg, roedd y cyfarwyddwr meddygol yn siarad yn benodol am gael gwared ar wasanaethau eraill yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth ar draws y gogledd. Ai eich dealltwriaeth chi yw y bydd yr ysbytai cyffredinol dosbarth yn y gogledd yn darparu'r holl wasanaethau y byddech chi fel arfer yn eu cysylltu ag ysbyty cyffredinol dosbarth ymhen 12 neu 18 mis?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is no reason to suppose otherwise. I understand how difficult this issue is for the people who live around Glan Clwyd. I know, for example, that the 'Daily Post' have been particularly concerned around the issues that they have raised on behalf of members of the public, and, indeed, Members themselves within this Chamber—Ann Jones, and I mention Darren Millar, of course, in that regard. What I can say is that, when the SuRNICC is established, yes, there will be a need to look at some of the services that the other DGHs provide, because of the services that would then be available in the SuRNICC, but I do not anticipate there being major service changes in Betsi Cadwaladr University Local Health Board in the meantime, while what has to be a temporary situation at Glan Clwyd is resolved.

Nid oes unrhyw reswm i feddwl fel arall. Rwy'n deall pa mor anodd yw'r mater hwn i'r bobl sy'n byw o amgylch Glan Clwyd. Rwy'n gwybod, er enghraifft, bod y 'Daily Post' wedi bod yn arbennig o bryderus o ran y materion y mae wedi eu codi ar ran y cyhoedd, ac, yn wir, yr Aelodau eu hunain yn y Siambr hon—Ann Jones, ac rwy'n crybwyll Darren Millar, wrth gwrs, yn hynny o beth. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw pan fydd y SuRNICC wedi ei sefydlu, bydd, mi fydd angen edrych ar rai o'r gwasanaethau y mae'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth eraill yn eu darparu, oherwydd y gwasanaethau a fyddai ar gael erbyn hynny yn y SuRNICC, ond nid wyf yn rhagweld y bydd newidiadau mawr i wasanaethau ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y cyfamser, tra bod sefyllfa y mae'n rhaid iddi fod yn un dros dro yng Nglan Clwyd yn cael ei datrys.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, city deals have brought investment and opportunities to cities like Glasgow and Sheffield, with billions of pounds of UK Government money being spent and invested. What discussions have you had, and your Government, with the City of Cardiff Council, to help them design a bid for their own city deal?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae cytundebau dinas wedi dod â buddsoddiad a chyfleoedd i ddinasoedd fel Glasgow a Sheffield, wrth i filiynau o bunnoedd o arian Llywodraeth y DU gael ei wario a'i fuddsoddi. Pa drafodaethau ydych chi, a'ch Llywodraeth, wedi eu cael gyda Chyngor Dinas Caerdydd, i'w helpu i gynllunio cais am eu cytundeb dinas eu hunain?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's ultimately a matter, of course, for Cardiff council. I know that the original understanding was that city deal money was available for English cities—that was until Glasgow, of course, received that money. I do understand the Minister has written to the appropriate UK Government Minister requesting further information on how this could be taken forward.

Mae hwn yn fater yn y pen draw, wrth gwrs, i gyngor Caerdydd. Gwn mai'r ddealltwriaeth wreiddiol oedd bod arian cytundeb dinas ar gael i ddinasoedd Lloegr—tan i Glasgow, wrth gwrs, dderbyn yr arian hwnnw. Rwyf yn deall bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at Weinidog priodol Llywodraeth y DU yn gofyn am fwy o wybodaeth am sut y gellid bwrw ymlaen â hyn.

13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you, First Minister. The last we heard anything about a city deal from your Labour colleagues on Cardiff council, who you say need to be at the forefront of this discussion, was in November, and there have been no developments since. Perhaps the reason that no progress has been made is because, in the words of Cardiff's Labour MP Stephen Doughty, your party's running of the capital city is, and I quote, 'appalling'. What confidence do you have in the Labour administration to bring the millions of pounds of investment that a city deal would bring to our capital city?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Y tro diwethaf y clywsom ni unrhyw beth am gytundeb dinas gan eich cydweithwyr Llafur ar gyngor Caerdydd, yr ydych chi'n dweud bod angen iddyn nhw fod yn flaenllaw yn y drafodaeth hon, oedd ym mis Tachwedd, ac ni fu unrhyw ddatblygiadau ers hynny. Efallai mai'r rheswm nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud yw oherwydd, yng ngeiriau'r AS Llafur dros Gaerdydd, Stephen Doughty, bod y ffordd y mae eich plaid yn rhedeg y brifddinas, ac rwy'n dyfynnu, yn 'warthus'. Pa hyder sydd gennych chi yn y weinyddiaeth Lafur i ddod â'r miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad y byddai cytundeb dinas yn ei ddenu i'n prifddinas?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Every confidence, working, of course, within the city region board; that much is important as well. The leader of the Liberal Democrats will know that the report recently published suggests there may be a potential role for a city deal, but there needs to be a regional consensus in terms of developing a viable proposal for the future. I also see the work that Cardiff have done in terms of the Great Western Cities initiative, and I'm fully confident that Cardiff is well able to work closely with authorities around it, and indeed those across the border, for the benefit of all.

Pob hyder, gan weithio, wrth gwrs, o fewn bwrdd y ddinas-ranbarth; mae cymaint â hynny'n bwysig hefyd. Bydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod bod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu y gallai fod swyddogaeth bosibl i gytundeb dinas, ond mae angen consensws rhanbarthol o ran datblygu cynnig dichonadwy ar gyfer y dyfodol. Rwyf hefyd yn gweld y gwaith y mae Caerdydd wedi ei wneud o ran y fenter Dinasoedd Great Western, ac rwy'n gwbl hyderus bod Caerdydd wir yn gallu gweithio'n agos ag awdurdodau o'i chwmpas, a'r rhai dros y ffin yn wir, er budd pawb.

13:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

I'm glad to hear, First Minister, that you have confidence about the ability of the leadership of Cardiff to deliver on a city deal, because your own Deputy Minister, sitting behind you, claimed that he'd been actively misled by the Labour leadership of the council in recent events. Now, a city deal could be a real engine for regenerating not just Cardiff, but the wider region. Why should anyone have faith in the leadership of Cardiff city council, when your MPs don't; Vaughan Gething, the Deputy Minister, doesn't, and a sizeable number of the Labour councillors on the council indeed don't seem to.

Rwy'n falch o glywed, Brif Weinidog, bod gennych hyder yng ngallu arweinyddiaeth Caerdydd i ddarparu cytundeb dinas, gan fod eich Dirprwy Weinidog eich hun, sy'n eistedd y tu ôl i chi, wedi honni iddo gael ei gamarwain yn ymarferol gan arweinyddiaeth Lafur y cyngor mewn digwyddiadau diweddar. Nawr, gallai cytundeb dinas fod yn sbardun gwirioneddol ar gyfer adfywio Caerdydd yn ogystal â'r rhanbarth ehangach. Pam dylai unrhyw un fod â ffydd yn arweinyddiaeth cyngor dinas Caerdydd, pan nad oes gan eich ASau eich hun ffydd ynddi; Nid oes gan Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog, ffydd ynddi, ac nid yw'n ymddangos bod gan nifer sylweddol o'r cynghorwyr Llafur ar y cyngor y ffydd honno ychwaith.

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

But the electorate do, don't they? And we've seen the result that happened in Cardiff in 2012, and indeed, all by-elections since, which show that there is certainly a strong level of support for the Labour administration running Cardiff city. I have full confidence that they are well able to deliver the economic benefits that the people of Cardiff would expect.

Ond mae gan yr etholwyr, onid oes? Ac rydym ni wedi gweld y canlyniad a gafwyd yng Nghaerdydd yn 2012, ac yn wir, ym mhob isetholiad ers hynny, sy'n dangos yn bendant bod lefel gref o gefnogaeth i'r weinyddiaeth Lafur sy'n rhedeg dinas Caerdydd. Mae gennyf bob hyder y gall y weinyddiaeth honno ddarparu'r manteision economaidd y byddai pobl Caerdydd yn eu disgwyl.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, Heriot-Watt University have published findings showing that 30% of people in Wales struggle with mental and physical pain that is associated with chronic illness. Now, your Government has responded by saying that you would encourage people to work with health and voluntary organisations. Can you tell us what exactly does that mean for the 800,000 people currently in pain in Wales today?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae Prifysgol Heriot-Watt wedi cyhoeddi canfyddiadau sy'n dangos bod 30% o bobl yng Nghymru yn ei chae hi'n anodd ymdopi â phoen meddyliol a chorfforol sy'n gysylltiedig â salwch cronig. Nawr, mae eich Llywodraeth chi wedi ymateb trwy ddweud y byddech yn annog pobl i weithio gyda sefydliadau iechyd a gwirfoddol. A allwch chi ddweud wrthym beth yn union mae hynny'n ei olygu ar gyfer yr 800,000 o bobl sydd mewn poen yng Nghymru ar hyn o bryd?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, ultimately, of course, I'd expect somebody to seek medical advice in terms of the pain that they're in. It's very difficult to give a blanket response because it depends on the individual's condition. Nevertheless, I believe certainly that the health service is well able to offer the right level of pain relief to people, although, for some people, their conditions will be more difficult than others.

Wel, yn y pen draw, wrth gwrs, byddwn yn disgwyl i rywun ofyn am gyngor meddygol o ran y boen y maen nhw'n ei ddioddef. Mae'n anodd iawn rhoi ymateb cyffredinol gan ei bod yn dibynnu ar gyflwr yr unigolyn. Serch hynny, rwy'n credu'n bendant bod y gwasanaeth iechyd yn gallu cynnig y lefel gywir o laddwyr poen i bobl, er, i rai pobl, bydd eu cyflyrau'n fwy anodd nag eraill.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

I doubt that will offer much comfort to people, First Minister. I'd like to tell you about a case of mine. Someone contacted me about a case where there was a cursory examination by a GP; the woman was prescribed paracetamol, referred for an x-ray, and told that such pain happens at a certain age. A few days later, this 60-year-old constituent was in more pain, was unable to walk and sought advice from out-of-hours help. Her GP told her that she needed an ultrasound scan, but that there could be up to a 10-month wait before that scan was carried out. The GP then suggested that the patient might consider private medicine as the tests would then be done much quicker. First Minister, are you concerned that people are being forced to go private because they cannot cope with distressing pain for long periods of time?

Rwy'n amau a fydd hynny'n cynnig llawer o gysur i bobl, Brif Weinidog. Hoffwn ddweud wrthych am un o'm hachosion i. Cysylltodd rhywun â mi am achos lle bu archwiliad brysiog gan feddyg teulu; rhoddwyd parasetamol ar bresgripsiwn i'r fenyw, fe'i cyfeiriwyd ar gyfer belydr-x, a dywedwyd wrthi fod poen o'r fath yn digwydd ar ôl cyrraedd oedran penodol. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, roedd yr etholwr 60 mlwydd oed hon mewn mwy o boen, nid oedd hi'n gallu cerdded a gofynnodd am gyngor gan gymorth y tu allan i oriau arferol. Dywedodd ei meddyg teulu wrthi bod angen sgan uwchsain arni, ond y gallai fod cyfnod aros o hyd at 10 mis cyn cynnal y sgan hwnnw. Yna, awgrymodd y meddyg teulu y gallai'r claf ystyried meddygaeth breifat gan y byddai'r profion yn cael eu cynnal yn llawer cyflymach wedyn. Brif Weinidog, a ydych chi'n pryderu bod pobl yn cael eu gorfodi i fynd yn breifat gan na allant ymdopi â phoen dioddefus am gyfnodau hir o amser?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of Plaid Cymru has offered one example. I'm not in a position to contradict her; I don't know the person's background, of course. It sounded from what she was saying at the beginning that the complaint was against the GP rather than Government, in terms of the way the person had been handled at the outset. Now, without knowing the full facts surrounding the case—and I have no reason to doubt what she and her constituent are saying—it's very difficult to offer a view on an individual. However, of course, if she wants to provide me with the details about the particular case, we would be more than happy to examine them.

Mae arweinydd Plaid Cymru wedi cynnig un enghraifft. Nid wyf mewn sefyllfa i wrthddweud yr hyn a ddywedodd; nid wyf yn gwybod am gefndir yr unigolyn, wrth gwrs. Mae'n swnio, o'r hyn y dywedodd i gychwyn, bod y gŵyn yn erbyn y meddyg teulu yn hytrach na'r Llywodraeth, o ran y ffordd yr ymdriniwyd â'r person ar y cychwyn. Nawr, heb wybod y ffeithiau llawn sy'n berthnasol i'r achos—ac nid oes gennyf unrhyw reswm i amau'r hyn y mae hi a'i hetholwr yn ei ddweud—mae'n anodd iawn cynnig safbwynt ar unigolyn. Fodd bynnag, wrth gwrs, os hoffai hi roi manylion yr achos penodol i mi, byddem yn fwy na pharod i edrych arnynt.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

It’s not okay, First Minister, to have to wait 10 months on the NHS. What patients want now, especially the 800,000 people who are living in pain, is a clear indication from you that things are going to get better and not worse. Now, your party is expected to unleash a further billion pounds worth of cuts to the Welsh budget if it wins the election in May. Is it not the case that as waiting lists increase, as more people are forced to live with pain for longer, more people will be going private? Is it not the case that while there is open privatisation of the NHS in England, there is hidden privatisation by the back door here in Wales?

Nid yw’n iawn, Brif Weinidog, i orfod aros 10 mis ar y GIG. Yr hyn y mae cleifion ei eisiau nawr, yn enwedig yr 800,000 o bobl sy'n byw mewn poen, yw arwydd eglur gennych chi fod pethau'n mynd i wella ac nid gwaethygu. Nawr, disgwylir i’ch plaid chi wneud toriadau pellach gwerth biliwn o bunnoedd arall i gyllideb Cymru os bydd yn ennill yr etholiad ym mis Mai. Onid yw'n wir, wrth i restrau aros gynyddu, wrth i fwy o bobl gael eu gorfodi i fyw gyda phoen am fwy o amser, y bydd mwy o bobl yn mynd yn breifat? Onid yw'n wir tra bod y GIG yn cael ei breifateiddio’n agored yn Lloegr, bod preifateiddio cudd drwy'r drws cefn yn digwydd yma yng Nghymru?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the suggestion that there’s going to be a billion pounds of cuts to the Welsh budget is nonsense, and I would challenge the leader of Plaid Cymru—she does this quite often—I challenge the leader of Plaid Cymru to produce those figures, so that people can see. A billion pounds-worth—a billion pounds-worth—of cuts, she is saying. I do not accept that for one moment.

Yn gyntaf oll, lol yw’r awgrym y bydd toriadau gwerth biliwn o bunnoedd i gyllideb Cymru, a byddwn yn herio arweinydd Plaid Cymru—mae hi'n gwneud hyn yn eithaf aml—rwy’n herio arweinydd Plaid Cymru i gyflwyno’r ffigurau hynny, fel y gall pobl weld. Gwerth biliwn o bunnoedd—gwerth biliwn o bunnoedd—o doriadau, mae hi'n ei ddweud. Nid wyf yn derbyn hynny am eiliad.

I have to say that, as she talks about privatisation, there is no evidence of privatisation in the Welsh NHS. We are committed to public services. We have seen, for example, pay deals that have been more favourable to staff—that we very much cherish—working in the NHS. We have ensured, for example, that our district general hospitals are providing the services that we think they should. We know that nine out of 10 people do get a good service from the Welsh NHS, but it’s important to focus on the one out of 10 people—and her constituent might well be one of those people—who don’t get the service perhaps that they deserve, and that is where our efforts will be focused in the future, to make sure that those people get that service.

Mae'n rhaid i mi ddweud, wrth iddi siarad am breifateiddio, nad oes unrhyw dystiolaeth o breifateiddio yn y GIG yng Nghymru. Rydym ni wedi ymrwymo i wasanaethau cyhoeddus. Rydym ni wedi gweld, er enghraifft, cytundebau cyflog sydd wedi bod yn fwy ffafriol i staff—yr ydym yn eu trysori’n fawr—sy’n gweithio yn y GIG. Rydym ni wedi sicrhau, er enghraifft, bod ein hysbytai cyffredinol dosbarth yn darparu'r gwasanaethau yr ydym ni’n credu y dylent. Rydym ni’n gwybod bod naw o bob 10 o bobl yn cael gwasanaeth da gan y GIG yng Nghymru, ond mae'n bwysig canolbwyntio ar yr un o bob 10 o bobl—ac efallai’n wir fod ei hetholwr hi yn un o’r bobl hynny—nad ydynt yn cael y gwasanaeth efallai y maen nhw’n ei haeddu, a dyna lle byddwn ni’n canolbwyntio ein hymdrechion yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl hynny’n cael y gwasanaeth hwnnw.

Now, what Plaid Cymru need to explain of course—I’m not going to put a question to them today—but what Plaid Cymru will need to explain over the course of the next few weeks is, if they complain about the financial situation, where then would they get the money from?

Nawr, yr hyn y mae angen i Blaid Cymru ei esbonio wrth gwrs—nid wyf yn mynd i ofyn cwestiwn iddyn nhw heddiw—ond yr hyn y bydd angen i Blaid Cymru ei esbonio yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf yw, os ydynt yn cwyno am y sefyllfa ariannol, o ble bydden nhw’n cael yr arian felly?

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the agenda, and it’s question 3—Eluned Parrott.

Symudwn yn ôl nawr at gwestiynau ar yr agenda, a chwestiwn 3—Eluned Parrott.

### Dinas-ranbarth Caerdydd

### The Cardiff City Region

13:46 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(4)2124(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Cardiff City Region? OAQ(4)2124(FM)*

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Good progress is being made with the city region and they published their vision for the growth of the region earlier this month.

Mae cynnydd da’n cael ei wneud gyda'r ddinas-ranbarth a chyhoeddwyd eu gweledigaeth ar gyfer twf y rhanbarth yn gynharach y mis hwn.

13:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. Just two weeks ago, you indicated that applying for a city deal for Cardiff would be a matter for that city region board, not the local authorities, and you said that you would be supportive of them in that. The following day, your economy Minister then confirmed that discussions had taken place along those lines. However, I am therefore surprised that today you seem to be suggesting that it is Cardiff council that will be taking that matter forward. Can I ask who has been involved in these discussions, and if it is to be Cardiff council now leading the charge for the Cardiff city region, how will the people of the rest of the city region hold this programme democratically to account?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Dim ond pythefnos yn ôl, dywedasoch mai mater i fwrdd y ddinas-ranbarth honno fyddai gwneud cais am gytundeb dinas i Gaerdydd, nid i’r awdurdodau lleol, a dywedasoch y byddech yn eu cefnogi yn hynny o beth. Y diwrnod canlynol, cadarnhaodd eich Gweinidog economi bod trafodaethau wedi’u cynnal i’r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, rwy’n synnu, felly, ei bod yn ymddangos heddiw eich bod yn awgrymu mai cyngor Caerdydd fydd yn bwrw ymlaen â’r mater hwnnw. A gaf i ofyn pwy sydd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn, ac os mai cyngor Caerdydd fydd yn arwain yr ymdrech dros dinas-ranbarth Caerdydd bellach, sut y gwnaiff pobl gweddill y ddinas-ranbarth ddwyn y rhaglen hon i gyfrif mewn modd democrataidd?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That seems to be completely different to what was said by your leader, but there we are, I’ll try to answer your question. The reality is this: Cardiff city, working with the other regions around the city, are in a position, should they wish, to apply for a city deal. Bear in mind, of course—if I remember rightly—it was Glasgow and the Clyde valley that formed part of the city deal in Scotland, not just, I think, the city of Glasgow itself. So, yes, the board itself can consider applying for a city deal—there’s no difficulty in that—and it’s something, certainly as a Government, we are keen to support.

Mae’n ymddangos bod hynny'n gwbl wahanol i'r hyn a ddywedwyd gan eich arweinydd, ond dyna ni, byddaf yn ceisio ateb eich cwestiwn. Y gwir amdani yw hyn: mae dinas Caerdydd, gan weithio gyda’r rhanbarthau eraill o amgylch y ddinas, mewn sefyllfa, pe byddai’n dymuno, i wneud cais am gytundeb dinas. Cofiwch, wrth gwrs—os cofiaf yn iawn—Glasgow a dyffryn Clyde oedd yn ffurfio rhan o'r cytundeb dinas yn yr Alban, nid dim ond, rwy’n meddwl, dinas Glasgow ei hun. Felly, gall, mi all y bwrdd ei hun ystyried gwneud cais am gytundeb dinas—nid oes unrhyw broblem o ran gwneud hynny—ac mae'n rhywbeth, yn sicr fel Llywodraeth, yr ydym ni’n awyddus i’w gefnogi.

13:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Obviously, for the city region to succeed, the proposals that are outlined in its report obviously need to be taken forward and enacted. I believe the report didn’t have any clear recommendations; it just had bold aspirations. Do you not believe that the model of the Cardiff bay regeneration board, when it regenerated this particular part of Cardiff, could be a good model to work off, especially around statutory powers for example, to make sure that some of the proposals that are contained within the report and some of the aspirations of the board are carried through, rather than it just being another bit of paper sitting on many desks across south-east Wales.

Yn amlwg, er mwyn i’r ddinas-ranbarth lwyddo, mae’n amlwg bod angen i’r cynigion a amlinellir yn ei adroddiad gael eu datblygu a’u rhoi ar waith. Rwy’n credu nad oedd unrhyw argymhellion eglur yn yr adroddiad; dim ond dyheadau beiddgar oedd ynddo. Onid ydych chi’n credu y gallai model bwrdd adfywio bae Caerdydd, pan adfywiodd y rhan benodol hon o Gaerdydd, fod yn fodel da i weithio’n unol ag ef, yn enwedig o ran pwerau statudol er enghraifft, i wneud yn siŵr bod rhai o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a rhai o ddyheadau’r bwrdd yn cael eu cyflawni, yn hytrach na’i fod yn ddim ond ddarn arall o bapur yn eistedd ar lawer o ddesgiau ledled y de-ddwyrain.

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would not be in favour of setting up another quango with all the costs that that would involve. I think it’s perfectly possible for the local authorities to work together and, indeed, with us, to get the positive change that people would expect in a city region.

Ni fyddwn o blaid sefydlu cwango arall gyda'r holl gostau y byddai hynny'n ei olygu. Rwy'n credu ei bod yn berffaith bosibl i'r awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd ac, yn wir, gyda ni, er mwyn cael y newid cadarnhaol y byddai pobl yn ei ddisgwyl mewn dinas-ranbarth.

## Sefyll Diogel mewn Stadia Pêl-Droed

## Safe Standing at Football Stadia

13:49 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi galwadau i dreialu sefyll ddiogel yn stadia pêl-droed Cymru? OAQ(4)2128(FM)*

*4. How does the Welsh Government plan to support calls for a trial for safe standing at football stadia in Wales? OAQ(4)2128(FM)*

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters, of course, for the Department for Culture, Media and Sport and the Sports Grounds Safety Authority. They're not devolved to Wales.

Materion yw'r rhain, wrth gwrs, i'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwarae. Nid ydynt wedi'u datganoli i Gymru.

13:49 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I appreciate that, First Minister, and that's why I asked what you could do to support calls for a trial for safe standing. As you know, the leader of the Welsh Conservatives has done just that, with the Football Supporters Federation and meeting Swansea City and Cardiff fans, all of whom support a safe standing trial. He's approached the UK Minister, and the league clubs wish to lobby the UK Government on the issue. So, will you join those voices, which actually back the Assembly's voice, with a view to getting an effective trial here in Wales?

Rwy'n sylweddoli hynny, Brif Weinidog, a dyna pam y gofynnais beth allech chi ei wneud i gefnogi galwadau am brawf ar gyfer sefyll diogel. Fel y gwyddoch, mae arweinydd Ceidwadwyr Cymru wedi gwneud yn union hynny, gyda'r Ffederasiwn Cefnogwyr Pêl-droed ac wedi cyfarfod â chefnogwyr Abertawe a Chaerdydd, pob un ohonynt yn cefnogi prawf sefyll diogel. Mae wedi cysylltu â Gweinidog y DU, a chlybiau'r gynghrair sy'n dymuno lobïo Llywodraeth y DU ar y mater. Felly, a wnewch chi ymuno â'r lleisiau hynny, sy'n cefnogi llais y Cynulliad mewn gwirionedd, gyda'r bwriad o gael prawf effeithiol yma yng Nghymru?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand the point, but I think we should be cautious. We've got to bear in mind that it was after a series of disasters in the 1980s involving old stadia—that's true; not the stadia that we have now—that we had the Taylor report and all-seater grounds, and we should bear that in mind. It's true to say that there are some sports grounds in Wales of significant size, Parc y Scarlets being one of them, that do have standing areas. That much is true, and all of the Welsh Premier League football teams have standing areas, as indeed do the Premiership rugby clubs. It's a matter, ultimately, for the premier league and for the international football bodies particularly to consider. What I wouldn't want to see is alterations being made, for example, to the Cardiff City Stadium that then reduced the capacity of the stadium for international matches where standing is not allowed. So, that's something that would need to be borne in mind.

Rwy'n deall y pwynt, ond rwy'n meddwl y dylem ni fod yn ofalus. Mae'n rhaid i ni gofio mai ar ôl cyfres o drychinebau yn y 1980au yn ymwneud â hen stadia—mae hynny'n wir; nid y stadia sydd gennym ni nawr—y cawsom ni adroddiad Taylor a'r meysydd seddau yn unig, a dylem ni gofio hynny. Mae'n wir i ddweud bod rhai meysydd chwaraeon yng Nghymru o faint sylweddol, Parc y Scarlets yn un ohonynt, sydd â mannau i sefyll. Mae cymaint â hynny'n wir, a cheir mannau sefyll yng nghaeau pob un o dimau pêl-droed Uwch Gynghrair Cymru, ac felly hefyd clybiau rygbi'r Uwch Gynghrair. Mater yw hwn, yn y pen draw, i uwch-gynghrair Lloegr ac i'r cyrff pêl-droed rhyngwladol yn arbennig eu hystyried. Yr hyn na fyddwn i eisiau ei weld yw addasiadau'n cael eu gwneud, er enghraifft, i Stadiwm Dinas Caerdydd a fyddai wedyn yn lleihau capasiti'r stadiwm ar gyfer gemau rhyngwladol pan na chaniateir sefyll. Felly, mae hynny'n rhywbeth y byddai angen ei gadw mewn cof.

It's not something that I would be averse to as somebody who's spent many years standing on terraces, over the years, getting wet in more ways than one, but I think this is the sort of thing that should be proceeded with very carefully, given, of course, the difficult history that we have had with some of the old stadia that existed in the past.

Nid yw'n rhywbeth y byddwn yn ei wrthwynebu fel rhywun sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn sefyll ar derasau, dros y blynyddoedd, yn gwlychu mewn mwy nag un ffordd, ond rwy'n meddwl bod hwn yn fath o beth y dylid bwrw ymlaen ag ef yn ofalus iawn, o ystyried, wrth gwrs, yr hanes anodd yr ydym ni wedi ei gael gyda rhai o'r hen stadia a oedd yn bodoli yn y gorffennol.

13:50 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

As somebody who also stood on the north bank at the Vetch Field in the dark days when crowds were quite small there, I still have the mental and emotional scars from Hillsborough and Heysel, and it must never be forgotten that people, including children, died at those sporting events. If safe standing is going to be trialled—and I don't actually believe you can have safe standing, but that's a personal opinion—will the First Minister ensure that it is fully tested against both crushing and charging, which were the two causes of Hillsborough and Heysel, prior to any licensing taking place?

Fel rhywun a oedd hefyd yn sefyll ar y north bank yng Nghae'r Vetch yn y dyddiau tywyll pryd yr oedd y torfeydd yn eithaf bach yno, mae'r creithiau meddyliol ac emosiynol o Hillsborough a Heysel gen i o hyd, ac ni ddylid fyth anghofio y bu pobl, gan gynnwys plant, farw yn y digwyddiadau chwaraeon hynny. Os y bydd arbrawf sefyll diogel—ac nid wyf yn bersonol yn credu y gallwch chi gael sefyll diogel mewn gwirionedd, ond barn bersonol yw honno—a wnaiff y Prif Weinidog sicrhau y caiff ei brofi'n llawn yn erbyn gwasgu a hyrddio, sef y ddau achos am Hillsborough a Heysel, cyn i unrhyw drwyddedu ddigwydd?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think it's essential, because what we have to remember is that the newer football grounds particularly were not designed to have standing areas. If you take out some of the seats, or you introduce the rail seating that some of the Bundesliga clubs have, a full assessment would have to be made of how that would operate, and, at the moment of course, that wouldn't be possible given the fact that the Premier League, for example, requires all-seater stadia—the same for international matches. So, the balance has to be struck between the understandable concerns of fans—and I understand where they're coming from—up against the need to ensure safety, and to ensure that particularly the football grounds are big enough to host international matches.

Rwy'n credu ei bod yn hanfodol, oherwydd yr hyn y mae'n rhaid i ni ei gofio yw na chynlluniwyd y meysydd pêl-droed mwy newydd yn arbennig i gynnwys mannau sefyll. Os cymerwch chi rai o'r seddi allan, neu os cyflwynwch chi'r seddi rheilen sydd gan rai o glybiau'r Bundesliga, byddai'n rhaid cynnal asesiad llawn o sut y byddai hynny'n gweithredu, ac, ar hyn o bryd wrth gwrs, ni fyddai hynny'n bosibl o ystyried y ffaith fod yr Uwch Gynghrair, er enghraifft, yn gwneud stadia seddi yn unig yn ofynnol—mae'r un peth yn wir ar gyfer gemau rhyngwladol. Felly, mae'n rhaid sicrhau bod y cydbwysedd yn cael ei daro rhwng pryderon dealladwy cefnogwyr—ac rwy'n deall eu safbwynt—a'r angen i sicrhau diogelwch, ac i sicrhau bod y meysydd pêl-droed yn arbennig yn ddigon mawr i gynnal gemau rhyngwladol.

13:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

First Minister, as has been mentioned, we have obviously looked at Hillsborough and other disasters. These are cited as evidence, whereas it was overcrowding, stadium layout and poor policing, not with regard to safe standing. So, I think we should look at this debate in the here and now, and, as has been mentioned, in German clubs they do bolt on temporary seats on terraces, and they remove crush barriers, so these could allow Swansea and Cardiff to be applicable—to put the seats back on for Champions League matches, for example. So, have you had any discussions with the Football Supporters' Federation, because league clubs in Wales are supportive of this concept, and we would like to see you take this matter on further?

Brif Weinidog, fel y soniwyd, rydym ni'n amlwg wedi ystyried Hillsborough a thrychinebau eraill. Cyflwynir y rhain fel tystiolaeth, er mai gorlenwi, cynllun y stadiwm a phlismona gwael oedd yr achos, nid sefyll diogel. Felly, rwy'n credu y dylem ni ystyried y ddadl hon yn y presennol ac, fel y soniwyd, mewn clybiau yn yr Almaen, maen nhw'n bolltio seddi dros dro ar derasau, ac maen nhw'n cael gwared ar rwystrau gwasgu, felly gallai'r rhain ganiatáu i Abertawe a Chaerdydd fod yn gymwys—i roi'r seddi yn ôl ar gyfer gemau Cynghrair y Pencampwyr, er enghraifft. Felly, a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ffederasiwn Cefnogwyr Pêl-droed, oherwydd mae clybiau'r gynghrair yng Nghymru yn cefnogi'r syniad hwn, a hoffem eich gweld yn symud y mater hwn ymhellach yn ei flaen?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I've not been approached by any body. I'm not sure if any of the other Ministers have. I think possibly one Minister may have been involved in discussions on this issue, but certainly it's something that would interest us in terms of practical proposals as to how that might be taken forward.

Wel, nid oes unrhyw gorff wedi cysylltu â mi. Nid wyf yn siŵr pa un a gysylltwyd ag unrhyw Weinidogion eraill. Rwy'n meddwl o bosibl efallai fod un Gweinidog wedi bod yn rhan o drafodaethau ar y mater hwn, ond yn sicr mae'n rhywbeth a fyddai o ddiddordeb i ni o ran cynigion ymarferol ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen ag ef.

13:53

## Aled Roberts [Bywgraffiad](Bywgraffiad) [Biography](Biography)

Mae yna, wrth gwrs, feysydd yn Awstria, heblaw am yr Almaen, lle mae gemau rhyngwladol yn cael eu cynnal, lle mae yna sefyll diogel. A gaf i ofyn ichi ystyried, gan fod y 'kop' mwyaf enwog ym Mhrydain—sef y 'kop' ar y Cae Ras yn Wrecsam—wedi bod ar gau ers nifer o flynyddoedd, fod yna fethiant i gael gemau rhyngwladol yn y gogledd? Wrth ichi ystyried eich ymateb, hwyrach eich bod chi yn cynnal trafodaethau â Phrifysgol Glyndŵr a'r clwb pêl-droed i weld a oes yna fodd inni edrych ar y maes yna fel esiampl yn y pen draw.

There are, of course, stadia in Austria, never mind Germany, where international matches are staged and where they do have safe standing areas. Can I ask you to consider, given that the most famous kop in Britain, namely the kop on the Racecourse in Wrexham, has been closed for a number of years, that there has been a problem in attracting international matches to north Wales? As you consider your response, maybe you are holding discussions with Glyndŵr University and the football club in order to see whether we could look at that stadium as an example.

13:53

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](Bywgraffiad) [Biography](Biography)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fe fyddwn i'n hoffi gweld gemau rhyngwladol yn mynd yn ôl i'r gogledd yn fawr, mae'n rhaid imi ddweud. Rwy'n cofio gemau ers llawer dydd, yn y 1980au a'r 1090au, ac, wrth gwrs, roedd yna gefnogaeth gref i dîm Cymru yn y gogledd. Ar hyn o bryd, wrth gwrs, o achos cyflwr y Cae Ras a faint o bobl sy'n gallu mynd i mewn yno, mae hynny'n anodd dros ben, ond byddai'n beth braf i'w weld. Mae hyn yn rhywbeth i Brifysgol Glyndŵr i'w ystyried, i weld a ydyn nhw'n moyn ystyried y Cae Ras fel cae rhyngwladol unwaith eto, yn y byd rygbi neu yn y byd pêl-droed.

I would truly like to see international matches coming back to north Wales. I remember the games in the 1980s and 1990s, and there was very strong support for the Welsh team in north Wales. Of course, because of the condition of the Racecourse at present and the number of people that can actually attend, it's very difficult at present, but it would be good to see that again, and it's something for Glyndŵr University to consider, in terms of whether they want to see the Racecourse becoming an international ground once again, be that for rugby or for football.

### Gwybodaeth Bersonol Cleifion y GIG

### NHS Patients' Personal Information

13:54

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](Bywgraffiad) [Biography](Biography)

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am warchod gwybodaeth bersonol cleifion y GIG? OAQ(4)2135(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the protection of NHS patients' personal information? OAQ(4)2135(FM)*

13:54

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](Bywgraffiad) [Biography](Biography)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The Data Protection Act 1998 classifies medical information as 'sensitive personal information' and, as such, requires organisations to apply strict controls on the use of patient medical information.

Gwnaf. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn dosbarthu gwybodaeth feddygol fel 'gwybodaeth bersonol sensitif' ac, fel y cyfryw, yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno mesurau rheoli llym ar y defnydd o wybodaeth feddygol cleifion.

13:54 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. We're all aware that NHS employees are bound by the code of confidentiality and the Data Protection Act. This isn't reassuring, however, for a patient in my constituency who I'm currently dealing with and have had correspondence with the health Minister about. The patient in question has been contacted by a charitable organisation that was aware of the treatment she had recently been receiving, even when her closest friends and family had not been aware of that. Whilst I appreciate that some organisations providing palliative care, such as Marie Curie and Macmillan, may have a degree of access to patients' records, this particular charity didn't fall into that particular parameter. I have raised this matter with the health Minister, as I've said. What reassurances are you able to offer Welsh patients and their families in this matter, and how will you robustly ensure that personal information is closely protected, as much as possible, and that patients, in future, are not put in the position that my constituent has been?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rydym ni i gyd yn ymwybodol bod gweithwyr y GIG yn gaeth i'r cod cyfrinachedd a'r Ddeddf Diogelu Data. Fodd bynnag, nid yw hyn yn tawelu meddwl claf yn fy etholaeth i yr wyf yn ymdrin â hi ar hyn o bryd ac yr wyf wedi gohebu â'r Gweinidog iechyd yn ei chylch. Cysylltwyd â'r claf dan sylw gan fudiad elusennol a oedd yn ymwybodol o'r driniaeth yr oedd hi wedi bod yn ei derbyn yn ddiweddar, hyd yn oed pan nad oedd ei ffrindiau agosaf a'i theulu wedi bod yn ymwybodol o hynny. Er fy mod i'n sylweddoli efallai fod gan rai sefydliadau sy'n darparu gofal lliniarol, fel Marie Curie a Macmillan, rywfaint o fynediad at gofnodion cleifion, nid oedd yr elusen benodol hon yn y categori penodol hwnnw. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog iechyd, fel y dywedais. Pa sicrwydd allwch chi ei gynnig i gleifion yng Nghymru a'u teuluoedd o ran y mater hwn, a sut gwnewch chi sicrhau'n bendant bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu'n ofalus, cymaint â phosibl, ac nad yw cleifion, yn y dyfodol, yn cael eu rhoi yn y sefyllfa y rhoddwyd fy etholwr i ynddi?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm aware of the allegations. Nothing, as yet, has been produced to support the allegations—as yet. I can say, as the Member knows—I know he tabled a number of written questions to the Minister—that the Minister has written to the chief executives of two local health boards to investigate whether any patient information has been shared with third parties without a patient's prior permission, and those responses are awaited.

Rwy'n ymwybodol o'r honiadau. Ni chyflwynwyd unrhyw beth, hyd yn hyn, i gefnogi'r honiadau—hyd yn hyn. Gallaf ddweud, fel y mae'r Aelod yn gwybod—rwy'n gwybod ei fod wedi cyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig i'r Gweinidog—bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at brif weithredwyr dau fwrdd iechyd lleol i ymchwilio pa un a rannwyd unrhyw wybodaeth am gleifion gyda thrydydd parti heb ganiatâd y claf ymlaen llaw, ac rydym yn disgwyl am yr ymatebion hynny.

13:56 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, un o'r cwynion anffodus rwyf yn ei gael gan etholwyr yw pan fydd claf yn troi i fyny am apwyntiad ysbyty, nad yw'r wybodaeth am y claf, sef record y claf neu ganlyniadau profion y claf, ar gael—ar goll—yn ystod yr apwyntiad hwnnw. A ydych chi'n cytuno â fi, felly, fod yn rhaid inni gyrraedd sefyllfa o fewn yr NHS lle mae'r wybodaeth am y claf ar gael yn unrhyw fan o fewn yr NHS lle mae'r claf hynny yn bresennol, gan gynnwys yr unedau argyfwng?

First Minister, one of the unfortunate complaints that I hear from constituents is that when a patient turns up for a hospital appointment, the information about that patient, namely the records or the results of tests and so on, aren't available—they've gone missing—during that appointment. Do you agree with me, therefore, that we must reach a situation within the NHS where the information about a patient is available anywhere in the NHS where that patient is in attendance, including in accident and emergency?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ni allai neb ddadlau yn erbyn hynny—mae hynny'n synhwyrol iawn. Mae hyn yn digwydd, wrth gwrs, mewn rhai rhannau o Gymru, ond nid yw'n rhywbeth sy'n gyson dros Gymru yn gyfan gwbl. Beth yr ydym ni'n moyn sicrhau yw ein bod yn gweld y cysondeb yna dros Gymru, er lles nid dim ond y cleifion, ond y system ei hun; os oes unrhyw fath o broblem yn y system sy'n achosi i rywun fynd i apwyntiad heb eisiau am fod y manylion ddim yno, mae hynny'n golled i'r system a, hefyd, i'r unigolyn.

Nobody could argue with that—that is very sensible. This does happen in some parts of Wales, of course, but it is not consistent throughout the whole of Wales. We would wish to see that consistency throughout Wales for the benefit of not just the patients, but the system itself. If there is any kind of problem in the system that causes a patient to turn up for an appointment when the information isn't available, then it's a loss all round.

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Presiding Officer, patients rightly expect their medical details to remain secret, and they value the relationship they develop with their healthcare professionals, sometimes over very many years. Those relationships are, currently, under threat in the community of Llanwrtyd Wells and the surrounding area, with the announcement on Thursday that the general practitioners intend to close the surgery at Llanwrtyd. For many elderly people, the 13-mile trip to Builth Wells will simply mean a meaningful end to their ability to access primary care. What can your Government do to ensure that rural surgeries can be maintained and that those people living there can continue to enjoy the relationship that they've developed with their healthcare professionals?

Lywydd, mae cleifion yn briodol yn disgwyl i'w manylion meddygol gael eu cadw'n gyfrinachol, ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r berthynas y maen nhw'n ei datblygu gyda'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, weithiau dros lawer iawn o flynyddoedd. Mae'r berthynas honno, ar hyn o bryd, dan fygythiad yng nghymuned Llanwrtyd a'r cyffiniau, yn dilyn y cyhoeddiad ddydd Iau fod y meddygon teulu yn bwriadu cau'r feddygfa yn Llanwrtyd. I lawer o bobl oedrannus, bydd y daith 13 milltir i Lanfair-ym-Muallt yn golygu terfyn ystyrlon ar eu gallu i gael mynediad at ofal sylfaenol. Beth all eich Llywodraeth chi ei wneud i sicrhau y gellir cynnal meddygfeydd gwledig ac y gall y bobl hynny sy'n byw yno barhau i fwynhau'r berthynas maen nhw wedi ei datblygu gyda'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can understand the concern, of course, of residents of Llanwrtyd Wells about the proposals. Ultimately, GPs are self-employed contractors, and it's for them to explain why they are going to remove a service in this way. I know that, for members of the public, people don't fully appreciate that that is the relationship with a large number of GPs, but it's really for the surgery to explain to people why they feel they have to take this step.

Gallaf ddeall pryder trigolion Llanwrtyd ynghylch y cynigion, wrth gwrs. Yn y pen draw, contractrwyr hunangyflogedig yw meddygon teulu, a'u cyfrifoldeb nhw yw esbonio pam maen nhw'n mynd i gael gwared ar wasanaeth yn y modd hwn. Gwn, o ran aelodau o'r cyhoedd, nad yw pobl yn llawn werthfawrogi mai dyna'r berthynas gyda nifer fawr o feddygon teulu, ond cyfrifoldeb y feddygfa yw esbonio i bobl pam maen nhw'n teimlo bod yn rhaid iddyn nhw gymryd y cam hwn mewn gwirionedd.

### Rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus

### The Public Transport Network

13:58 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2131(FM)*

*6. Will the First Minister outline his priorities for the Welsh public transport network? OAQ(4)2131(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, they're to be found in the national transport plan.

Gwnaf, maen nhw i'w gweld yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

13:58 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you very much, First Minister. There have been recent calls by industry experts that the Labour call to renationalise some train services has been deemed unnecessary. We all recognise that there's an argument to say that the current franchise is not delivering value for money for Wales, and far more could be done for passengers. However, this simply reflects, perhaps, a poor franchise deal, rather than a fundamental failure in the model. Given the high price of engaging professional railway people, rather than civil servants, to run our rail services, can you specifically outline the risks that you perceive in abandoning the franchise model?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Bu galwadau diweddar gan arbenigwyr yn y diwydiant yr ystyriwyd bod galwad y blaid Lafur i ail-wladoli rhai gwasanaethau trên yn ddiangen. Rydym ni i gyd yn cydnabod bod yna dadl sy'n dweud nad yw'r fasnachfraint bresennol yn cynnig gwerth am arian i Gymru, ac y gellid gwneud llawer mwy ar ran teithwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'n syml, efallai, cytundeb masnachfraint gwael, yn hytrach na methiant sylfaenol yn y model. O gofio pris uchel ymgysylltu â phobl rheilffyrdd proffesiynol, yn hytrach na gweision sifil, i redeg ein gwasanaethau rheilffyrdd, a allwch chi amlinellu'n benodol y risgiau yr ydych chi'n eu gweld o roi'r gorau i'r model masnachfraint?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have to say, in the days of British Rail, it was railway people who were the professionals who were running the rail service, and that is an argument for renationalisation. I wouldn't argue that it should take the same form as it did then. Nevertheless, I think that it's perfectly right to say that a not-for-profit body to run the Wales and borders franchise is something that we have said that we are considering, and, of course, the current UK Government is more than happy to run what are, in effect, nationalised franchises in England on some of the rail services. Approaching the Wales and borders franchise with the option of a not-for-profit franchise running the services is perfectly acceptable, I believe, to the vast majority of the people of Wales.

Mae'n rhaid i mi ddweud, yn nyddiau British Rail, mai pobl rheilffordd oedd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhedeg y gwasanaeth rheilffyrdd, ac mae honno'n ddadl dros ailwladoli. Ni fyddwn yn dadlau y dylai gymryd yr un ffurf ag y gwnaeth bryd hynny. Serch hynny, rwy'n meddwl ei bod yn berffaith iawn i ddweud bod corff dielw i redeg masnachfraint Cymru a'r gororau yn rhywbeth yr ydym ni wedi dweud ein bod yn ei ystyried, ac, wrth gwrs, mae Llywodraeth bresennol y DU yn fwy na pharod i redeg yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn fasnachfreintiau wedi'u gwladoli yn Lloegr ar rai o'r gwasanaethau rheilffordd. Mae mynd at fasnachfraint Cymru a'r gororau gyda'r dewis o fasnachfraint ddielw yn rhedeg y gwasanaethau yn gwbl dderbyniol, yn fy marn i, i fwyafrif llethol pobl Cymru.

13:59 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

First Minister, I was pleased to note in the draft national transport plan 2015 that one commitment as a medium to long-term priority was the investigation into the extension of rail services to those communities currently without, with a specific mention of Hirwaun in my constituency. In Hirwaun, the track is already there; local people feel that the extension of rail services would tackle poor access issues for public transport in the area, and previous studies have made a strong case for this to be done. If this proposal did make it into the revised plan, what would be the next steps in taking this forward?

Brif Weinidog, roeddwn i'n falch o nodi yng nghynllun trafnidiaeth cenedlaethol drafft 2015 mai un ymrwymiad fel blaenoriaeth tymor canolig i hirdymor oedd yr ymchwiliad i ymestyn gwasanaethau rheilffyrdd i'r cymunedau hynny sydd hebddynt ar hyn o bryd, a soniwyd yn benodol am Hirwaun yn fy etholaeth i. Yn Hirwaun, mae'r cledrau yno eisoes; mae pobl leol yn teimlo y byddai ymestyn gwasanaethau rheilffyrdd yn mynd i'r afael â phroblemau mynediad gwael at gludiant cyhoeddus yn yr ardal, ac mae astudiaethau blaenorol wedi cyflwyno achos cryf dros wneud hyn. Pe byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y cynllun diwygiedig, beth fyddai'r camau nesaf o ran bwrw ymlaen â hyn?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I can say that the Minister, at the moment, is considering the findings of the Cardiff capital region metro report. I am familiar with the issue with Hirwaun and people's feelings in the area—I understand that. What we will do now is undertake further detailed work to evaluate a programme of delivery and also to look at what it is possible to deliver, given the financial situation that we are in and in terms of what our priorities are. Of course, Members and the Member herself will be updated as that work continues.

Wel, gallaf ddweud bod y Gweinidog, ar hyn o bryd, yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad metro dinas-ranbarth Caerdydd. Rwy'n gyfarwydd â'r mater o ran Hirwaun a theimladau pobl yn yr ardal—rwy'n deall hynny. Yr hyn y byddwn yn ei wneud nawr yw gwneud mwy o waith manwl i werthuso rhaglen gyflawni a hefyd ystyried yr hyn y mae'n bosibl ei ddarparu, o gofio'r sefyllfa ariannol yr ydym ni ynddi ac o ran yr hyn yw ein blaenoriaethau. Wrth gwrs, bydd yr Aelodau a'r Aelod ei hun yn cael eu diweddaru wrth i'r gwaith hwnnw barhau.

14:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Pan gaewyd y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth, Brif Weinidog, fe ddywedodd yr Aelod Seneddol Llafur ar y pryd, Elystan Morgan, fod cadw'r rheilffordd ar agor yn arbrawf sosialaidd godidog. A fyddai ailagor y rheilffordd hefyd yn arbrawf sosialaidd godidog?

When the rail line between Carmarthen and Aberystwyth was closed, First Minister, the Labour MP at the time, Elystan Morgan, said that keeping that railway open was a wonderful socialist experiment. Would reopening the railway also be a wonderful socialist experiment?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hi wedi digwydd, wrth gwrs, ynglŷn â rheilffordd y Fro, rheilffordd cwm Ebbw; mae hynny wedi digwydd o dan Lywodraeth a arweiniwyd gan y Blaid Lafur. Ynglŷn ag Aberystwyth i Gaerfyrddin, y trueni mawr, wrth gwrs, yw bod y trac wedi cael ei gymryd lan, mwy neu lai, yn y 1970au. Rwy'n cofio trenau ar y trac hwnnw yn cario llaeth o Gastellnewydd Emlyn a hefyd o Giliau Aeron yn dod trwy Ben-y-bont. Cafodd y trac ei dynnu lan yn gyflym iawn i'r gogledd o Aberaeron. Wrth gwrs, mae hwn yn rhywbeth yn yr hirdymor y gallwn ei ystyried fel egwyddor. Mae'n rhaid i ni ystyried y byddai ailagor yr holl drac yn costio arian sylweddol, o gofio'r ffaith, wrth gwrs, bod y trac wedi cael ei golli i'r gogledd o dref Caerfyrddin, er enghraifft. Ond, o ran egwyddor, byddai'n beth braf i weld y rheilffordd honno'n ailagor, ond mae'n rhaid i ni gofio'r costau sylweddol ynghlwm â gwneud hynny.

Well, of course, it has happened with the Vale line, and the Ebbw vale line; that has happened under a Labour-led Government. With regard to Aberystwyth to Carmarthen, it is a shame, of course, that the whole track, more or less, was taken up in the 1970s. I remember trains on that track carrying milk from Newcastle Emlyn and also from Ciliau Aeron coming through Bridgend. That track was taken away very quickly indeed to the north of Aberaeron. Of course, that is something that, in the long term, we could consider in principle. We must bear in mind that reopening the whole track would cost a significant sum of money, given, of course, that the track has been lost to the north of Carmarthen, for example. But, in principle, it would be wonderful to see that line reopening, but we must remember that it would cost a significant amount of money.

14:02 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, in March 2001, Sue Essex, the then Welsh Government Minister, attended a turf-cutting ceremony at the station in Brackla. Well, the turf's had plenty time to grow unfettered since then. It's appeared and disappeared from transport plans ever since. It reappeared in last December's draft transport plan and, a fortnight ago, it was referenced in the city region report as a potential new station. But, given that people are making decisions on where they are going to base their families, where they're going to base their businesses in the future on the basis of the transport links that are available, how confident can people be that projects such as Brackla station and such as Hirwaun station go ahead once they make it into those transport plans?

Brif Weinidog, ym mis Mawrth 2001, aeth Sue Essex, Gweinidog Llywodraeth Cymru ar y pryd, i seremoni torri tyweirch yn yr orsaf ym Mracla. Wel, mae'r tyweirch wedi cael digon o amser i dyfu heb unrhyw darfu arnynt ers hynny. Mae wedi ymddangos a diflannu o gynlluniau trafnidiaeth byth ers hynny. Ailymddangosodd yng nghynllun trafnidiaeth drafft fis Rhagfyr diwethaf, a, phythefnos yn ôl, cyfeiriwyd ati yn adroddiad y ddinas-ranbarth fel gorsaf newydd bosibl. Ond, o gofio bod pobl yn gwneud penderfyniadau ar ble maen nhw'n mynd i leoli eu teuluoedd, ble maen nhw'n mynd i leoli eu busnesau yn y dyfodol ar sail y cysylltiadau trafnidiaeth sydd ar gael, pa mor hyderus all pobl fod y bydd prosiectau fel gorsaf Bracla a gorsaf Hirwaun yn mynd yn eu blaenau ar ôl iddyn nhw gael eu cynnwys yn y cynlluniau trafnidiaeth hynny?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The issue with Brackla is twofold. First of all, there are capacity issues on the main line, with the addition of a new station, given the fact that it's very, very close to the existing Bridgend mainline station—it's literally a few hundred yards away. There is a real issue in terms of where exactly Brackla station would be placed, given the fact that Brackla is mainly on a hill, and it would be at one side of a hill, and where would it be placed between the boundary of Bridgend town proper and the village of Coychurch. So, Brackla railway station, although in principle welcome, is something that is problematic in terms of the capacity problems that would need to be resolved and in terms of where the station would actually be placed. As the Member will know, I declare an interest given that I know the area very well indeed.

Mae'r mater o ran Bracla yn ddeublyg. Yn gyntaf oll, mae problemau capasiti ar y brif reilffordd, o ychwanegu gorsaf newydd, o gofio'r ffaith ei bod yn agos iawn, iawn at orsaf prif reilffordd bresennol Pen-y-bont ar Ogwr—mae'n llythrennol ychydig gannoedd o lathenni i ffwrdd. Mae problem wirioneddol o ran ble yn union y byddai gorsaf Bracla yn cael ei lleoli, o ystyried y ffaith fod Bracla ar fryn yn bennaf, a byddai ar un ochr i fryn, a ble y byddai'n cael ei lleoli rhwng ffin tref Pen-y-bont ei hun a phentref Llangrallo. Felly, mae gorsaf reilffordd Bracla, er ei bod i'w chroesawu mewn egwyddor, yn rhywbeth sy'n creu trafferthion o ran y problemau capasiti y byddai angen eu datrys ac o ran ble byddai'r orsaf yn cael ei lleoli. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rwy'n datgan buddiant o gofio fy mod yn adnabod yr ardal yn hynod o dda.

### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

### The Common Agricultural Policy

14:03 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*7. Pa awydd sydd gan Lywodraeth Cymru i symud at gynllun taliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd mewn perthynas â cholofn un o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? OAQ(4)2132(FM)*

*7. What appetite does the Welsh Government have to move to an area-based payments scheme for pillar one of the Common Agricultural Policy? OAQ(4)2132(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we have to move to an area-based payment scheme, and we will be consulting on the payment options for the new basic payment scheme in March.

Wel, mae'n rhaid i ni symud at gynllun taliadau ar sail arwynebedd, a byddwn yn ymgynghori ar y dewisiadau talu ar gyfer y cynllun taliadau sylfaenol newydd ym mis Mawrth.

14:04 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

The current scheme seems to be fundamentally inequitable, whereby, based on historic activity back in 2000-02, regarding people on the same type of farm with the same type of topography, one person could be paid £50,000 and another £5,000 or even less. It seems that these pillar 1 payments are being sold, bought and traded, just like hedge funds. So the current system seems to be totally inequitable. How quickly can we move to an area-based system, where we actually stimulate the growing of fruit and vegetables, which is in short supply, particularly in south Wales?

Mae'n ymddangos bod y cynllun presennol yn sylfaenol annheg, sy’n golygu, yn seiliedig ar weithgarwch hanesyddol yn ôl yn 2000-02, o ran pobl ar yr un math o fferm gyda'r un math o dirwedd, y gellid talu £50,000 i un person a £5,000, neu lai hyd yn oed, i un arall. Mae'n ymddangos bod y taliadau colofn 1 hyn yn cael eu gwerthu, eu prynu a’u masnachu, yn union fel cronfeydd rhagfantoli. Felly, mae'n ymddangos bod y system gyfredol yn gwbl annheg. Pa mor gyflym y gallwn ni symud at system sy’n seiliedig ar arwynebedd, lle’r ydym ni wir yn cymell tyfu ffrwythau a llysiau, sy’n brin, yn enwedig yn y de?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed. I was the Minister who set up the historic scheme, and rightly so at the time, because we knew back at the beginning of the last decade that to move straight to an area-based payment system would a) be very complicated—and we saw the difficulties in England over that with their payments—and b) would be an enormous change as far as farmers were concerned, in terms of there being a number of big losers and a number of big winners; that was not a situation I was prepared to tolerate. That said, of course, that’s some years ago now, and it doesn’t much make sense to pay people based on activities that were taking place, in some instances, 12 or 13 years ago. So, it was inevitable—we knew this at the time—that the historic basis would go, and we are now consulting on the move to area-based payments, which is something we are obliged to do now, with the intention, of course, of getting the right system for Wales in the future.

Yn wir. Fi oedd y Gweinidog a sefydlodd y cynllun hanesyddol, a hynny'n gwbl briodol ar y pryd, gan ein bod ni’n gwybod yn ôl ar ddechrau'r degawd diwethaf y byddai symud yn syth i system taliadau’n seiliedig ar arwynebedd a) yn gymhleth iawn—a gwelsom yr anawsterau yn Lloegr yn hynny o beth gyda’u taliadau nhw—a b) yn newid enfawr cyn belled ag y mae ffermwyr yn y cwestiwn, o ran y ffaith fod nifer o gollwyr mawr a nifer o enillwyr mawr; nid oedd honno’n sefyllfa yr oeddwn i’n barod i’w goddef. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae hynny rai blynyddoedd yn ôl bellach, ac nid yw'n gwneud fawr o synnwyr i dalu pobl yn seiliedig ar weithgareddau a oedd, mewn rhai achosion, yn digwydd 12 neu 13 mlynedd yn ôl. Felly, roedd yn anochel—roeddem ni’n gwybod hyn ar y pryd—y byddai’n rhaid cael gwared ar y sail hanesyddol, ac rydym ni bellach yn ymgynghori ar y newid i daliadau ar sail arwynebedd, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud nawr, gyda'r bwriad, wrth gwrs, o gael y system gywir i Gymru yn y dyfodol.

14:05 **Russell George** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Welsh Government is considering a flat-rate model, but given the fact that a single flat-rate model was discounted from previous models for the basic payment scheme due to the level of disruption, can I ask you what action is the Welsh Government considering to offset the difficulties that the industry will be faced with if this option is taken forward?

Brif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried model cyfradd safonol, ond o ystyried y ffaith i fodel cyfradd safonol sengl gael ei ddiystyru o fodelau blaenorol ar gyfer y cynllun taliadau sylfaenol oherwydd lefel y tarfu, a gaf i ofyn i chi pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i gydbwyso’r anawsterau a fydd yn wynebu’r diwydiant os penderfynir bwrw ymlaen â’r dewis hwn?

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there is no option but to move to an area-based system; the CAP regulations state that that has to be done. What we want to do is to move to a system that is the least disruptive system possible to move to. There will be some winners and there will be some losers—that's inevitable under any new system—but we can't keep a system that was intended to work in the early part of the last decade as we look into the early part of, or the middle part now, of this decade. It makes no sense to pay people according to what they might have been doing 14 or 15 years ago. So, therefore, the intention is to move to a system that's new, yes, but is as least disruptive as possible.

Wel, nid oes dewis heblaw symud i system sy'n seiliedig ar arwynebedd; mae rheoliadau'r PAC yn nodi bod yn rhaid gwneud hynny.Yr hyn yr ydym ni eisiau ei wneud yw symud at y system sy'n tarfu cyn lleied â phosibl. Bydd rhai enillwyr a bydd rhai ar eu colled—mae hynny'n anochel dan unrhyw system newydd—ond ni allwn gadw system y bwriadwyd iddi weithio yn rhan gynnar y degawd diwethaf wrth i ni edrych tuag at ran gynnar, neu ran ganol erbyn hyn, y degawd hwn. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i dalu pobl yn unol â'r hyn yr oeddent o bosibl yn ei wneud 14 neu 15 mlynedd yn ôl. Felly, y bwriad yw symud i system sy'n newydd, ydi, ond sy'n tarfu cyn lleied â phosibl.

14:06 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, a wnewch chi gadarnhau unwaith yn rhagor y prynhawn yma bod y polisi amaethyddol cyffredin a'r taliadau sydd yn dod yn sgil hynny yn gwbl hanfodol er mwyn cynnal a datblygu y diwydiant amaethyddol yng Nghymru? A hefyd, yn eich trafodaethau yn Ewrop, a wnewch chi sicrhau ein bod ni'n dilyn yr egwyddor sylfaenol i'r taliadau yma: eu bod nhw yna i gynnal cymunedau cefn gwlad, i'w gwneud nhw yn hyfyw ac i roi cyfle i bobl aros yn y cymunedau hynny ac i weithio yn y cymunedau hynny?

First Minister, will you confirm once again this afternoon that the common agricultural policy and the payments that follow from that are vital in order to sustain the agriculture industry in Wales? Also, in your negotiations in Europe, will you ensure that we follow the fundamental principle of these payments: that they are there to sustain rural communities, to make them viable and to give people the opportunity to stay in those communities and to work in those communities?

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, ie, mae hynny'n wir. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, ynglŷn â ffermio yng Nghymru, heb y taliadau byddai'r rhan fwyaf o ffermydd yn gorffen. Rydym yn gwybod hynny; mae hynny'n rhywbeth hollol gywir i'w ddweud yn economaidd. Dyna pam rwyf wastad wedi dadlau taw taliad cymdeithasol cymunedol yw'r system taliadau CAP, er mwyn sicrhau bod arian yn mynd mewn; mae'n defnyddio ffermwyr fel ffynhonnell, efallai, ond mae'r arian yn mynd mewn i gefn gwlad, ac mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ddeall yn iawn. Gydag unrhyw system a fydd yn cael ei dechrau yng Nghymru, neu unrhyw system rydym yn symud tuag ati yng Nghymru, rydym moyn sicrhau bod y system honno yn berthnasol i Gymru. Yn hanesyddol, dyna'n gwmws beth sydd wedi digwydd.

Well, yes, that's true. We know, of course, of farming in Wales, that without the payments, most of the farms would be finished. We know that; that's an economic reality. That's why I have always argued that the CAP payment system is a social community payment to ensure that funding comes in; it's using farmers as the recipient, perhaps, but the funding is provided to our rural areas, and that is something that we fully understand. With any system that is implemented in Wales, or any system that we move towards in Wales, we must ensure that that system is relevant to Wales. Historically, that is exactly what has happened.

### Cyffuriau Drud

### Expensive Drugs

14:08 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch astudiaeth ddiweddaraf Prifysgol Efrog ynghylch cymeradwyo cyffuriau drud? OAQ(4)2133(FM)*

*8. What discussions has the First Minister had concerning the latest University of York study regarding the approval of expensive drugs? OAQ(4)2133(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The study validates our position that a cancer drug fund is inequitable and disadvantages those with other life-limiting conditions.

Mae'r astudiaeth yn dilysu ein safbwynt bod cronfa cyffuriau canser yn annheg ac yn rhoi'r rhai sydd â chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd dan anfantais.

14:08 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for that response, and I note that he agrees with the report that says that the special cancer drug fund in England is poor value, diverts money from other patient services and helps fewer people. Does he agree that the Welsh approach is much more effective, and has much better outcomes for many more people?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna, a nodaf ei fod yn cytuno â'r adroddiad sy'n dweud bod y gronfa cyffuriau canser arbennig yn Lloegr yn cynnig gwerth gwael, yn dargyfeirio arian o wasanaethau cleifion eraill ac yn helpu llai o bobl. A yw'n cytuno bod y dull yng Nghymru yn llawer mwy effeithiol, ac yn cynnig canlyniadau llawer gwell i lawer mwy o bobl?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

More money spent on cancer treatment, quicker to see a cancer specialist, quicker availability of drugs that are approved by the National Institute for Health and Care Excellence—these are all things that we can be proud of in Wales. You don't have to take my word for it—we know from the King's Fund, we know from the Bristol study and we've known from what's been written in the BMJ that the cancer drugs fund does not enjoy the support of the vast majority of the medical profession. On top of that, we know the cancer drugs fund is now being slowly choked off in England, because of the number of drugs that are being removed from that fund.

Gwario mwy o arian ar drin canser, cyflymach i weld arbenigwr canser, cyffuriau a gymeradwyir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gael yn gyflymach—mae'r rhain i gyd yn bethau y gallwn fod yn falch ohonynt yng Nghymru. Nid oes rhaid i chi gymryd fy ngair i am hynny—rydym ni'n gwybod o Gronfa'r Brenin, rydym ni'n gwybod o astudiaeth Bryste ac rydym ni'n gwybod o'r hyn a ysgrifennwyd yn y BMJ nad yw'r gronfa cyffuriau canser yn mwynhau cefnogaeth mwyafrif llethol y proffesiwn meddygol. Yn ogystal â hynny, rydym ni'n gwybod bod y gronfa cyffuriau canser yn cael ei diddymu'n araf bach yn Lloegr erbyn hyn, oherwydd nifer y cyffuriau sy'n cael eu tynnu o'r gronfa honno.

14:09 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

First Minister, here in Wales under your Government, too many are now denied the chance of vital life-saving drugs if deemed too expensive. Thousands have signed the petition in support of Irfon Williams of north Wales, called 'Fighting Chance', who, if he moves to England, will actually receive the life-prolonging drugs that he requires. Are you not ashamed as the First Minister of Wales that people are potentially dying as a result of your Government and its inability to provide your Welsh patients with a fighting chance?

Brif Weinidog, yma yng Nghymru dan eich Llywodraeth chi, mae gormod o bobl bellach nad ydynt yn cael y cyfle i gael cyffuriau achub bywyd hanfodol os bernir eu bod yn rhy ddrud. Mae miloedd wedi llofnodi'r ddeiseb i gefnogi Irfon Williams o'r gogledd o'r enw 'Hawl i Fyw', a fydd, os y bydd yn symud i Loegr, yn derbyn y cyffuriau ymestyn bywyd sydd eu hangen arno. Onid oes gennych chi gywilydd fel Prif Weinidog Cymru bod pobl o bosibl yn marw o ganlyniad i'ch Llywodraeth a'i hanallu i roi hawl i fyw i gleifion o Gymru?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I challenge the Conservative Party to name a single life-saving drug that exists in the cancer drugs fund in England; there aren't any. They are drugs that—[Interruption.] Ah, prolonging, she says. No, no, no, she was emotive about this. She said there are people dying—'dying' is what she said—because of the lack of availability of drugs in Wales. She cannot change her tune now. And, can I say, she mentions the person—[Interruption.] No, no, no, don't try and speak on her behalf, please, I'll ask the leader of the opposition—she's well able to speak on her own behalf. The point to make is, she makes reference to a particular case of somebody who is allegedly going to move to England to access a drug on the cancer drugs fund. That drug is being axed from the cancer drugs fund on 12 March in England. So, it will not be available on the cancer drugs fund in England, anyway, from 12 March. So, that's not going to help the unfortunate person involved. They should've done the research on that, and they would've known this particular drug is being moved from the cancer drugs fund in England within a fortnight, and that drug will then not be available via the cancer drugs fund in England.

Heriaf y Blaid Geidwadol i enwi un cyffur achub bywyd sy'n bodoli yn y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr; nid oes yr un. Cyffuriau yw'r rhain sy'n—[Torri ar draws.] A, ymestyn, meddai hi. Na, na, na, roedd hi'n emosiynol am hyn. Dywedodd fod pobl yn marw—'marw' yw'r hyn a ddywedodd—oherwydd bod diffyg o ran y cyffuriau sydd ar gael yng Nghymru. Ni all hi newid ei chân nawr. Ac, a gaf i ddweud, mae hi'n crybwyll y person—[Torri ar draws.] Na, na, na, peidiwch â cheisio siarad ar ei rhan, os gwelwch yn dda, gofynnaf i arweinydd yr wrthblaid—mae hi'n gallu siarad drosti ei hun yn iawn. Y pwynt i'w wneud yw, mae hi'n cyfeirio at achos penodol o rywun yr honnir sy'n mynd i symud i Loegr i gael gafael ar gyffur o'r gronfa cyffuriau canser. Mae'r cyffur hwnnw'n cael ei dynnu o'r gronfa cyffuriau canser ar 12 Mawrth yn Lloegr. Felly, ni fydd ar gael yn y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr, beth bynnag, o 12 Mawrth. Felly, nid yw hynny'n mynd i helpu'r person anffodus dan sylw. Dylen nhw fod wedi gwneud eu gwaith ymchwil ar hynny, ac yna byddent yn gwybod bod y cyffur penodol hwn yn cael ei dynnu o'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr o fewn pythefnos, ac ni fydd y cyffur hwnnw ar gael wedyn drwy'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr.

So, again, I make this point: it is absurd to say, as the Prime Minister has said, that somehow people are being denied life-saving drugs and are dying in Wales. That is wrong, and I challenge the Conservative Party to give us a single example of a life-saving drug—life-saving drug—that is not available in Wales. They will fall far short on that, as they always do.

Felly, unwaith eto, rwy’n gwneud y pwynt hwn: mae'n hurt dweud, fel y mae Prif Weinidog y DU wedi ei ddweud, bod cyffuriau achub bywyd rhywsut yn cael eu gwrthod i bobl yng Nghymru a’u bod yn marw o’r herwydd. Mae hynny'n anghywir, a heriaf y Blaid Geidwadol i roi un enghraifft o gyffur achub bywyd—cyffur achub bywyd—nad yw ar gael yng Nghymru. Byddant yn aflwyddiannus yn hynny o beth, fel y maen nhw bob amser.

14:11

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Nid wyf i’n meddwl y bydd teulu Mr Irfon Williams yn diolch i chi am y math o drafodaeth yr ydym ni newydd ei chael ynglŷn â’r cais yma. Mae Mr Irfon Williams, sy’n dad i faban bach, o dan ofal arbenigwr canser yn ysbyty Aintree yn Lerpwl, a’r arbenigwr hwnnw sydd wedi gwneud y cais am y cyffur cetuximab. Rŵan, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwrthod y cais ac wedi gwrthod ail gais hefyd. Fy nghwestiwn i ydy: oni ddylai ceisiadau anodd fel hyn gael eu gwneud ar lefel Cymru gyfan, yn hytrach na chael eu gadael i fyrddau iechyd lleol, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch?

I don’t think that the family of Mr Irfon Williams will thank you for the kind of debate that we’ve just had on this particular case. Mr Irfon Williams, who has a baby son, is being cared for by a cancer specialist at Aintree hospital in Liverpool, and it’s that specialist who has made the request for the drug cetuximab. Now, Betsi Cadwaladr University Local Health Board has rejected that application, and rejected a second one too. My question is: shouldn’t difficult cases like this be dealt with at an all-Wales level, rather than being left to local health boards, in order to ensure consistency and fairness?

14:12

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, a gaf i ddweud hyn wrth yr Aelod? Rwy’n credu ei fod e’n wir i ddweud, weithiau, wrth gwrs, bod yna drafodaethau yn digwydd lle’r ydym ni’n anghofio’r unigolyn. Rwy’n derbyn hynny. Wrth gwrs, y cwbl y byddwn i’n ei ddweud yw mai nid dyma’r ffordd y byddwn i wedi dewis i’w sefyllfa ef gael ei chodi yn y Cynulliad hwn, ond dyna oedd dewis y person a ofynnodd y cwestiwn i mi. Rydym ni yn anghofio bod unigolyn yn y fan hyn, ac unigolyn sy’n delio â chanser difrifol, ac rwy’n derbyn hynny. Y pwynt yw, nid yw’r sefyllfa yn wahanol yn Lloegr. Nid yw hynny’n ei helpu ef o gwbl; rwy’n derbyn hynny.

First of all, may I say this to the Member? I believe that it’s true that, sometimes, discussions take place where we forget the individual. I accept that. Of course, all that I would say is that this would not be how I would have chosen to see his case raised in this Assembly; it was the choice of the person who posed the question. We forget that there is an individual here, and an individual who is dealing with a serious cancer, and I accept that. The point is, things are no different in England; though I accept that that is of no help to him.

Mae’r cwestiwn yn gwestiwn iawn, yn fy marn i—cwestiwn teg: a ddylid cael cysondeb ar draws Cymru? Rwy’n credu bod yna gryfder yn y pwynt y mae’r Aelod yn ei wneud, ac rwy’n gwybod ei fod yn rhywbeth y mae’r Gweinidog yn ei ystyried ar hyn o bryd, wrth ystyried y system sydd gyda ni yng Nghymru i ddelio â cheisiadau fel hyn. Wrth gwrs, rwy’n siŵr y bydd sefyllfa Irfon Williams ac unigolion eraill yn cael ei hystyried er mwyn i ni wella’r system yma yng Nghymru.

The question is a fair question in my view: should we have uniformity across Wales? I think that there is strength in the point that the Member makes and I know that it is something that the Minister is considering at present, in considering the system that we have in Wales to deal with these requests. Of course, I am certain that the case of Irfon Williams, and other individuals, will be considered so that we improve the system here in Wales.

### Gofal Llygaid

### Eye Care

14:13

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*9. Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wella gofal llygaid i gleifion yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2129(FM)*

*9. What steps are being taken by the Welsh Government to improve eye care for South Wales Central patients? OAQ(4)2129(FM)*

14:13

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In January, we published the ophthalmic planned care plan to ensure sustainable ophthalmic services for the future. Local eye care groups have been established and funding committed to improve eye care services for patients in South Wales Central.

Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd y cynllun gofal offthalmig wedi'i gynllunio gennym i sicrhau gwasanaethau offthalmig cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd grwpiau gofal llygaid lleol ac addawyd arian i wella gwasanaethau gofal llygaid i gleifion yng Nghanol De Cymru.

14:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for that answer. One of the issues in the research I've done around eye services across Wales, but in particular in South Wales Central, is the issue of cancelled appointments. In South Wales Central, for example, they've gone up by 45% in two years. I think you'll agree with me that that's a dramatic change of picture from what patients would be expect—when they're given an appointment, to have that appointment carried out. If that level of cancellation rate continues, obviously that's going to put huge pressure on eye services. RNIB identified that the tariff system that you've moved to, as well, as of November last year, is putting inordinate pressure on the funding of the services. Will you undertake, as a Government, to look into the delivery of eye services, in particular in South Wales Central, to get on top of the cancellation rate, but above all, to make sure the tariff rate that you offer is suitable to meet the need of patients across South Wales Central?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Un o'r materion yn yr ymchwil yr wyf i wedi ei wneud i wasanaethau llygaid ledled Cymru, ond yng Nghanol De Cymru yn arbennig, yw'r mater o apwyntiadau sy'n cael eu canslo. Yng Nghanol De Cymru, er enghraifft, maen nhw wedi cynyddu 45% mewn dwy flynedd. Rwy'n credu y byddwch chi'n cytuno â mi fod hynny'n newid y darlun yn sylweddol o'r hyn y byddai cleifion yn ei ddisgwyl—pan roddir apwyntiad iddyn nhw, bod yr apwyntiad hwnnw yn digwydd. Os bydd y gyfradd honno o ganslo yn parhau, mae hynny'n amlwg yn mynd i roi pwysau enfawr ar wasanaethau llygaid. Nododd RNIB fod y system dariff yr ydych chi wedi symud iddi, hefyd, o fis Tachwedd y llynedd, yn rhoi pwysau gormodol ar ariannu'r gwasanaethau. A wnewch chi ymrwymo, fel Llywodraeth, i edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau llygaid, yn enwedig yng Nghanol De Cymru, i gael rheolaeth dros y gyfradd ganslo, ond yn anad dim, i sicrhau bod y gyfradd tariff yr ydych chi'n ei chynnig yn addas i ddiwallu angen cleifion ledled Canol De Cymru?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, I know the chief medical officer, for example, visited the RNIB very recently to meet with patients and listen to their concerns. In terms of the tariff system, that is something we believe is certainly more than adequate at this moment in time. He does make reference to a particular problem that existed at Ysbyty Cwm Rhondda over the summer, where there were cancellations and a more limited service than normal was available. I understand that arrangements have been put in place since for patients to be seen; additional nurse recruitment has been undertaken; and now the backlog of patients requiring immediate treatment and the waiting time, for example, for wet age-related macular degeneration treatments is now within the two-week guidance. But we will, of course, continue to monitor the situation.

Wel, yn gyntaf oll, rwy'n gwybod bod y prif swyddog meddygol, er enghraifft, wedi ymweld â'r RNIB yn ddiweddar iawn i gyfarfod â chleifion a gwrando ar eu pryderon. O ran y system tariff, mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n credu ei bod yn fwy na digonol ar hyn o bryd, yn sicr. Mae'n cyfeirio at broblem benodol a oedd yn bodoli yn Ysbyty Cwm Rhondda yn ystod yr haf, lle bu achosion o ganslo ac yr oedd gwasanaeth mwy cyfyngedig na'r arfer ar gael. Rwy'n deall bod trefniadau wedi eu gwneud i gleifion gael eu gweld ers hynny; recriwtiwyd nyrsys ychwanegol; a bellach mae'r ôl-groniad o gleifion sydd angen triniaeth ar unwaith a'r amser aros, er enghraifft, ar gyfer triniaethau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran yn cyd-fynd â'r canllawiau o bythefnos.Ond byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:15

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement and I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. I've one change to announce to this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will be making an urgent statement tomorrow: an update on the announcement by 2 Sisters Food Group Limited. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad brys yfory: y wybodaeth ddiweddaraf am y cyhoeddiad gan 2 Sisters Food Group Limited. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:16 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, consumers here and abroad want to buy great British and Welsh food. In England, this is acknowledged by the creation of the food enterprise zones: two of which, one will be in Somerset and the other in Worcester; both closely bordering, really, the edge of south-east Wales. Could I ask the Minister to ask the Deputy Minister for Farming and Food to come forward with a statement on the possibility of creating an Usk and Wye valley food enterprise zone, acknowledging the diverse range of high-quality produce from this area, and giving them similar opportunities to expand their markets?

Weinidog, mae defnyddwyr yma a thramor eisiau prynu bwyd Prydeinig a Chymreig gwych. Cydnabuwyd hyn yn Lloegr trwy greu'r parthau menter bwyd: a bydd dau ohonynt, bydd un yn yng Ngwlad yr Haf a'r llall yng Nghaerwrangon; y ddau'n ffinio'n agos, mewn gwirionedd, ag ymyl de-ddwyrain Cymru. A gaf i ofyn i'r Gweinidog ofyn i'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gyflwyno datganiad ar y posibilrwydd o greu parth menter bwyd dyffryn Wysg a Gwy, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o gynnyrch o ansawdd uchel o'r ardal hon, a rhoi cyfleoedd tebyg iddynt i ehangu eu marchnadoedd?

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank William Graham for that question. Of course, we're very proud of our Welsh food policy, which, of course, the Deputy Minister for Farming and Food is taking forward, and of course, I'm sure will make a huge impact as we move around Wales for the all-important food festivals that make such an impact, not just here in Wales in the communities, but further afield as well.

Diolchaf i William Graham am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, rydym ni'n falch iawn o'n polisi bwyd Cymru, y mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, wrth gwrs, yn bwrw ymlaen ag ef, ac wrth gwrs, rwy'n siŵr y bydd yn cael effaith enfawr wrth i ni symud o gwmpas Cymru ar gyfer y gwyliau bwyd hollbwysig sy'n cael gymaint o effaith, nid yn unig yma yng Nghymru yn y cymunedau, ond ymhellach i ffwrdd hefyd.

14:17 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that gambling is a growing problem in Wales—gambling addiction throughout the whole of the UK—and that funding is provided by the Responsible Gambling Trust—the voluntary levy—and that funding within Wales of projects is likely to come to an end in March and there is no guarantee that any of the money that is raised at a UK level is actually going to be spent providing services within Wales. Bearing in mind the connection between poverty and gambling as another addiction, would the Government consider making time available to actually consider the consequences of this growing problem, and also the funding issues related to it?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod hapchwarae'n broblem gynyddol yng Nghymru—dibyniaeth ar hapchwarae ledled y DU-ac y darperir cyllid gan yr Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol—yr ardoll gwirfoddol—a bod cyllid ar gyfer prosiectau yng Nghymru yn debygol o ddod i ben ym mis Mawrth ac nad oes sicrwydd bod unrhyw gyfran o'r arian a godir ar lefel y DU yn mynd i gael ei wario i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. O ystyried y cysylltiad rhwng tlodi a hapchwarae fel dibyniaeth arall, a wnaiff y Llywodraeth ystyried sicrhau bod amser ar gael i ystyried canlyniadau'r broblem gynyddol hon, a hefyd y materion ariannu sy'n gysylltiedig â hi?

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, Mick Antoniw, for that question. I'm very aware of his engagement and concern and support for the Responsible Gambling Trust, and for the issues that have been raised, particularly in relation to those early intervention programmes. I'm aware that the Department for Culture, Media and Sport recently announced proposals to provide local authorities with powers to control the number of new betting shops, for example, opening on their high streets as part of a wider series of gambling protection measures. The Minister for Health and Social Services has recently written to the UK Government to raise concerns about the effects of gambling on public health in Wales and to press for further action to limit the number of premises, and their prominence and promotion of these services as well. Clearly, the importance of that is enabling people to be aware of online and telephone-based services provided by Gamble Aware.

Diolch i chi, Mick Antoniw, am y cwestiwn yna. Rwy'n ymwybodol iawn o'i ymgysylltiad a'i bryder a'i gefnogaeth i'r Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol, ac i'r materion a godwyd, yn enwedig o ran y rhaglenni ymyrraeth gynnar hynny. Rwy'n ymwybodol bod yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi cynigion yn ddiweddar i roi pwerau i awdurdodau lleol reoli nifer y siopau betio newydd, er enghraifft, sy'n agor ar eu strydoedd mawr yn rhan o gyfres ehangach o fesurau diogelu rhag hapchwarae. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn ddiweddar i godi pryderon am effeithiau hapchwarae ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru ac i bwyso am gamau pellach i gyfyngu ar nifer y safleoedd, a'u hamlygrwydd a hyrwyddo'r gwasanaethau hyn hefyd. Yn amlwg, pwysigrwydd hynny yw galluogi pobl i fod yn ymwybodol o wasanaethau ar-lein a dros y ffôn a ddarperir gan Gamble Aware.

14:18 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, you may be aware, due to the public appeals and funds, of the case of Freya Bevan, a young, two-year-old girl—a constituent of mine in Neath—who wishes to undergo proton beam therapy. It's a request that was refused by the Welsh Health Specialised Services Committee last week. I know that, now, some of the funding has been given through a cancer charity based in England. But the family I've been talking to would like to understand fully why it has been refused for them and why it took so long—nine weeks—for a decision to be made, and whether the Welsh Government, via the Welsh Health Specialised Services Committee, can work with them to at least reconsider helping them with funding, considering the fact that they've raised so much via the public donations. So, it's something that I'm raising because of the fact that they are conscious of the fact that they are going to Oklahoma today to start to receive treatment, but they do have to pay retrospectively. There's a lot of local anger about the fact that the Welsh system will not be supporting them.

Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol, oherwydd y cronfeydd a'r apeliadau cyhoeddus, o achos Freya Bevan, merch ifanc dwyflwydd oed—etholwr i mi yng Nghastell-nedd—sy'n dymuno cael therapi paladr proton. Mae hwn yn gais a wrthodwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yr wythnos diwethaf. Gwn, erbyn hyn, y rhoddwyd rhywfaint o'r arian drwy elusen canser wedi'i lleoli yn Lloegr. Ond hoffai'r teulu yr wyf i wedi bod yn siarad â nhw ddeall yn llawn pam y cafodd ei wrthod iddyn nhw a pham y cymerodd mor hir—naw wythnos—i benderfyniad gael ei wneud, a pha un a yw Llywodraeth Cymru, trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn gallu gweithio gyda nhw i o leiaf ailystyried eu helpu nhw gyda chyllid, o ystyried y ffaith eu bod wedi codi cymaint trwy roddion cyhoeddus. Felly, mae'n rhywbeth yr wyf yn ei godi oherwydd y ffaith eu bod yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn mynd i Oklahoma heddiw i ddechrau derbyn triniaeth, ond mae'n rhaid iddyn nhw dalu'n ôl-weithredol. Ceir llawer o ddicter yn lleol am y ffaith na fydd system Cymru yn eu cefnogi.

The second question I wanted to ask was with regard to asking for a statement on how sport supplements and the drinks industry are regulated in Wales. This is as a result of Rhys Williams, a 400m hurdler, and Gareth Warburton having been suspended from their respective sports due to taking what was called a Mountain Fuel Xtreme drink, which was contaminated by steroids. We found out that the company was based in England that created this particular drink, but it was then administered through a Wales-based company. We're struggling to find out whether it's the Food Standards Authority that is accountable or whether it is the Welsh Government. Could we please have a statement updating us on who regulates this particular industry?

Mae'r ail gwestiwn yr oeddwn eisiau ei ofyn yn ymwneud â gofyn am ddatganiad ar sut y mae atchwanegiadau chwaraeon a'r diwydiant diodydd yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod Rhys Williams, neidiwr clwydi 400m, a Gareth Warburton wedi cael eu gwahardd o'u campau perthnasol oherwydd iddynt yfed diod o'r enw Mountain Fuel Xtreme, a oedd wedi ei halogi gan steroidau. Canfuom fod y cwmni a greodd y ddiod benodol hon wedi'i leoli yn Lloegr, ond mai cwmni yng Nghymru oedd wedyn yn dosbarthu'r ddiod. Rydym ni'n cael trafferth darganfod pa un ai'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n atebol neu Lywodraeth Cymru. A allem ni gael datganiad os gwelwch yn dda yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am bwy sy'n rheoleiddio'r diwydiant penodol hwn?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, Bethan Jenkins. Obviously, every case—and we've heard, obviously, of cases this afternoon—is of great concern and importance in terms of health needs and particularly when specialist services and, indeed, treatment are required. Of course, I'm sure that this matter has been raised appropriately in terms of decisions made, in terms of the opportunities for the case that you raise with us today.

Diolch i chi, Bethan Jenkins. Yn amlwg, mae pob achos—ac rydym ni wedi clywed, yn amlwg, am achosion y prynhawn yma—o bryder a phwysigrwydd mawr o ran anghenion iechyd ac yn enwedig pan fo angen gwasanaethau arbenigol ac, yn wir, triniaeth. Wrth gwrs, rwy'n siŵr bod y mater hwn wedi cael ei godi'n briodol o ran y penderfyniadau a wnaed, o ran y cyfleoedd ar gyfer yr achos yr ydych chi'n ei godi gyda ni heddiw.

I also would say that, as far as regulation for the sports supplements goes, I'm sure that it's something that we can look at and, obviously, provide an answer to the Member.

Byddwn hefyd yn dweud, cyn belled ag y mae rheoleiddio ar gyfer yr atchwanegiadau chwaraeon yn y cwestiwn, fy mod yn siŵr ei fod yn rhywbeth y gallwn ei ystyried ac, yn amlwg, rhoi ateb i'r Aelod.

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

I wonder, Minister, if I could request a statement on the level of ground rents and maintenance charges levied on leaseholders by social landlords in Wales. Concerns have been raised with me by some constituents that, where repairs are necessary to properties that are predominately social housing, an inappropriate proportion of the maintenance charges are then levied on the leaseholders in that block who've bought their homes outright, but who obviously are still having to pay those maintenance charges. In one case, it was potentially the case that the whole cost for a repair to a block of 20 flats was charged to just three leaseholders and shared only between them. I wonder if we could have a statement outlining what the guidance is for those social landlords in terms of the appropriateness of that and whether or not any survey work has been done to assess how the levels of ground rents and maintenance charges vary from authority to authority in Wales.

Tybed, Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad ar lefel y rhenti tir a thaliadau cynnal a chadw a godir ar lesddeiliaid gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Codwyd pryderon gyda mi gan rai etholwyr, yn ymwneud â phan fo angen gwneud atgyweiriadau i eiddo sy'n dai cymdeithasol gan amlaf, bod cyfran amhriodol o gostau'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei chodi ar y lesddeiliaid yn y bloc hwnnw sydd wedi prynu eu cartrefi yn llwyr, ond sy'n amlwg yn dal i orfod talu'r costau cynnal a chadw hynny. Mewn un achos, roedd o bosibl yn wir y codwyd y gost gyfan am waith atgyweirio i floc o 20 o fflatiau ar ddim ond tri o lesddeiliaid a'u rhannu rhyngddyn nhw'n unig. Tybed a fyddai modd i ni gael datganiad yn amlinellu beth yw'r canllawiau ar gyfer y landlordiaid cymdeithasol hynny o safbwynt priodoldeb hynny a pha un a wnaed unrhyw waith arolwg i asesu sut mae'r lefelau rhenti tir a thaliadau cynnal a chadw yn amrywio o un awdurdod i'r llall yng Nghymru.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think it would be very helpful, Eluned Parrott, if you could raise this, if there's a particular issue or more than one issue in terms of a registered social landlord in relation to ground level maintenance leasing charges, with the Minister for Communities and Tackling Poverty, so that she can look into this and respond appropriately.

Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn, Eluned Parrott, pe gallech chi godi hyn, os oes mater penodol neu fwy nag un mater o ran landlord cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud â thaliadau cynnal a chadw ar lefelau'r tir ar gyfer prydlesu, gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, fel y gall hi ymchwilio i hyn ac ymateb yn briodol.

14:22 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, I know that you will have been aware of the protest that took place in Rhyl on Saturday, which was attended by Ann Jones, Alun Ffred Jones and many other Assembly Members, in relation to the potential downgrading of maternity services at Ysbyty Glan Clwyd. You'll be aware that the community health council has come to a decision that the health board took, in effect, pre-emptive action that was not based on an urgent requirement and have referred the matter to the Minister. Clearly, I have a number of constituents who are expecting babies and, of course, staff who are deeply concerned about their future. I am wondering whether or not the Minister will be prepared to issue a written statement outlining a very clear timetable. I'm aware that, during the recess, he has called for a Welsh Government review of key staff, and I wonder whether we can know what sort of timetable we are following, in effect, because it's left up in the air. There is a great deal of concern locally, and quite rightly so, I might add.

Weinidog, gwn eich bod yn ymwybodol o'r brotest a gynhaliwyd yn y Rhyl ddydd Sadwrn, yr oedd Ann Jones, Alun Ffred Jones a llawer o Aelodau Cynulliad eraill yn bresennol ynddi, yn ymwneud ag israddio posibl gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Byddwch yn ymwybodol bod y cyngor iechyd cymuned wedi gwneud penderfyniad bod y bwrdd iechyd, i bob pwrpas, wedi cymryd camau rhagataliol nad oeddent yn seiliedig ar ofyniad brys a'i fod wedi atgyfeirio'r mater i'r Gweinidog. Yn amlwg, mae gennyf nifer o etholwyr sy'n disgwyl babanod ac, wrth gwrs, staff sy'n pryderu'n arw am eu dyfodol. Rwy'n meddwl tybed a fydd y Gweinidog yn barod i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn amlinellu amserlen eglur iawn. Rwy'n ymwybodol, yn ystod y toriad, ei fod wedi galw am adolygiad Llywodraeth Cymru o staff allweddol, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael gwybod pa fath o amserlen yr ydym ni'n ei dilyn, mewn gwirionedd, oherwydd bod y mater yn cael ei adael yn benagored. Ceir llawer iawn o bryder yn lleol, a hynny'n gwbl briodol, hoffwn i ychwanegu.

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The health Minister has written to the health board seeking assurances on the proposals as regards maternity services at Ysbyty Glan Clwyd. Of course, in writing to seek those assurances, it does include the timetable, and he has asked senior Welsh Government clinicians to monitor the situation and ensure that the board's plans remain robust and sustainable. Of course, it's very important that patients and their families are provided with clear information on this very important matter without any room for ambiguity. Of course, the First Minister responded to this point in a question earlier on this afternoon.

Mae'r Gweinidog iechyd wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn gofyn am sicrwydd ar y cynigion o ran gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Wrth gwrs, wrth ysgrifennu i ofyn am y sicrwydd hwnnw, mae yn cynnwys yr amserlen, ac mae wedi gofyn i uwch glinigwyr Llywodraeth Cymru fonitro'r sefyllfa a sicrhau bod cynlluniau'r bwrdd yn parhau i fod yn gadarn ac yn gynaliadwy. Wrth gwrs, mae'n bwysig iawn y darperir gwybodaeth eglur am y mater pwysig hwn i gleifion a'u teuluoedd a hynny heb unrhyw amwysedd. Wrth gwrs, ymatebodd y Prif Weinidog i'r pwynt hwn mewn cwestiwn yn gynharach y prynhawn yma.

14:24 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Pan gyhoeddwyd y rhaglen nofio am ddim dros 10 mlynedd yn ôl, roedd yn un o gonglfeini rhaglen y Llywodraeth ar y pryd, ac mi fu newidiadau dros y blynyddoedd. Yn fy nghyfnod i fel Gweinidog, fe roddwyd blaenoriaeth i hyfforddi plant i nofio o fewn y rhaglen honno. Bellach, mae newidiadau pellach i'r fformiwla sydd yn ariannu'r rhaglen yma. Mae Gwynedd, er enghraifft, yn mynd i golli 40% o'i chyllideb, sydd yn mynd i gael effaith ddifrifol ar blant ac ar henoed y sir, a'u gallu nhw i ddysgu nofio. Gofynnaf, felly, am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog ar y strategaeth a'r newidiadau hyn, sydd yn mynd i gael effaith ddifäol mewn llawer iawn o siroedd yng Nghymru.

When the free swimming programme was introduced over 10 years ago, it was one of the cornerstones of the Government's programme at that time, and changes were made over the years. During my time as Minister, priority was given to teaching children to swim within that programme. Now, further changes to the formula funding this particular programme have been made. Gwynedd, for example, is going to lose 40% of its budget, which will have a seriously detrimental effect on children and older people in the county, and their ability to learn to swim. I would, therefore, ask for a statement from the Deputy Minister on this strategy and these changes, which are going to have a very detrimental effect in many counties of Wales.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Alun Ffred Jones, I'm not aware of the reasons for this impact in the changes in terms of the funding allocations. We'll certainly look at this, because our commitment to universal benefits, such as free swimming, of course, forms an important part of our budget—a budget that has been approved by this Assembly for 2015-16. It is something that, of course, we would hope that local authorities could then deliver and implement, given, as you said, that we have made changes in order to focus it and ensure that it is being appropriately implemented and used to meet the needs of local communities.

Alun Ffred Jones, nid wyf yn ymwybodol o'r rhesymau am yr effaith hon yn y newidiadau o ran y dyraniadau cyllid. Byddwn yn sicr yn edrych ar hyn, gan fod ein hymrwymiad i fuddion cyffredinol, fel nofio am ddim, wrth gwrs, yn rhan bwysig o'n cyllideb—cyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad hwn ar gyfer 2015-16. Mae'n rhywbeth, wrth gwrs, y byddem yn gobeithio y gallai awdurdodau lleol ei ddarparu a'i weithredu wedyn, o gofio, fel y dywedasoch, ein bod wedi gwneud newidiadau er mwyn canolbwyntio ar hyn a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i ddefnyddio'n briodol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

14:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that during First Minister's questions, I raised the issue of the potential closure of the Llanwrtyd Wells branch surgery. The First Minister said it was important to understand why that surgery was under threat. The doctors say it is because of the removal of the minimum practice income guarantee, following negotiations over a new general medical service contract between the Welsh Government and the doctors' union. I wonder—given the importance of maintaining rural GP services, the recent announcement of additional resources for primary care by the Minister and his commitment to develop primary care services—whether there is any scope for using some of those resources to develop a rural enhanced services element of the GMS contract to look at ensuring the sustainability of GP practices in rural areas. Perhaps the Minister could make a statement in that regard.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi mater yr achos posibl o gau meddygfa gangen Llanwrtyd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn bwysig deall pam mae'r feddygfa honno dan fygythiad. Mae'r meddygon yn dweud ei fod oherwydd dileu'r gwarant isafswm incwm practis, yn dilyn trafodaethau yn ymwneud â chontract gwasanaeth meddygol cyffredinol newydd rhwng Llywodraeth Cymru ac undeb y meddygon. Tybed—o gofio pa mor bwysig yw cynnal gwasanaethau meddygon teulu gwledig, y cyhoeddiad diweddar o adnoddau ychwanegol ar gyfer gofal sylfaenol gan y Gweinidog a'i ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol—a oes unrhyw bosibilrwydd o ddefnyddio rhai o'r adnoddau hynny i ddatblygu elfen gwasanaethau gwledig gwell o'r cytundeb gwasanaethau meddygol cyffredinol i geisio sicrhau cynaliadwyedd meddygfeydd teulu mewn ardaloedd gwledig. Efallai y gallai'r Gweinidog wneud datganiad am hynny.

Secondly, could you ask for a written statement by the Minister for education? In July of last year, he called in the decision by Powys County Council to close Whitton Primary School. I and my constituents were very grateful that he did that, given the widespread concerns there were in the community about Powys County Council's handling of the closure consultation. The community were given the expectation that a decision would be reached in 16 weeks. Well, we are now some 33 weeks on from that call-in, and the community, the parents, the children and the teachers, who are working incredibly hard in very difficult circumstances, would welcome any indication from Welsh Government about when the Minister will make a pronouncement on Whitton school.

Yn ail, a wnewch chi ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog addysg? Ym mis Gorffennaf y llynedd, galwodd i mewn y penderfyniad gan Gyngor Sir Powys i gau Ysgol Gynradd Llanddewi yn Hwytyn. Roeddwn i a'm hetholwyr yn ddiolchgar iawn ei fod wedi gwneud hynny, o gofio'r pryderon eang oedd yn y gymuned ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniodd Cyngor Sir Powys â'r ymgynghoriad ar gau'r ysgol. Arweiniwyd y gymuned i ddisgwyl y byddai penderfyniad yn cael ei wneud mewn 16 wythnos. Wel, rydym tua 33 wythnos ymlaen o'r achos hwnnw o alw i mewn erbyn hyn, a byddai'r gymuned, y rhieni, y plant a'r athrawon, sy'n gweithio'n anhygoel o galed dan amgylchiadau anodd iawn, yn croesawu unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru o ran pa bryd fydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad ar ysgol Llanddewi yn Hwytyn.

14:28

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Thank you, Kirsty Williams. I think on the point about Llanwrtyd Wells and the concerns about the GP service there, we do understand that Powys teaching health board is meeting with the practice to discuss the concerns about the branch surgery at Llanwrtyd Wells to ensure continuity of local access to services. Solutions will lie in practices working together and, with the new health board, on new ways of meeting local needs. But there are changes to the minimum practice income guarantee that are going to be gradually introduced over a seven-year period, beginning next year. This has been agreed with the General Practitioners Committee Wales.

Diolch i chi, Kirsty Williams. Rwy'n credu o ran y pwynt am Lanwrtyd a'r pryderon ynghylch y gwasanaeth meddygon teulu yno, rydym ni yn deall bod bwrdd iechyd addysgu Powys yn cyfarfod gyda'r feddygfa i drafod y pryderon am y feddygfa gangen yn Llanwrtyd i sicrhau parhad mynediad lleol at wasanaethau. Bydd yr ateb yn dod o feddygfeydd yn gweithio gyda'i gilydd a, chyda'r bwrdd iechyd newydd, ar ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion lleol. Ond mae newidiadau i'r gwarant isafswm incwm practis sy'n mynd i gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o saith mlynedd, gan gychwyn y flwyddyn nesaf. Cytunwyd ar hyn gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru.

On your second point, of course, we know that there is a due process for the closure of schools, and the Minister will be aware of the concerns of the community and the school in order to get to the decision. It is important that that due process is managed carefully.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, gwyddom fod yna broses briodol ar gyfer cau ysgolion, a bydd y Gweinidog yn ymwybodol o bryderon y gymuned a'r ysgol er mwyn dod i benderfyniad. Mae'n bwysig bod y broses briodol yn cael ei rheoli'n ofalus.

14:29

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Minister, I have two statements to request to you be made: one is a statement from the Minister for Public Services on the amount of payment made by local authorities in Wales from discretionary housing payment funding. I am concerned that the people affected by changes to housing benefit may not be aware they may have qualified for support from this funding made available by the UK Government. Could we have a statement from the Minister on the amount of discretionary housing payment allocated to each local authority, the percentage of this funding utilised in supporting claimants and what action the Minister is taking to ensure local authorities are adequately publicising the availability of this support to the communities they serve?

Weinidog, rwyf am ofyn ichi am i ddau ddatganiad gael eu gwneud: datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yw un ohonynt ar faint y taliad a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru o gyllid taliadau tai dewisol. Rwy'n pryderu efallai na fydd y bobl yr effeithir arnynt gan newidiadau i fudd-dal tai yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys am gymorth o'r cyllid hwn a roddwyd ar gael gan Lywodraeth y DU. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog ar faint y taliad tai dewisol a ddyrannwyd i bob awdurdod lleol, canran y cyllid hwn a ddefnyddiwyd i gefnogi hawlwyr a pha gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd digonol i'r ffaith fod y cymorth hwn ar gael i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu?

And the second is: could the Minister for Health and Social Services make a statement on cardiology and cardiology clinics in Welsh hospitals? There is a couple, they are senior citizens, in my constituency, and Rob, he went to the Royal Gwent Hospital. His appointment was made last year, and he went to hospital on the nineteenth of this month, last week. When he went to the Royal Gwent Hospital he was told and the family was told that that clinic has been closed for over two and a half months. So, why did nobody in the administration in Aneurin Bevan Local Health Board have the courtesy to tell these people that this clinic has been closed? So, could you please make a statement on what is happening in the cardiology departments in Welsh hospitals? Thank you.

A'r ail yw: a allai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad ar gardioleg a chlinigau cardioleg yn ysbytai Cymru? Mae pâr, sy'n ddinasyddion hŷn, yn fy etholaeth i, a Rob, aeth ef i Ysbyty Brenhinol Gwent. Trefnwyd ei apwyntiad y llynedd, ac aeth i'r ysbyty ar y pedwerydd ar bymtheg o'r mis hwn, yr wythnos diwethaf. Pan aeth i Ysbyty Brenhinol Gwent, dywedwyd wrtho a dywedwyd wrth y teulu fod y clinig wedi bod ar gau ers dros ddau fis a hanner. Felly, pam nad oedd gan unrhyw un yn y weinyddiaeth ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan y cwrteisi i hysbysu'r bobl hyn bod y clinig hwn wedi ei gau? Felly, a wnewch chi wneud datganiad os gwelwch yn dda ar yr hyn sy'n digwydd yn yr adrannau cardioleg yn ysbytai Cymru? Diolch yn fawr.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Mohammad Asghar, as far as the discretionary housing payments are concerned, they do fall within the responsibility, I believe, of the Minister for Communities and Tackling Poverty. Of course, in terms of the allocation of those payments, I believe that, recently, there has been a report on how that has been allocated. I am sure also that the Minister for Public Services is also interested in the way that's being managed because, obviously, across Wales, those housing payments have been very important, particularly in terms of the use of those payments to counteract the adverse impact of the bedroom tax and to play a part in terms of homelessness prevention, which I'm sure you would welcome.

Mohammad Asghar, cyn belled ag y mae taliadau tai dewisol yn y cwestiwn, maen nhw'n rhan o gyfrifoldeb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwy'n credu. Wrth gwrs, o ran dyrannu'r taliadau hynny, rwy'n credu, yn ddiweddar, y bu adroddiad ar sut y'u dyrannwyd. Rwy'n sicr hefyd bod gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd ddiddordeb yn y ffordd y mae hynny'n cael ei reoli oherwydd, yn amlwg, ledled Cymru, mae'r taliadau tai hynny wedi bod yn bwysig iawn, yn enwedig o ran y defnydd o'r taliadau hynny i wrthweithio effaith andwyol y dreth ystafell wely ac i chwarae rhan o ran atal digartrefedd, yr wyf yn siŵr y byddech chi'n ei groesawu.

I think your second point, of course, is a matter for the Aneurin Bevan health board.

Rwy'n meddwl mai mater i fwrdd iechyd Aneurin Bevan yw eich ail bwynt, wrth gwrs.

14:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, I have two issues, if I may. First of all, as I'm sure you're aware, and I know many Assembly Members are, the Man Van has been parked outside the front of the Senedd today: the mobile Prostate Cancer UK and Tenovus Cancer Care initiative that travels around Wales and does a lot of good work.

Weinidog, mae gennyf ddau fater, os caf i. Yn gyntaf oll, fel yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, ac rwy'n gwybod bod llawer o Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol, mae'r Man Van wedi ei pharcio o flaen y Senedd heddiw: y fenter Canser y Prostad UK a Gofal Canser Tenovus symudol sy'n teithio o amgylch Cymru ac yn gwneud llawer o waith da.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 14:32.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 14:32.*

**Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

I understand that that's on a two or three-year term trial time scheme. I wonder if we could have an update on how the Welsh Government is supporting sufferers of prostate cancer within the UK and what's going to happen beyond the timespan of that vehicle. Secondly, I've been liaising with some constituents, and with Lynne Neagle indeed, who's had similar issues in Torfaen, regarding care for older people with dementia in Wales, and I wonder if we could have a statement from the Welsh Government on what you're doing to ensure the best possible care. Both Lynne Neagle and I have recently had issues with families being unable to find appropriate care accommodation for relatives suffering from dementia as opposed to other conditions. These families are being asked to go round and find places for care themselves. I'm sure you agree with me that that's not an ideal situation. The situation is only going to get worse with the ageing population, so we look to the Welsh Government for some guidance on how this situation can be improved in the future.

Rwy'n deall bod hynny'n rhan o gynllun prawf dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Tybed a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dioddefwyr canser y prostad yn y DU a beth sy'n mynd i ddigwydd y tu hwnt i gyfnod y cerbyd hwnnw. Yn ail, rwyf wedi bod yn trafod â rhai etholwyr, a chyda Lynne Neagle yn wir, sydd wedi cael problemau tebyg yn Nhorfaen, o ran gofal i bobl hŷn â dementia yng Nghymru, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn yr ydych chi'n ei wneud i sicrhau'r gofal gorau posibl. Mae Lynne Neagle a minnau wedi cael problemau yn ddiweddar gyda theuluoedd yn methu â dod o hyd i lety gofal priodol i berthnasau sy'n dioddef o ddementia yn hytrach na chyflyrau eraill. Gofynnir i'r teuluoedd hyn fynd o gwmpas eu hunain i ddod o hyd i leoedd gofal. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi nad yw honno'n sefyllfa ddelfrydol. Dim ond gwaethygu wnaiff y sefyllfa wrth i'r boblogaeth heneiddio, felly rydym ni'n disgwyl rhywfaint o gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru am ar sut y gellir gwella'r sefyllfa hon yn y dyfodol.

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I think it's very welcome that Nick Ramsay has drawn attention to the Man Van that has been parked outside the Assembly, I think hosted by Janice Gregory, and also the publicity and awareness-raising as a result of Assembly Members visiting the mobile prostate cancer van will have made an impact, particularly as there is a debate tomorrow, the short debate, which your leader will be moving, with a response from our Deputy Minister, in terms of prostate cancer.

Wel, rwy'n credu ei fod i'w groesawu'n fawr bod Nick Ramsay wedi tynnu sylw at y Man Van sydd wedi ei pharcio y tu allan i'r Cynulliad, wedi ei threfnu gan Janice Gregory, rwy'n meddwl, a hefyd bydd y cyhoeddusrwydd a'r codi ymwybyddiaeth o ganlyniad i Aelodau'r Cynulliad yn ymweld â'r fan canser y prostad symudol wedi cael effaith, yn enwedig gan fod dadl yfory, y ddadl fer, y bydd eich arweinydd yn ei chynnig, gydag ymateb gan ein Dirprwy Weinidog, o ran canser y prostad.

I think, on your second point, it is important, particularly if this relates to part of your constituency and indeed neighbouring constituencies, that you do raise these issues with the Aneurin Bevan health board and of course bring cases to the attention of the health board. But of course it is important that we recognise that we fund a 24/7 bilingual Wales dementia helpline, and I do hope you can draw the attention of your constituents to that helpline, because it can help and support those who’ve been diagnosed with dementia and of course support those who are caring for someone with dementia as well as other family members or friends.

Rwy’n meddwl, o ran eich ail bwynt, ei bod yn bwysig, yn enwedig os yw hyn yn ymwneud â rhan o'ch etholaeth ac etholaethau cyfagos yn wir, eich bod yn codi'r materion hyn gyda bwrdd iechyd Aneurin Bevan ac, wrth gwrs, yn tynnu sylw'r bwrdd iechyd at achosion. Ond wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ein bod yn ariannu llinell gymorth dementia Cymru 24/7 ddwyieithog, ac rwy’n gobeithio y gallwch chi dynnu sylw eich etholwyr at y llinell gymorth honno, gan y gallai helpu a chefnogi'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia ac, wrth gwrs, cefnogi'r rhai sy'n gofalu am rywun sydd â dementia yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau.

14:34

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Diolch, Weinidog.

Thank you, Minister.

14:34

# 3. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

# 3. Statement: Introduction of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Statement by the Minister for Health and Social Services: introduction of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

14:35

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro. Ddoe, cyflwynais Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a’r memorandwm esboniadol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os caiff y ddeddfwriaeth hon ei phasio, bydd yn creu system reoleiddio a fydd yn cefnogi llwyddiant, yn hytrach na dim ond gweld ble mae methiant. Rydym ni wedi ymgynghori’n helaeth â’n partneriaid a’n rhanddeiliaid ar gynnwys y Bil hwn, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei ddatblygiad. Byddaf i’n falch os byddan nhw’n parhau i gyfrannu at y meysydd gwaith manwl y mae angen eu datblygu o dan y Bil hwn.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Yesterday, I introduced the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, into the National Assembly for Wales. This legislation will, if passed, create a regulation system geared to support success, not simply to identify failure. There has been extensive consultation with our partners and stakeholders on the content of this Bill, and I would like to record my thanks to all those who have contributed to its development. I would value their continued involvement in informing the detail of key areas of work to be taken forward under this Bill.

Nid oes sylfaen ddeddfwriaethol gyson ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol. Mae angen ei diwygio a’i diweddaru. Mae’r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu wedi newid yn sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae llawer mwy o bobl yn cael gofal yn y gymuned, ac mae cynnydd mewn pobl mewn gofal preswyl sydd â chyflyrrau mwy acíwt. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dan arweiniad Mrs Gwenda Thomas, wrth gwrs, yn torri tir newydd o ran cyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i ymateb i’r newidiadau hyn. Mae’r Bil cysylltiedig hwn yn cynnig fframwaith cyfreithiol effeithiol ar gyfer rheoleiddio’r dulliau newydd a osodwyd gan Ddeddf 2014.

The existing legislative basis for the regulation and inspection of social care is fragmented. It needs reforming and updating. The delivery of social care has changed significantly over the past 15 years with far greater numbers of people being cared for in the community and an increase in acuity for those in residential care. The Social Services and Well-being Act (Wales) 2014, under the leadership of Mrs Gwenda Thomas, of course, was a landmark legislative step taken in Wales to respond to these changes. This companion Bill provides an effective legal framework for the regulation of the new approach established in the 2014 Act.

And, through that, Deputy Presiding Officer, it will introduce a regulatory regime that reflects modern practice, it complements the 2014 Act, and will support the delivery of the changes that that legislation has set in train.

A thrwy hynny, Ddirprwy Lywydd, bydd yn cyflwyno trefn reoleiddio sy'n adlewyrchu arferion modern, mae'n cyd-fynd â Deddf 2014, a bydd yn cynorthwyo’r broses o gyflwyno’r newidiadau y mae’r ddeddfwriaeth honno wedi’u rhoi ar waith.

This Bill sets out a new regulatory process, one that moves away from a system that focuses on establishments and agencies to one that will concentrate on regulated services. It will ensure that no service escapes the regulatory gaze, and that every service that operates in Wales must register in Wales. This change will enable greater flexibility, openness and clarity, both for the service provider and the regulator. The Bill also establishes a system with sufficient flexibility to allow for new services and models of care and support to be brought into the regulatory regime in future, when and where this becomes desirable.

Mae'r Bil hwn yn amlinellu proses reoleiddio newydd, un sy'n symud oddi wrth system sy'n canolbwyntio ar sefydliadau ac asiantaethau a thuag at un a fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau rheoledig. Bydd yn sicrhau na fydd yr un gwasanaeth yn dianc rhag syllu rheoliadol, ac y bydd yn rhaid i bob gwasanaeth sy'n gweithredu yng Nghymru gofrestru yng Nghymru. Bydd y newid hwn yn gwneud pethau'n fwy hyblyg, yn fwy agored ac yn fwy eglur i ddarparwyr gwasanaethau a'r rheoleiddiwr. Mae'r Bil hefyd yn sefydlu system sy'n rhoi digon o hyblygrwydd i ganiatáu i wasanaethau a modelau newydd o ofal a chymorth gael eu cyflwyno i'r gyfundrefn reoleiddio yn y dyfodol, pryd bynnag a ble bynnag y bydd hynny'n ddymunol.

The Bill will rebalance accountability in our system, away from concentration solely on those at the front line, to ensure that those who employ them also share the responsibilities in law. Each service provider will be required to designate an individual as a 'responsible individual' as part of their registration, ensuring a clear line of sight from the boardroom to the front line, and a much stronger sense of corporate responsibility. This Bill will ensure that the service provider takes an active interest in, and has accountability for, the quality of the service that that provider provides.

Bydd y Bil yn ailgloriannu atebolrwydd yn ein system, oddi wrth ganolbwyntio ar y rhai sydd ar y rheng flaen yn unig, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n eu cyflogi hefyd yn rhannu'r cyfrifoldebau cyfreithiol. Bydd gofyn i bob darparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn yn 'unigolyn cyfrifol' wrth gofrestru, gan sicrhau bod llwybr clir o ystafell y bwrdd i'r rheng flaen, ac ymdeimlad cryfach o lawer o gyfrifoldeb corfforaethol. Bydd y Bil hwn yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n dangos diddordeb gweithredol yn ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, ac yn atebol amdano.

The approach will be to regulate for improvement and for success. The Bill provides greater flexibility for the service regulator, and it aligns the regulatory system with the wider effort for improvement across the sector. The Bill will make it easier and quicker for the regulator to act where care is judged to be beyond repair, and, if necessary, to cancel the registration of those providers, services and settings that fail to implement improvement. It also includes stronger penalties for certain offences, such as providing a regulated service without ensuring that it is regulated.

Y bwriad yw rheoleiddio er mwyn gwella a llwyddo. Mae'r Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i reoleiddiwr y gwasanaeth, ac mae'n cysoni'r system reoleiddio â'r ymdrech ehangach i wella ar draws y sector. Bydd y Bil yn ei gwneud yn haws ac yn gynt i'r rheoleiddiwr weithredu lle bernir nad oes modd unioni'r gofal, ac os oes angen gwneud hynny, ganslo cofrestriad darparwyr, gwasanaethau a lleoliadau sy'n methu â chyflawni gwelliant. Mae hefyd yn cynnwys cosbau cryfach am rai troseddau, fel darparu gwasanaeth rheoledig heb sicrhau ei fod yn cael ei reoleiddio.

Now, I want people to have access to the information they need to make informed choices about their own care, or that of family members. This Bill provides the opportunity, in the future, to introduce a ratings system as part of the inspection process, in order to help bring about improvement in the quality of care and support that is provided by the sector. The new requirement for all service providers to publish a standardised annual report will ensure users, their carers and families have meaningful and readily available information about individual settings and the quality of service that they provide. These reports will be available alongside the relevant report from the service regulator. The Bill, however, goes beyond informing service users and listening to their views. It will lead directly to their greater involvement in the work carried out by regulators and the judgments drawn by them, and regulators will be required to report annually on how they have involved citizens in their work.

Yn awr, rwyf am i bobl allu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gofal eu hunain, neu ofal aelodau o'u teulu. Mae'r Bil hwn yn creu cyfle, yn y dyfodol, i gyflwyno system raddio fel rhan o'r broses arolygu, er mwyn helpu i sicrhau gwelliant yn ansawdd y gofal a'r cymorth y mae'r sector yn eu darparu. Bydd y gofyniad newydd fod pob darparwr gwasanaeth yn cyhoeddi adroddiad blynyddol safonol yn sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon ar gael yn rhwydd i ddefnyddwyr, eu gofalwyr a'u teuluoedd ynglŷn â lleoliadau unigol ac ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael ochr yn ochr â'r adroddiad perthnasol gan reoleiddiwr y gwasanaeth. Mae'r Bil, fodd bynnag, yn gwneud mwy na hysbysu defnyddwyr gwasanaethau a gwrando ar eu barn. Bydd yn arwain yn uniongyrchol at fwy o ran iddynt yn y gwaith a wneir gan reoleiddwyr a'r farn y maent yn ei llunio, a bydd yn rhaid i reoleiddwyr adrodd yn flynyddol ynghylch y ffordd y maent wedi cynnwys dinasyddion yn eu gwaith.

High-quality care and support is about more than just meeting essential needs and minimum standards. It is about understanding the impact that these services have on people's lives and on their wellbeing. This Bill, therefore, shifts the focus from minimum standards to outcomes for people, and requires for service inspections to include an assessment of the wellbeing of those who are receiving those services. Local authorities are themselves central players in the delivery of social care services. The Bill retains the power to inspect and report on the carrying out of social services functions by local authorities. It enables any quality rating system to encompass local authorities and their service provider functions. It places the annual report of the director of social services on a statutory footing, with a new standardised format. It also includes a power to require local authorities to report on the market for social care services in their area, both now and in the future.

Mae gofal a chymorth o safon uchel yn golygu mwy na dim ond bodloni anghenion hanfodol a safonau gofynnol. Mae'n golygu deall effaith y gwasanaethau hyn ar fywydau pobl ac ar eu lles. Mae'r Bil hwn, felly, yn symud y pwyslais oddi ar safonau gofynnol a thuag at ganlyniadau i bobl, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod arolygiadau o wasanaethau'n cynnwys asesiad o les y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae awdurdodau lleol eu hunain yn weithredwyr canolog o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r Bil yn cadw'r grym i arolygu'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gyflawnir gan awdurdodau lleol ac adrodd amdanynt. Mae'n galluogi unrhyw system raddio ansawdd i gynnwys awdurdodau lleol a'u swyddogaethau fel darparwyr gwasanaethau. Mae'n rhoi statws statudol i adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, a hynny ar ffurf safonol newydd. Mae hefyd yn cynnwys grym i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd am y farchnad gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hardal, yn awr ac yn y dyfodol.

The new requirement for a national market stability report will ensure that we have access to the information that we need in order to reduce the risk and impact of significant provider failure. The Bill will reconstitute the Care Council for Wales as Social Care Wales. This will involve a step change for the social care sector and, for the first time, it will combine responsibility for workforce regulation, workforce development and service improvement all within the one body. Dirprwy Lywydd, I wish to acknowledge the significant contribution of the care council and Care and Social Services Inspectorate Wales over many years. Both are, quite rightly, held in high regard. Social Care Wales will look to build on the successful foundations laid down by the care council. The key difference will be its strategic focus on setting the improvement agenda and supporting partners to deliver that improvement across the social care sector.

Bydd y gofyniad newydd am adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn sicrhau ein bod yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn lleihau risg ac effaith methiant difrifol gan ddarparwyr. Bydd y Bil yn ailgyfansoddi Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn golygu newid mawr i'r sector gofal cymdeithasol, ac am y tro cyntaf, bydd yn cyfuno cyfrifoldeb am reoleiddio'r gweithlu, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau i gyd mewn un corff. Ddirprwy Lywydd, hoffwn gydnabod cyfraniad sylweddol y cyngor gofal ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru dros flynyddoedd lawer. Mae parch mawr i'r ddau, a hynny'n gwbl briodol. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n ceisio adeiladu ar y sylfeini llwyddiannus a osodwyd gan y cyngor gofal. Y gwahaniaeth allweddol fydd y pwyslais strategol ar bennu'r agenda ar gyfer gwella a chynorthwyo partneriaid i gyflawni'r gwelliant hwnnw ar draws y sector gofal cymdeithasol.

In the workforce field the Bill is much more explicit about the procedures for the registration and fitness-to-practise processes than those that exist in current legislation. It provides greater autonomy for the workforce regulator in terms of the operational processes of regulation. It recognises the broad nature of the care and support workforce, and builds a regulatory regime that can respond to that breadth. In difficult financial times, we must deliver a cost-effective approach to workforce regulation, which continues to provide sound public assurance. The way in which information is used and shared by regulators and relevant authorities is also crucial, especially to protect wellbeing. That is why the Bill includes information-sharing provisions, providing explicit powers and duties for them to co-operate and work together in exercising their respective functions. These are important provisions, intended to bring about the collaboration and joint working that is essential to effective public protection.

O ran y gweithlu, mae'r Bil yn fwy eglur o lawer am y gweithdrefnau ar gyfer cofrestru a'r prosesau addasrwydd i ymarfer na'r rhai sydd yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n rhoi mwy o ymreolaeth i reoleiddiwr y gweithlu o ran prosesau gweithredol rheoleiddio. Mae'n cydnabod natur eang y gweithlu gofal a chymorth, ac yn adeiladu cyfundrefn reoleiddio sy'n gallu ymateb i'r ehangder hwnnw. Mewn cyfnod ariannol anodd, mae'n rhaid inni gyflwyno dull cost-effeithiol o reoleiddio'r gweithlu, sy'n parhau i gynnig sicrwydd cadarn i'r cyhoedd. Mae'r ffordd y mae rheoleiddwyr ac awdurdodau perthnasol yn defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth hefyd yn allweddol, yn enwedig er mwyn diogelu lles. Dyna pam y mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau rhannu gwybodaeth, gan ddarparu pwerau a dyletswyddau penodol iddynt i gydweithredu a chydweithio wrth arfer eu priod swyddogaethau. Mae'r rhain yn ddarpariaethau pwysig, y bwriedir iddynt sicrhau'r cydweithredu a'r cydweithio sy'n hanfodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol.

Ddirprwy Lywydd, nid yw darn o ddeddfwriaeth ar ei ben ei hun yn ddigon i roi sicrwydd a hyder i ni am y gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu darparu yng Nghymru ac am ansawdd y gweithlu gofal. Mae'n rhaid i unigolion, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau rannu'r cyfrifoldeb am hyn. Nod y Bil yw sicrhau cydbwysedd: ar un llaw, y manteision sy'n dod o reoleiddio clir a chyson, ac, ar y llaw arall, hyblygrwydd i'r rhai sy'n gweithio yn y sector I greu ffyrdd newydd o weithio gan ymateb I amgylchiadau unigol a chanolbwyntio ar brif nod gofal cymdeithasol, sef rhoi cymorth effeithiol I bobl sydd ei angen.

Deputy Presiding Officer, confidence in the delivery of care and support services in Wales and in the quality of the social care workforce in Wales cannot be assured solely through a piece of legislation. The responsibility for this must be shared between individuals, professionals and organisations. This Bill aims to balance the benefits of consistent and clear regulation with the flexibility for those in the sector to create new ways of working, respond to individual circumstances and to focus on the key aim of social care, namely providing effective support to those in need.

Mae'r Bil sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi un sylfaen gydlynol a chyfredol ar gyfer y gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud gan ddarparwyr gofal cymdeithasol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y proses craffu a fydd yn dilyn nawr, ac at gael trafodaethau cadarnhaol gyda'r llu o sefydliadau ac unigolion, yn y Siambr hon a thu hwnt, a fydd â diddordeb mewn gwneud i'r Bil lwyddo. Diolch yn fawr.

The Bill before the National Assembly provides a single coherent and up-to-date statutory basis for the vital work that social care providers undertake. I look forward very much to the scrutiny process that will now follow, and to the constructive engagement of those many organisations and individuals, within the Siambr and beyond, which will have an interest in making the Bill a success. Thank you.

14:45

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute in this statement that the Minister's introduced today, obviously about the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill and the inspection of social care homes. It's easy to reflect that you can corporatise the governance arrangements and the inspection packages around care homes, but actually the ability to care is very much in the individual's gift, and the expertise that we do see in many of the homes up and down the whole of Wales, and indeed across the United Kingdom, is something that should be celebrated. I listened to the Minister's comments on the radio this morning, and he was saying that it was important that this Bill isn't seen as a draconian type of legislation, but it actually reflects the situation that we find ourselves in at the moment, with a burgeoning elderly population, and obviously the pressure that that has placed on the care environment, with the very many people who would like to be cared for within their own home. That is a statement of fact, but it is also a desire of many people to be cared for in a communal environment in a care home.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y datganiad hwn y mae'r Gweinidog wedi'i gyflwyno heddiw ynglŷn â'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac arolygu cartrefi gofal cymdeithasol. Mae'n hawdd myfyrio ynglŷn â chorffori trefniadau llywodraethu a phecynnau arolygu cartrefi gofal, ond mewn gwirionedd dawn yr unigolyn yw'r gallu i ofalu, ac mae'r arbenigedd a welwn mewn llawer o gartrefi ar hyd a lled Cymru, ac yn wir ledled y Deyrnas Unedig, yn rhywbeth y dylid ei ddathlu. Gwrandewais ar sylwadau'r Gweinidog ar y radio y bore yma, ac roedd yn dweud ei bod yn bwysig nad yw'r Bil hwn yn cael ei ystyried yn fath llym o ddeddfwriaeth, ond ei fod mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd, lle y mae ein poblogaeth oedrannus ar gynnydd, ac yn amlwg y pwysau y mae hynny wedi'i roi ar yr amgylchedd gofal, a llawer iawn o bobl a hoffai dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Mae hynny'n ddatganiad ffeithiol, ond mae llawer o bobl hefyd yn awyddus i dderbyn gofal mewn amgylchedd cymunedol mewn cartref gofal.

Some parts of Wales obviously do have good care-home provision, and plenty of it. In other parts, especially in rural areas, the sparsity of population obviously means that there isn't such provision of a care-home environment for people to go to.

Wrth gwrs, mae darpariaeth dda o ran cartrefi gofal mewn rhai rhannau o Gymru, a digon ohonynt. Mewn rhannau eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, mae teneurwydd y boblogaeth yn amlwg yn golygu nad oes darpariaeth o'r fath o ran cartrefi gofal i bobl fynd iddynt.

We are also all very aware of the various scandals and abuses that have gone on that have been highlighted in various tv programmes and in various reports. Obviously, there's a report pending that is due to be coming forward from the First Minister in May of this year, looking into aspects of poor care. New evidence has come about that has delayed that report coming forward for consideration. So, I do hope that this Bill does achieve the sentiments that the Minister outlined in his opening remarks in this statement today, and in the comment that he has given to the press over the last couple of days.

Rydym hefyd i gyd yn ymwybodol iawn o'r gwahanol sgandalau ac achosion o gam-drin sydd wedi digwydd ac wedi cael sylw mewn amryw o raglenni teledu ac mewn amryw o adroddiadau. Wrth gwrs, rydym yn disgwyl adroddiad gan y Prif Weinidog ym mis Mai eleni, yn edrych ar agweddau ar ofal gwael. Mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg sydd wedi gohirio cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'w ystyried. Felly, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Bil hwn gyflawni'r hyn a amlinellodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol yn y datganiad hwn heddiw, ac yn y sylwadau y mae wedi'u rhoi i'r wasg yn ystod y dyddiau diwethaf.

It is good to see that there is a refreshing lot of detail in this legislation. Very often, we are asked in this place to hand over powers to Ministers in the hope that they will fill in the blanks, as it were. This Bill obviously does have a great deal of detail in it, and obviously that will be explored in greater depth as the Bill progresses through this institution.

Mae'n braf gweld cymaint o fanylder yn y ddeddfwriaeth hon. Yn aml iawn, gofynnir inni yn y lle hwn drosglwyddo pwerau i Weinidogion gan obeithio y byddant yn llenwi'r bylchau, fel petai. Mae'n amlwg bod llawer iawn o fanylder yn y Bil hwn, ac yn amlwg caiff hynny ei archwilio'n fwy manwl wrth i'r Bil fynd yn ei flaen drwy'r sefydliad hwn.

If I could put some questions to the Minister in particular, care standards Wales inspectors obviously currently only have the option to shut down a poor-performing care home. Has the Minister looked at the possibility of the inspectorate being able to appoint interim managers into failing care homes as an alternative to closure? Obviously, the closure option is quite a dramatic situation, whereas interim managers would allow some stability to be introduced into that environment, especially for residents who feel in a very vulnerable position.

Hoffwn ofyn rhai cwestiynau i'r Gweinidog yn arbennig: ar hyn o bryd, yr unig ddewis sydd gan arolygwyr safonau gofal Cymru yw cau cartrefi gofal sy'n perfformio'n wael. A yw'r Gweinidog wedi ystyried galluogi'r arolygiaeth i benodi rheolwyr dros dro mewn cartrefi gofal sy'n methu fel dewis arall yn hytrach na'u cau? Yn amlwg, mae dewis eu cau'n creu sefyllfa eithaf dramatig, ond byddai rheolwyr dros dro'n golygu y gellid cyflwyno rhywfaint o sefydlogrwydd i'r amgylchedd, yn enwedig i drigolion sy'n teimlo bod eu sefyllfa'n fregus iawn.

The Bill would also require a responsible person to sit on the board level to be accountable for service provision, in addition to the registered manager of a service or care home. Has the Minister considered the implications that this might have on larger care home groups and how this accountability would work in practice?

Byddai'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn cyfrifol eistedd ar lefel y bwrdd i fod yn atebol am ddarpariaeth y gwasanaeth, yn ogystal â rheolwr cofrestredig y gwasanaeth neu'r cartref gofal. A yw'r Gweinidog wedi ystyried y goblygiadau y gallai hyn eu creu i grwpiau mwy o gartrefi gofal a sut y byddai'r atebolrwydd hwn yn gweithio'n ymarferol?

Finally, if I could put this point to the Minister: under the Bill the Minister has looked at creating a power for a rating system for care homes and other care providers. Whilst I have no objection in principle to the establishment of such a system, I do feel that this may lead to unintended consequences. Naturally, people would want to go into homes with a higher rating, but given the shortages of care home beds in some parts of the country, does the Minister accept that a scores-on-the-doors approach would actually worsen the bedblocking problems in some Welsh hospitals as patients wait for places in the best-rated homes to become available, and that the choice that they would prefer would be acceptable given that the nature of such a grading scheme could bring in that possibility?

Yn olaf, os caf fi ddweud hyn wrth y Gweinidog: o dan y Bil mae'r Gweinidog wedi edrych ar greu grym ar gyfer system i raddio cartrefi gofal a darparwyr gofal eraill. Er nad oes gennyf ddim gwrthwynebiad mewn egwyddor i sefydlu system o'r fath, credaf y gallai hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Wrth gwrs, bydd pobl yn dymuno mynd i gartrefi â sgôr uwch, ond ac ystyried prinder gwelyau mewn cartrefi gofal mewn rhai rhannau o'r wlad, a yw'r Gweinidog yn derbyn y byddai ymagwedd 'sgorau ar y drws' mewn gwirionedd yn gwaethygu'r problemau o ran blocio gwelyau yn rhai o ysbytai Cymru wrth i gleifion aros i leoedd fod ar gael yn y cartrefi â'r sgorau gorau, ac y byddai'r dewis a fyddai'n well ganddynt yn dderbyniol o ystyried y gallai natur cynllun graddio o'r fath beri y gallai hynny ddigwydd?

In addition, if such a rating scheme is appropriate for the care service, then what about healthcare settings such as hospitals? Has the Minister thought about extending such a banding system so that people do know that the care environment they're in, whether that be a hospital or a care home, could have a banding system to show the levels of care that they might expect? Surely what's good for the goose is good for the gander.

Hefyd, os yw cynllun graddio o'r fath yn briodol i'r gwasanaeth gofal, beth am leoliadau gofal iechyd megis ysbytai? A yw'r Gweinidog wedi ystyried estyn system fandio o'r fath fel bod pobl yn gwybod y gallai fod gan yr amgylchedd gofal y maent ynddo, boed yn ysbyty neu'n gartref gofal, system fandio i ddangos y lefelau gofal y gallent eu disgwyl? Siawns nad yw'r hyn sy'n dda i un yn dda i'r llall hefyd.

The final point I'd like to make is, as the Minister has indicated, the Welsh Government, at the moment, doesn't intend actually introducing a rating system. Therefore, as the provision is sitting within the Bill, where does the Minister believe that this particular proposal will go? Given that, obviously, it exists within the Bill, can he see, in the short to medium term, a banding system coming forward, or is it more the case that this is a longer-term aspiration?

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud, fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi, yw nad yw Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn bwriadu cyflwyno system raddio mewn gwirionedd. Felly, gan fod y ddarpariaeth yn eistedd yn y Bil, i ble y mae'r Gweinidog yn credu yr aiff y cynnig penodol hwn? O ystyried ei fod, yn amlwg, yn bodoli yn y Bil, a all weld, yn y tymor byr i ganolig, system fandio'n cael ei chyflwyno, ynteu a yw hynny'n fwy o ddyhead tymor hwy?

14:50 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Can I thank Andrew R.T. Davies for those remarks? I thank him for the way he began. I share entirely what he said: an enormous amount of very important, careful and compassionate care is provided in the care home sector and in the domiciliary care sector. The aim of this Bill is to position regulation and inspection as part of the effort to improve standards wherever we are able to, not simply to respond to failure and to scandal. Of course, it is important that, where things go wrong, we learn those lessons, and the report of Dr Margaret Flynn into events in the Gwent part of Wales should become available during the passage of this Bill, and we will all be able to benefit from the advice that we receive from her.

A gaf fi ddiolch i Andrew R.T. Davies am y sylwadau hynny? Rwyf yn diolch iddo am y ffordd y dechreuodd. Rwyf yn cytuno’n llwyr â’r hyn a ddywedodd: mae llawer iawn o ofal pwysig, gofalus a thosturiol iawn yn cael ei ddarparu yn y sector cartrefi gofal ac yn y sector gofal cartref. Nod y Bil hwn yw sicrhau bod rheoleiddio ac arolygu’n rhan o'r ymdrech i wella safonau ble bynnag y gallwn, nid dim ond ymateb i fethiant a sgandal. Wrth gwrs, mae'n bwysig, os aiff pethau o chwith, ein bod yn dysgu’r gwersi hynny, a dylai adroddiad Dr Margaret Flynn ynglŷn â digwyddiadau yn ardal Gwent fod ar gael yn ystod hynt y Bil hwn, a gallwn i gyd elwa ar y cyngor a gawn ganddi.

Can I thank him, as well, for his recognition that there is a great deal of detail on the face of this Bill, so that people who are asked to debate it and decide on it can see exactly how the process of regulation is intended to work?

A gaf fi ddiolch iddo, hefyd, am gydnabod bod llawer iawn o fanylion ar wyneb y Bil hwn, fel bod pobl y gofynnir iddynt ei drafod a gwneud penderfyniadau yn ei gylch yn gallu gweld sut yn union y bwriedir i’r broses reoleiddio weithio?

In relation to the three specific questions he asked, the Bill will provide the regulator with new tools to be able to act swiftly and decisively when there is poor performance. It sets up a system of improvement notices, for example. It allows for time-limited registration. In the final stage, it will allow for the closure of particular services. The issue of temporary managers is something I’m sure we’ll return to as the Bill goes through its processes.

O ran y tri chwestiwn penodol a ofynnodd, bydd y Bil yn darparu offer newydd i’r rheoleiddiwr i allu gweithredu'n gyflym ac yn bendant pan geir perfformiad gwael. Mae'n sefydlu system o rybuddion gwella, er enghraifft. Mae'n caniatáu cofrestru am gyfnod penodol. Yn y cam olaf, bydd yn caniatáu cau gwasanaethau penodol. Mae mater rheolwyr dros dro’n rhywbeth yr wyf yn siŵr y down yn ôl ato wrth i'r Bil fynd drwy ei brosesau.

As far as the registered individual is concerned, of course, we are aware of the issues with large companies, but, in many ways, it is because the nature of the sector has changed, so that we have fewer owners of care homes in Wales but they own far more of them, that it is necessary to make sure that those people who are involved in decisions made at board level carry the responsibility for the impact that those decisions have on the quality of care that is provided. We will work with the sector to make sure that the new system is workable for them, but that basic principle that people who own care homes and who make a profit out of the provision of care are to be held directly responsible for the consequences of the decisions they make on the quality of care, I think, is the right one.

O ran yr unigolyn cofrestredig, wrth gwrs, rydym yn gwybod am y materion ynglŷn â chwmnïau mawr, ond, mewn sawl ffordd, mae hynny oherwydd bod natur y sector wedi newid; mae gennym lai o berchnogion cartrefi gofal yng Nghymru ond maent yn berchen ar lawer mwy o gartrefi, felly mae’n rhaid gwneud yn siŵr bod y bobl hynny sy'n ymwneud â phenderfyniadau a wneir ar lefel y bwrdd yn gyfrifol am effaith y penderfyniadau hynny ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod y system newydd yn ymarferol iddynt, ond mae’r egwyddor sylfaenol bod pobl sy'n berchen ar gartrefi gofal ac sy'n gwneud elw o ddarparu gofal yn gorfod bod yn uniongyrchol gyfrifol am ganlyniadau’r penderfyniadau a wnânt o ran ansawdd y gofal, yn fy marn i, yn gywir.

As far as the rating system is concerned, I don’t see it being introduced in the short term. I don’t rule out its being introduced in the medium term, provided we have the necessary discussions with the sector. Two thirds of those who responded to consultation were in favour of a rating system, and that included many providers, but we know that we have to get it right, because, if the purpose of a rating system is to provide a signal to members of the public and their families, then we need to make sure that the signal we send is reliable and tells them something worth knowing. There’s work to be done with the sector to make sure that we’re in that position.

O ran y system raddio, ni allaf ei gweld yn cael ei chyflwyno yn y tymor byr. Nid wyf yn diystyru ei chyflwyno yn y tymor canol, cyn belled â’n bod yn cael y trafodaethau angenrheidiol â'r sector. Roedd dwy ran o dair o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid system raddio, ac roedd hynny’n cynnwys llawer o ddarparwyr, ond rydym yn gwybod bod yn rhaid inni wneud hyn yn iawn, oherwydd, os mai diben system raddio yw rhoi arwydd i aelodau’r cyhoedd a'u teuluoedd, mae angen inni wneud yn siŵr bod yr arwydd yr ydym yn ei anfon yn ddibynadwy ac yn dweud rhywbeth sy’n werth ei wybod. Mae gwaith i'w wneud gyda'r sector i wneud yn siŵr mai dyna’r sefyllfa.

14:54 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for your statement. I'm very pleased to read the statement today; I think there's a huge amount in here that can be welcomed. In particular, I'm very pleased to see the measures to enable quick action to be taken in the case of failing care homes. I'm pleased to see the new requirement for a national market stability report, and the measures that you've discussed around the social care workforce. I'm really looking forward to looking at those in detail in committee.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn falch iawn o ddarllen y datganiad heddiw; credaf fod llawer iawn y gellir ei groesawu yma. Yn benodol, rwyf yn falch iawn o weld y mesurau i alluogi gweithredu'n gyflym yn achos cartrefi gofal sy'n methu. Rwyf yn falch o weld y gofyniad newydd am adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol, a'r mesurau yr ydych wedi'u trafod ynghylch y gweithlu gofal cymdeithasol. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at edrych ar y rheini'n fanwl yn y pwyllgor.

You said in your statement that:

Dywedasoch yn eich datganiad:

'High-quality care and support is about more than just meeting essential needs and minimum standards.'

'Mae gofal a chymorth o ansawdd uchel yn golygu mwy na dim ond bodloni anghenion hanfodol a safonau gofynnol.'

That very much chimes with what the Commissioner for Older People in Wales has been saying following her report into residential care. I do welcome the inclusion of that in your statement today, but can you say a little more about how the Bill will actually ensure that we see those quality-of-life improvements for people living in the residential care sector?

Mae hynny'n cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru wedi bod yn ei ddweud ar ôl iddi gyhoeddi ei hadroddiad ar ofal preswyl. Rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod wedi cynnwys hynny yn eich datganiad heddiw, ond a wnewch chi ddweud ychydig mwy am sut y bydd y Bil mewn gwirionedd yn sicrhau ein bod yn gweld y gwelliannau hynny yn ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn y sector gofal preswyl?

14:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I thank Lynne Neagle. On the question of market stability reports, this is an important part of the Bill. It's there in response to market failure, as you can imagine, after the Southern Cross experience. We need to have better intelligence about the way that the market operates in order that the very large sums of public money that are spent in it are spent to best effect. The Bill also provides a second and separate set of powers for intervention in the workings of what are called 'strategic providers'. That's a relatively small number, maybe between 10 and 15 of the very largest companies in Wales, where the regulator will have new powers to require financial information and other information from those companies, where there is a belief that the public interest has to be served by obtaining that information.

Diolch Lynne Neagle. O ran adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad, mae hyn yn rhan bwysig o'r Bil. Mae yno er mwyn ymateb i fethiant y farchnad, fel y gallwch ei ddychmygu, ar ôl profiad Southern Cross. Mae angen gwell gwybodaeth arnom am y ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu er mwyn i'r symiau mawr iawn o arian cyhoeddus sy'n cael eu gwario ynddi gael eu gwario yn y ffordd orau. Mae'r Bil hefyd yn darparu ail gyfres o bwerau ar wahân i ymyrryd yng ngwaith darparwyr a elwir yn 'ddarparwyr strategol'. Mae hwnnw'n nifer cymharol fach, efallai rhwng 10 a 15 o'r cwmnïau mwyaf un yng Nghymru, lle y bydd y rheoleiddiwr yn cael pwerau newydd i fynnu cael gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall gan y cwmnïau hynny, os yw'n credu bod cael y wybodaeth honno o fudd i'r cyhoedd.

As to Lynne's third point, the Bill aims to shift the focus of regulation so that, as well as necessary minimum standards, the regulator also has an eye on the quality of care as it impacts in the lives of those individuals. In that way, it is closely aligned with the social services Act of 2014 and it will use the same outcomes framework that we are developing as part of that Act, so that the regulator, in looking at the impact of the care that is provided in the lives of individual residents or individual users of domiciliary care, will be looking to see that the care provided has outcomes in the lives of those people that are to their benefits.

O ran trydydd pwynt Lynne, mae'r Bil yn ceisio newid pwyslais rheoleiddio fel bod y rheoleiddiwr, yn ogystal â sicrhau safonau gofynnol sy'n angenrheidiol, yn cadw llygad ar ansawdd y gofal fel y mae'n effeithio ar fywydau'r unigolion hynny. Yn hynny o beth, mae'n cyd-fynd yn agos â Deddf gwasanaethau cymdeithasol 2014 a bydd yn defnyddio'r un fframwaith canlyniadau ag yr ydym yn ei ddatblygu fel rhan o'r Ddeddf honno, fel y bydd y rheoleiddiwr, wrth edrych ar effaith y gofal sy'n cael ei ddarparu ar fywydau preswylwyr unigol neu ddefnyddwyr unigol gofal cartref, yn edrych i weld bod y gofal a ddarperir yn creu canlyniadau ym mywydau'r bobl hynny sydd o fudd iddynt.

14:57 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

The Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

14:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad yn cyflwyno'r Mesur yma y prynhawn yma. Rwy'n edrych ymlaen at y broses o sgrwtineiddio'r Mesur yn y pwyllgor. Rwy'n gobeithio y gwnaiff y Gweinidog fy esgusodi i y prynhawn yma fy mod i heb ddarllen y memorandwm esboniadol a gafodd ei gyhoeddi ddoe, sy'n 407 o dudalennau, ond rwy'n edrych ymlaen at wneud hynny.

I thank the Minister for his statement in introducing this Bill here this afternoon. I look forward to the process of scrutinising the Bill in committee. I do hope that the Minister will excuse me this afternoon for not having read the explanatory memorandum that was published yesterday, which is 407 pages long. However, I am looking forward to doing that.

Mae'n siŵr bod yna gamau pwysig iawn yn cael eu cymryd yn y ddeddfwriaeth yma, yn enwedig o ran rheoleiddio a phroffesiynoli y gweithlu gofal a'r gweithlu cymdeithasol a gosod y gyfundrefn sydd yn rhoi cefnogaeth iddyn nhw yn eu gwaith pwysig nhw—gosod y gyfundrefn honno mewn lle yn llawn. Mor gynnar â hyn yn y broses o sgrwtineiddio'r ddeddfwriaeth yma, rwyf eisiau codi cwestiynau mewn dau faes penodol.

It is sure that there are very important steps being taken in this legislation, particularly in terms of regulating and professionalising the care and social care workforce, and putting in place a regime that will support them in their important work—fully implementing that system. At this early stage in the process of scrutinising this legislation, I do want to raise questions in two specific areas.

Yn gyntaf, yn y maes yna sydd yn gweld gwasanaethau gofal yn cael eu hintegreiddio yn unol a pholisi cyhoeddus nawr—integreiddio rhwng y sector gwasanaethau cymdeithasol a'r sector iechyd, felly—a gaf i ofyn i chi, Weinidog, sut ydych chi wedi sicrhau bod y ddeddfwriaeth yma yn addas i reoleiddio ac i arolygu gofal sy'n cael ei ddarparu ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r NHS? Hefyd, o ran y gofal hynny sy'n cael ei ddarparu yn gynyddol mewn cartrefi, sut y byddwch chi yn rhagweld y bydd y broses o arolygu'r gofal hynny yng nghartrefi unigolion yn cael ei wneud yn ddigonol, gyda sail statudol iddo fe? A hefyd, o ran y modelau newydd yna o ofal sydd hefyd yn bodoli, y modelau fel 'extracare', yr hyn nad ŷm ni ei eisiau mewn pum mlynedd o amser yw bod gofal yr unigolyn wedi'i integreiddio yn llawn ac yn gweithio mewn dull integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r NHS, ond bod yna ddwy system arolygu yn bodoli ar yr un gyfundrefn o ofal.

First, in that area in which we see care services being integrated in accordance with public policy—that's integration between the social services sector and the health sector—may I ask you, Minister, how you have ensured that this legislation is appropriate for the regulation and inspection of care provided jointly by social services and the NHS? Also, in terms of the care that is being provided increasingly in homes, how do you envisage the process of inspecting that care in the homes of individuals will be done to an adequate standard, with a statutory basis? And also, with regard to the new models of care that are also emerging, models such as extracare, what we don't want to find in some five years' time is that individual care has been fully integrated and is working in an effective integrated manner between social services and the NHS, but that there are two inspection regimes in operation, both inspecting the same regime of care.

Un maes arall, hefyd, sydd wedi bod yn broblematig o dan y gyfundrefn bresennol o arolygu yw'r ffaith bod unigolion yn ffeindio eu hunain mewn gwahanol sefyllfa o fewn y gyfundrefn gofal, naill ai mewn sefyllfa o ofal preswyl, gofal preswyl EMI, neu ofal preswyl nyrsio. Mae'r gyfundrefn bresennol yn mynnu bod y systemau arolygu yn gwahanu rhwng y gwahanol gategorïau yna, er bod gan yr unigolyn—yr un unigolyn—yr un anghenion gofal unigol. Felly, sut ydych chi'n torri i lawr y rhwystrau yna sydd wedi bodoli o dan y gyfundrefn statudol bresennol a gwneud y gofal yn llawer mwy llyfn i'r unigolyn a'r prosesau hynny?

Another area that has been problematic under the current inspection regime is the fact that individuals find themselves in different settings within the care system, either in residential care, EMI residential care, or nursing residential care. The current regime requires the inspection systems to differentiate between those different categories, although the individual—the single person—maintains the same care needs. So, how do you actually remove those barriers that have existed under the current statutory regime and ensure that the care is far more integrated for the individual and those processes?

Yr ail fater rwyf am ofyn yn ei gylch yw'r ymgais rydych chi wedi ei wneud wrth lunio'r ddeddfwriaeth yma i wahardd rhai o'r amodau gwaith annheg ar ofalwyr iechyd yn benodol, ac rwy'n meddwl fan hyn am gytundebau sero awr, a hefyd y ffaith nad yw gofalwyr yn aml yn cael eu talu am deithio rhwng apwyntiadau, sy'n golygu i bob pwrpas fod rhai gofalwyr yn ein cymdeithas ni yn gweithio am lai na'r isafswm cyflog. Mae dyfarniad y Goruchaf Lys ar Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 wedi cadarnhau y gall y Cynulliad ddeddfu yn y maes yma nawr. Felly, rwyf am ofyn cwestiwn i chi: hyd y gwelaf i, nid oes yna ddim gwaharddiad o'r math yma yn cael ei gyflwyno ar wyneb y Mesur rydych chi wedi ei gyflwyno, ond pa waith a wnaethoch chi wrth ddod i'r casgliad i beidio â chyflwyno hyn yn y Mesur? Pa waith a wnaethoch chi i ystyried defnyddio'r Mesur yma i ddeddfu i wahardd cytundebau sero awr i ofalwyr ac i orfodi talu am amser teithio i ofalwyr hefyd?

The second issue that I want to raise is the efforts that you've made in drawing up this legislation to actually ban some of those unfair working conditions that care workers in particular are working to, and I'm thinking particularly here about zero-hours contracts and the fact that carers very often aren't paid for travel time between appointments, which, to all intents and purposes, means that some carers in our society are working for less than the minimum wage. The Supreme Court judgment on the Agricultural Sector (Wales) Act 2014 has confirmed that the Assembly can legislation in this area now. So, I would like to ask you: as far as I can see, there is no preclusion of this sort put forward on the face of the Bill as tabled, but what work did you undertake in coming to the conclusion that this issue should not be included in the Bill? What work did you actually carry out in order to consider using this Bill to legislate in order to ban zero-hour contracts for carers and to ensure that carers are paid for travel time also?

15:01

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr i Elin Jones. Darllenais i ddrafft o'r memorandwm esboniadol dros y Nadolig ac rwy'n gallu cadarnhau bod yna rywbeth i chi edrych ymlaen ato o ran gwneud hynny.

I thank Elin Jones. I read a draft of the explanatory memorandum over Christmas and I can confirm that you have something to look forward to in that regard.

Turning to the two sets of questions, the first set of questions, I think, was about integration and how regulation is to take account in future of the changing nature of settings of care. As far as integration of inspection is concerned, Members will be aware that this was raised directly by Ruth Marks in her report into Healthcare Inspectorate Wales. I intend to publish a Green Paper during this year. It will discuss the issues that Elin Jones has highlighted, asking questions about whether we need two regulators—one of health and one of social care. Ruth Marks concluded that this was an open debate, but one that we need to have, and we'll use the Green Paper to take forward the issues that Elin Jones identified there.

A throi at y ddwy set o gwestiynau, roedd y set gyntaf o gwestiynau, rwyf yn meddwl, yn ymwneud ag integreiddio a sut y bydd rheoleiddio'n rhoi ystyriaeth i natur newidiol lleoliadau gofal yn y dyfodol. O ran integreiddio arolygu, bydd yr Aelodau'n gwybod bod Ruth Marks wedi codi hyn yn uniongyrchol yn ei hadroddiad ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyrdd yn ystod eleni. Bydd yn trafod y materion y mae Elin Jones wedi tynnu sylw atynt, gan ofyn cwestiynau ynglŷn â'r angen am ddau reoleiddiwr—un i iechyd ac un i ofal cymdeithasol. Casgliad Ruth Marks oedd bod hon yn drafodaeth agored, ond yn un y mae angen inni ei chael, a byddwn yn defnyddio'r Papur Gwyrdd i fwrw ymlaen â'r materion a nododd Elin Jones yn y fan yna.

One of the benefits of the Bill is that is allows us flexibility in adding new services to come within the regulatory ambit that it sets out. I have already said to the regulator that I will look for early advice on extra care as a possible addition to the scope of the Bill, and we'll wait to see what comes back from that. The Bill will abolish some of the distinctions between settings that Elin referred to. The categories will go, because the focus will be on the provider, rather than just the difference of dimensions of the service that they provide.

Un o fanteision y Bil yw ei fod yn caniatáu hyblygrwydd inni i ychwanegu gwasanaethau newydd o fewn y cwmpas rheoleiddio y mae'n ei amlinellu. Rwyf eisoes wedi dweud wrth y rheoleiddiwr y byddaf yn chwilio am gyngor cynnar am ofal ychwanegol fel ychwanegiad posibl i gwmpas y Bil, a chawn weld beth ddaw yn ôl o hynny. Bydd y Bil yn diddymu rhai o'r gwahaniaethau rhwng lleoliadau y cyfeiriodd Elin atynt. Bydd y categorïau'n mynd, oherwydd bydd y pwyslais ar y darparwr, yn hytrach na dim ond ar y gwahaniaeth rhwng dimensiynau'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Turning to the second set of questions, this is not a Bill about terms and conditions of employment, but the Member raised important issues, both in relation to zero hours and of payment in the sector. Leighton Andrews, as the Minister for Public Services, has commissioned research into the impact and the use of zero-hours contracts across the public services. That project will cover the social care sector, and we will consider the evidence that comes from that in thinking of how we will move forward.

A throi at yr ail gyfres o gwestiynau, nid yw'r Bil hwn yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth, ond cododd yr Aelod faterion pwysig, ynglŷn â chontractau dim oriau a thâl yn y sector. Mae Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi comisiynu ymchwil i effaith contractau dim oriau, a defnydd ohonynt, ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y prosiect hwnnw'n cynnwys y sector gofal cymdeithasol, a byddwn yn ystyried y dystiolaeth a ddaw o hynny wrth feddwl am sut i symud ymlaen.

The Bill will allow the Welsh Government to establish, through regulations under section 28 of the Bill, clear standards for providers, and those standards, I believe, can include the way that staff are employed. So, I hope you'll have an opportunity to explore that idea further as the Bill is scrutinised during its Assembly passage. That will also give us a chance to look at issues of minimum wage payment. I am absolutely clear that we must have a system that does not allow employers to avoid their statutory responsibilities to pay people the minimum wage, and that regulation and inspection have a role to play in making sure that that does not happen.

Bydd y Bil yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu, drwy reoliadau o dan adran 28 y Bil, safonau clir ar gyfer darparwyr, a gall y safonau hynny, yn fy marn i, gynnwys y ffordd y caiff staff eu cyflogi. Felly, rwyf yn gobeithio y cewch gyfle i ystyried y syniad hwnnw ymhellach pan fydd y Bil yn destun craffu yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad. Bydd hynny hefyd yn rhoi cyfle inni i edrych ar faterion yn ymwneud â thalu isafswm cyflog. Rwyf yn gwbl glir fod yn rhaid inni gael system nad yw'n caniatáu i gyflogwyr osgoi eu cyfrifoldebau statudol i dalu'r isafswm cyflog i bobl, a bod gan reoleiddio ac arolygu ran i'w chwarae i sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

15:05

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Weinidog, am eich datganiad; rwy'n ei groesawu'n fawr iawn.

Thank you, Minister, for your statement; I welcome it very much.

I'm particularly glad to hear you say that the Bill will lead to greater involvement of users, and that regulators will have to report annually on how they involve citizens. Do you agree with me, therefore, Minister, that the involvement of lay inspectors, which is already happening, must be ensured under the provisions of this Bill?

Rwyf yn arbennig o falch o'ch clywed yn dweud y bydd y Bil yn arwain at roi mwy o ran i'r defnyddwyr, ac y bydd yn rhaid i reoleiddwyr adrodd yn flynyddol am sut y maent yn cynnwys dinasyddion. A ydych yn cytuno â mi, felly, Weinidog, fod yn rhaid i ddarpariaethau'r Bil hwn sicrhau rhan i arolygwyr lleyg, sydd eisoes yn digwydd?

15:05

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr i Gwenda Thomas am y cwestiwn yna.

I thank Gwenda Thomas for that question.

Dirprwy Lywydd dros dro, I said in my statement that this is a companion Act to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 that Gwenda steered onto the statute book, and, indeed, it was her decision earlier in that process to sever this particular set of issues and bring them forward as a separate piece of legislation. We certainly wouldn't be where we are today without the outstanding work that she carried out.

Ddirprwy Lywydd dros dro, dywedais yn fy natganiad fod hon yn Ddeddf gymar i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a lywiwyd gan Gwenda i'r llyfr statud, ac, yn wir, ei phenderfyniad hi yn gynharach yn y broses honno oedd gwahanu'r gyfres benodol hon o faterion a'u cyflwyno fel darn arall o ddeddfwriaeth. Yn sicr, ni fyddem yn y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw heb y gwaith rhagorol a wnaed ganddi.

The additional involvement of users and their families in the whole business of inspection, I think, is one of the distinguishing features of the Bill. We know that where things go wrong in institutional care of any sort, it's often because those people who live within those worlds and work within those worlds have stopped noticing things that someone coming in from outside would immediately want to ask questions about. So, opening the door of residential care homes and involving lay people in inspecting them and forming judgments about the quality of care there is fundamental to the Bill. As I said in my initial statement, we will place a duty on the regulator to report annually on the extent to which they have been able to involve citizens in the work that they do.

Mae gwneud mwy i gynnwys defnyddwyr a'u teuluoedd yn yr holl broses arolygu, yn fy marn i, yn un o nodweddion nodedig y Bil. Rydym yn gwybod, pan aiff pethau o chwith mewn gofal sefydliadol o unrhyw fath, fod hynny'n aml oherwydd bod y bobl sy'n byw yn y bydoedd hynny ac yn gweithio yn y bydoedd hynny wedi rhoi'r gorau i sylwi ar bethau y byddai rhywun sy'n dod i mewn o'r tu allan yn gofyn cwestiynau amdanynt ar unwaith. Felly, mae agor drysau cartrefi gofal preswyl a chynnwys pobl leyg i'w harolygu a llunio barn am ansawdd y gofal yno'n hanfodol i'r Bil. Fel y dywedais yn fy natganiad cychwynnol, byddwn yn rhoi dyletswydd ar y rheoleiddiwr i nodi'n flynyddol i ba raddau y maent wedi gallu cynnwys dinasyddion yn y gwaith a wnânt.

15:07

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams.

The Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.

15:07 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Can I thank the Minister for his statement this afternoon? Before raising the issues, could I pay tribute to the work of Gwenda Thomas, who, as Deputy Minister, was responsible for recognising the need to update legislation in this area and for carrying out a great deal of the consultation and the background work that has led to the publication of this Bill here today?

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Cyn codi'r materion, a gaf fi dalu teyrnged i waith Gwenda Thomas, a oedd, fel Dirprwy Weinidog, yn gyfrifol am gydnabod bod angen diweddaru'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn ac am gynnal llawer iawn o'r ymgynghori a'r gwaith cefndirol sydd wedi arwain at gyhoeddi'r Bil hwn yma heddiw?

I agree with the Government that it is right to update legislation in this area. Indeed, it's right to bring together disparate parts of legislation relating to inspection and regulation into a consolidated Bill. I think it's right that we try to set regulation and inspection in the context of what is an ever-changing nature of service provision. We see developments of new services and new models of service delivery all of the time, and the nature of who we're delivering that service to has also changed dramatically in recent years. For instance, the frailty and dependency of many people who are now living in care homes and nursing homes is far in excess of what we would have seen even five years ago, and we need to ensure that the regulation and inspection regime keeps abreast of those demographic and service changes.

Rwyf yn cytuno â'r Llywodraeth ei bod yn briodol diweddaru'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Yn wir, mae'n briodol dwyn ynghyd wahanol rannau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag arolygu a rheoleiddio mewn Bil cyfunol. Credaf ei bod yn briodol ceisio gosod rheoleiddio ac arolygu yng nghyd-destun darpariaeth gwasanaethau sy'n newid o hyd. Rydym yn gweld gwasanaethau newydd a modelau newydd o ddarparu gwasanaethau'n datblygu drwy'r amser, ac mae natur y bobl yr ydym yn darparu'r gwasanaeth hwnnw ar eu cyfer hefyd wedi newid yn fawr iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae eiddilwch a dibyniaeth llawer o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio heddiw'n fwy o lawer na'r hyn y byddem wedi ei weld hyd yn oed bum mlynedd yn ôl, ac mae angen inni sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio ac arolygu'n gwbl ymwybodol o'r newidiadau hynny i'r ddemograffeg a'r gwasanaethau.

As a group, we will look forward to scrutinising the Bill as it makes its journey through the Assembly, but I do, acting Presiding Officer, have a number of questions I'd like to raise. The Minister placed a great deal of emphasis on this legislation and regulation and inspection not being a stick with which to beat people, but actually as a mechanism for trying to drive improvement and change and better service delivery within the industry. I wonder whether he would expand on how he believes that the Bill will deliver on that aspiration.

Fel grŵp, byddwn yn edrych ymlaen at graffu ar y Bil ar ei daith drwy'r Cynulliad, ond mae gennyf, Lywydd dros dro, nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn. Pwysleisiodd y Gweinidog yn gryf iawn nad yw'r ddeddfwriaeth a'r rheoleiddio a'r arolygu hyn yn ffon i guro pobl â hi, ond yn hytrach yn ffordd o geisio ysgogi gwelliant a newid a darparu gwasanaethau gwell o fewn y diwydiant. Tybed a wnaiff ymhelaethu ynglŷn â'r ffordd y mae'n credu y bydd y Bil yn cyflawni'r dyhead hwnnw.

Minister, do you agree with me that, in the past, perhaps a great deal of emphasis—too much emphasis—has been placed on those individuals who are providing care on a day-to-day basis, and has failed to take into account how their ability to provide care has impacted on decisions over which they have no say. And yet, they have been left responsible, in law, for the care they provide, when they have had no ability to influence, for instance, the financial circumstances in which they are working. Therefore, do you agree with me that this Bill actually puts the emphasis where it should be: on those at a board level, those who are making the most money out of providing care services, rather than those who are delivering it on a day-to-day basis, many of whom will be working for the minimum wage? That is the right place to put the legal responsibility.

Weinidog, a ydych yn cytuno â mi efallai fod llawer iawn o bwyslais—gormod o bwyslais—wedi ei roi yn y gorffennol ar yr unigolion hynny sy'n darparu gofal o ddydd i ddydd, a'n bod wedi methu ag ystyried y modd y mae eu gallu i ddarparu gofal wedi effeithio ar benderfyniadau nad oes ganddynt ddim llais yn eu cylch. Ac eto, maent wedi cael eu gwneud yn gyfrifol, yn ôl y gyfraith, am y gofal y maent yn ei ddarparu, a hwythau heb ddim gallu i ddylanwadu, er enghraifft, ar yr amgylchiadau ariannol y maent yn gweithio ynddynt. Felly, a gytunwch â mi fod y Bil hwn yn rhoi'r pwyslais lle y dylai fod mewn gwirionedd: ar bobl ar lefel y bwrdd, y bobl sy'n gwneud yr arian mwyaf o ddarparu gwasanaethau gofal, yn hytrach na'r bobl sy'n darparu'r gofal hwnnw o ddydd i ddydd, a llawer ohonynt yn gweithio am yr isafswm cyflog? Dyna'r lle iawn i roi'r cyfrifoldeb cyfreithiol.

With regard to your proposals for a rating, I think at present it can be highly confusing for individuals who are looking for a placement, often at a time of crisis within the family, often under pressure from hospital staff who are keen to see that relative out of a hospital bed and into a care setting. It can be very difficult for families to be able to wade through annual reports and inspection reports that may be available, and, actually, a rating system would be a powerful tool for families and individuals to be able to understand the quality of care within a particular service, and, if you don’t believe it’s the right time to introduce this now—you said you want to make sure you can get it right—what will you need to achieve, and what will you need to see change before you would feel confident in introducing the regulations to bring in that system?

O ran eich cynigion ar gyfer graddio, credaf ar hyn o bryd y gall fod yn ddryslyd iawn i unigolion sy'n chwilio am leoliad, yn aml ar adeg o argyfwng yn y teulu, yn aml o dan bwysau gan staff ysbyty sy'n awyddus i weld y perthynas hwnnw’n gadael gwely ysbyty ac yn mynd i leoliad gofal. Gall fod yn anodd iawn i deuluoedd geisio darllen drwy adroddiadau blynyddol ac adroddiadau arolygu a all fod ar gael, ac, mewn gwirionedd, byddai system raddio’n offeryn pwerus i alluogi teuluoedd ac unigolion i ddeall ansawdd y gofal mewn gwasanaeth penodol, ac os nad ydych yn credu mai nawr yw’r amser iawn i gyflwyno hyn—dywedasoch eich bod eisiau gwneud yn siŵr y gallwch ei wneud yn iawn—beth fyddai angen ichi ei gyflawni, a beth fyddai angen ichi ei weld yn newid cyn ichi deimlo'n hyderus i gyflwyno’r rheoliadau i roi’r system honno ar waith?

You also talked about the importance of national market stability reports in highlighting where there could be financial instability that could lead to market failure or, indeed, a provider crashing and not being in a position to provide care. In the past, the focus has very much been on residential care homes being in that position, but does it apply also to domiciliary care agencies that could be in financial difficulties and therefore exposing their clients to a potential failure in the market? What happens if the national market stability report says that things are poor; what are the mechanisms that then follow as a result of that reporting mechanism?

Soniasoch hefyd am bwysigrwydd adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol o ran tynnu sylw at ansefydlogrwydd ariannol posibl a allai arwain at fethiant y farchnad neu, yn wir, at ddarparwr yn mynd yn fethdalwr ac yn methu â darparu gofal. Yn y gorffennol, mae'r pwyslais yn bendant wedi bod ar gartrefi gofal preswyl a oedd yn y sefyllfa honno, ond a yw’n berthnasol hefyd i asiantaethau gofal cartref a allai fod mewn trafferthion ariannol, ac felly’n rhoi eu cleientiaid mewn perygl oherwydd methiant posibl yn y farchnad? Beth fyddai’n digwydd pe bai’r adroddiad am sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn dweud bod pethau'n wael; beth yw'r mecanweithiau sy’n dilyn yn sgil y mecanwaith adrodd?

I note your answer to Elin Jones regarding zero-hour contracts and this Bill not being a Bill on terms and conditions, but would you not agree with me that, if this Bill is to be about the impact on a citizen, then the terms and conditions under which the workforce is working are absolutely crucial? We do know that, sometimes, care can be a revolving-door industry, with people coming into the service for very short periods of time and leaving again because of poor working conditions, poor pay and zero-hour contracts, the result of which is a significant impact on the wellbeing of those receiving that service. I think to my own constituent, who cares for his wife with Alzheimer’s and does an amazing job in doing that. He has had in excess of 20 individuals coming through his front door since December, paying domiciliary care calls. Now, if that isn’t an impact on the service user and her carer, then I don’t know what is. I would strongly urge the Minister to do what he can with regard to the standards and regulations that he referred to, to look to build some stability into these issues. Will those standards also look at how subcontractors are treated? Again, I know from bitter personal experience in my own constituency of how subcontractors employed by the main winner of a bid by Powys County Council have found themselves in a position where Powys County Council has paid the main contractor, but the subcontractor tells me that they have not been paid for care that has been carried out and have therefore had to withdraw from that arrangement—again, further churn for the people who are receiving care.

Nodaf eich ateb i Elin Jones ynghylch contractau dim oriau ac nad yw’r Bil hwn yn Fil ar delerau ac amodau, ond oni fyddech yn cytuno â mi, os yw’r Bil hwn am ymwneud â’r effaith ar y dinesydd, fod y telerau a'r amodau y mae'r gweithlu’n gweithio oddi tanynt yn gwbl allweddol? Rydym yn gwybod, weithiau, y gall gofal fod yn ddiwydiant drws troi, a phobl yn dod i mewn i'r gwasanaeth am gyfnodau byr iawn ac yn gadael eto oherwydd amodau gweithio gwael, cyflog gwael a chontractau dim oriau, sy’n cael effaith sylweddol ar les y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth hwnnw. Rwyf yn meddwl am un o’m hetholwyr i, sy'n gofalu am ei wraig sydd â chlefyd Alzheimer ac yn gwneud gwaith anhygoel. Mae dros 20 o bobl wedi dod drwy ei ddrws ffrynt ers mis Rhagfyr, yn gwneud galwadau gofal cartref. Yn awr, os nad yw hynny'n cael effaith ar ddefnyddiwr y gwasanaeth a'i gofalwr, nid wyf yn gwybod beth sydd. Byddwn yn annog y Gweinidog yn gryf i wneud popeth a all o ran y safonau a'r rheoliadau y cyfeiriodd atynt i geisio sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd yn y materion hyn. A fydd y safonau hynny hefyd yn edrych ar y ffordd y caiff isgontractwyr eu trin? Unwaith eto, gwn o brofiad personol chwerw yn fy etholaeth fy hun fod isgontractwyr a gyflogwyd gan brif enillydd cais gan Gyngor Sir Powys wedi eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle y mae Cyngor Sir Powys wedi talu’r prif gontractwr, ond mae'r is-gontractwr yn dweud wrthyf nad yw wedi cael ei dalu am ofal sydd wedi'i roi a’i fod felly wedi gorfod tynnu'n ôl o'r trefniant hwnnw—unwaith eto, mwy o newid i’r bobl sy'n derbyn gofal.

Also, would you care to comment on 15-minute care calls? As you all know, I have grave concerns about the impact of 15-minute care calls. During the passage of the social care Bill, your Government resisted amendments to minimise the use of 15-minute care calls. Again, I think if this Bill is about the impact on individuals, then, with a 15-minute care call, where the carer has the choice between feeding or preparing a meal for someone, or toileting them, or getting them dressed, it's very difficult to do that with dignity and to leave the individual feeling cared for and respected if that carer has only 15 minutes to do so. I do note, Minister, the feelings of Andy Burnham on this issue. Andy Burnham tells us that 15-minute care calls are simply not acceptable and he says that he will legislate against them, should he be in a position to do so after May. Well, Minister, you're already in that position to do so: to legislate here and now. Will you use the opportunity of this Bill to do just that?

Hefyd, a fyddech cystal â gwneud sylwadau am alwadau gofal 15 munud? Fel yr ydych i gyd yn gwybod, mae gennyf bryderon difrifol am effaith galwadau gofal 15 munud. Yn ystod hynt y Bil gofal cymdeithasol, gwrthwynebodd eich Llywodraeth welliannau i ddefnyddio llai o alwadau gofal 15 munud. Unwaith eto, yn fy marn i, os yw'r effaith ar unigolion yn bwysig i'r Bil hwn, mae galwad gofal 15-munud, lle mae gofalwr yn gorfod dewis rhwng bwydo rhywun neu baratoi pryd o fwyd iddo, neu ei helpu i ddefnyddio'r toiled, neu wisgo, yn ei gwneud yn anodd iawn gwneud hynny gydag urddas a sicrhau bod yr unigolyn yn teimlo ei fod wedi derbyn gofal a pharch os mai dim ond 15 munud sydd gan ofalwr i wneud hynny. Nodaf, Weinidog, deimladau Andy Burnham am y mater hwn. Mae Andy Burnham yn dweud wrthym nad yw galwadau gofal 15 munud yn dderbyniol ac mae'n dweud y bydd yn deddfu yn eu herbyn, os bydd mewn sefyllfa i wneud hynny ar ôl mis Mai. Wel, Weinidog, rydych chi eisoes mewn sefyllfa i wneud hynny: i ddeddfu yma yn awr. A wnewch chi ddefnyddio'r cyfle a ddaw yn sgil y Bil hwn i wneud hynny?

15:15 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr i Kirsty Williams am y cwestiynau.

I thank Kirsty Williams for those questions.

Of course, I completely associate myself with what she said at the very beginning about Gwenda Thomas's role. I've already been able to meet all the party spokespeople of the parties here in the Assembly about this Bill. I tried to say to them then that my approach to this Bill, as it goes through the Assembly's procedures, will, I hope, be exactly the approach that Gwenda took in relation to the 2014 Bill, in wanting to work closely with all those who, I know, have an interest in making the Bill the best it possibly can be.

Wrth gwrs, rwyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd ar y dechrau am waith Gwenda Thomas. Rwyf eisoes wedi cwrdd â holl lefarwyr y pleidiau yma yn y Cynulliad ynglŷn â'r Bil hwn. Ceisiais ddweud wrthynt y bydd fy ymagwedd at y Bil hwn, wrth iddo fynd drwy weithdrefnau'r Cynulliad, rwyf yn gobeithio, yn union yr un fath ag ymagwedd Gwenda at Fil 2014, sef awydd i weithio'n agos gyda phawb sydd, rwyf yn gwybod, am wneud y Bil cystal ag y gall fod.

To turn to Kirsty's specific questions, I don't want the Bill to be portrayed as a stick to beat poor providers. I do want it to have powers to deal with poor providers quickly and effectively, but I want it to reflect what we know about the sector as a whole. CSSIW carried out 1,600 inspections of settings with older people last year; 14% of those required some action in relation to matters that inspectors found that required action. Only 28 of the 1,600 were formally identified as a service of concern and only five of those, in the end, were not capable of being brought to the right side of the line. So, we know that. With the effort of all those who have an interest in it—the local authority, often, the local health board, and now the regulator as well—being positioned as part of the effort for improvement, I think, is an important extra dimension to what we will require of the regulator. It will help us to do what we want to do in Wales, which is to turn care that is below the line into care that is above the line, to turn adequate care into good care and to turn good care into excellent care.

A throi at gwestiynau penodol Kirsty, nid wyf am i'r Bil gael ei bortreadu fel ffon i guro darparwyr gwael â hi. Rwyf am iddo fod â phwerau i ymdrin â darparwyr gwael yn gyflym ac yn effeithiol, ond rwyf am iddo adlewyrchu'r hyn a wyddom am y sector yn ei gyfanrwydd. Cynhaliodd AGGCC 1,600 o arolygiadau o leoliadau i bobl hŷn y llynedd; roedd angen i 14% o'r rheini gymryd rhai camau ynglŷn â materion lle canfu'r arolygwyr fod angen gweithredu. Dim ond 28 o'r 1,600 y nodwyd yn ffurfiol eu bod yn wasanaethau sy'n peri pryder a dim ond pump o'r rheini, yn y pen draw, nad oedd modd dod â hwy i'r ochr iawn i'r llinell. Felly, rydym yn gwybod hynny. Gydag ymdrechion pawb sydd â diddordeb yn hyn—yr awdurdod lleol, yn aml, y bwrdd iechyd lleol, ac yn awr y rheoleiddiwr hefyd—yn rhan o'r ymdrech i wella, credaf fod hynny'n ddimensiwn arall pwysig i'r hyn y byddwn yn gofyn amdano gan y rheoleiddiwr. Bydd yn ein helpu i wneud yr hyn yr ydym am ei wneud yng Nghymru, sef troi gofal sydd islaw'r llinell yn ofal sydd uwchben y llinell, troi gofal digonol yn ofal da a throi gofal da yn ofal ardderchog.

I very much agree with what Kirsty Williams said about the Bill's actions in correcting an imbalance that has grown up between responsibilities put on the shoulders of people at the front line, particularly the registered manager on the spot, and those people who make decisions that allow that person either to do the job as we would like to see, or prevents them from doing so. It's a shared-responsibility model; it doesn't absolve people at the front line from their responsibilities, but it doesn't leave them solely relying on what they do, either.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams ynglŷn â chamau gweithredu'r Bil i unioni anghydbwysedd sydd wedi tyfu rhwng rhoi cyfrifoldebau ar ysgwyddau pobl ar y rheng flaen, yn enwedig y rheolwyr cofrestredig yn y fan a'r lle, a'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau sy'n caniatáu i'r unigolyn hwnnw naill ai wneud y gwaith fel yr hoffem ei weld, neu'n ei rwystro rhag gwneud hynny. Mae'n fodel o rannu cyfrifoldeb; nid yw'n golygu nad oes gan bobl ar y rheng flaen gyfrifoldebau, ond nid yw'n golygu eu bod yn dibynnu'n llwyr ar yr hyn y maent yn ei wneud, ychwaith.

I think Kirsty Williams was absolutely right when she pointed to the circumstances in which families and individuals are often looking for care of vulnerable older people. It's a decision you might make once, at the most twice, in your lives. It is not, for example, like choosing a school, or thinking about a school where you will know lots of other people who are in the same position as you are and can share ideas with you and experiences that can help you to make your decisions. You make it on your own and, often, not feeling that you know everything you need to know. So, the rating system is designed to be helpful to people in those circumstances. What do we need to make sure that that rating system will be effective? Well, we will need some extra training; I'm quite sure that is true. Inspectors will be operating in this new context. I would want to be confident that a rating applied to a care home in Cardiff would be the same to a care home of the same standard in any other part of Wales. Until we've got everything in line to make sure that the system would be reliable, and give the sort of signals we want it to give, I wouldn't be keen to introduce it, but I think we can definitely get there. The national market stability report will cover domiciliary care agencies.

Credaf fod Kirsty Williams yn llygad ei lle pan dynnodd sylw at amgylchiadau llawer o deuluoedd ac unigolion sy'n chwilio am ofal i bobl hŷn sy'n agored i niwed. Mae'n benderfyniad y gallech ei wneud unwaith, neu ddwywaith ar y mwyaf, yn eich bywydau. Nid yw, er enghraifft, fel dewis ysgol, neu feddwl am ysgol lle y byddwch yn adnabod llawer o bobl eraill sydd yn yr un sefyllfa â chi ac yn gallu rhannu syniadau â chi a phrofiadau a all eich helpu i wneud eich penderfyniadau. Rydych yn gwneud hyn ar eich pen eich hun ac, yn aml, nid ydych yn teimlo eich bod yn gwybod popeth y mae angen ichi ei wybod. Felly, mae'r system raddio wedi'i chynllunio i fod o gymorth i bobl yn yr amgylchiadau hynny. Beth sydd ei angen arnom i wneud yn siŵr y bydd y system raddio'n effeithiol? Wel, bydd angen rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol arnom; rwyf yn eithaf siŵr bod hynny'n wir. Bydd arolygwyr yn gweithredu yn y cyd-destun newydd hwn. Byddwn am fod yn hyderus y byddai sgôr a roddid i gartref gofal yng Nghaerdydd yr un fath i gartref gofal o'r un safon mewn unrhyw ran arall o Gymru. Hyd nes y bydd popeth yn barod gennym i wneud yn siŵr bod y system yn ddibynadwy, ac yn rhoi'r math o arwyddion yr ydym am iddi eu rhoi, ni fyddwn yn awyddus i'w chyflwyno, ond rwyf yn meddwl y gallwn yn bendant gyrraedd yno. Bydd yr adroddiad am sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn cwmpasu asiantaethau gofal cartref.

Finally, the whole issue of terms and conditions. Kirsty Williams is clearly correct that terms and conditions do have an impact on the quality of care provided. What we want to do in Wales is to work with providers to get them to see that good providers invest in their staff, provide training, don't think that driving down wages and terms and conditions to the bare bone is the way to do things. Successful employers in Wales, of which we have many, don't do that. You can see it in a very simple test. You see it in turnover of staff within the sector. Those people who pay the least and do nothing for their staff, people leave them the minute they can. People who invest in staff—and there are companies that do that and there are local authorities that do that—and who provide training and better terms and conditions, their staff stay with them. We will require providers to publish an annual report. I'm very attracted to the idea that one of the things they would have to report on is turnover figures. So, if you're looking for a home, you will see whether that is an employer who manages to hang on to people, that people are willing to go on working for them, building up their expertise and their ability to provide care, or whether that is a provider who staff leave the minute they are able to do so.

Yn olaf, holl fater telerau ac amodau. Mae Kirsty Williams wrth gwrs yn iawn fod telerau ac amodau'n effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir. Yr hyn yr hoffem ei wneud yng Nghymru yw gweithio gyda darparwyr i'w helpu i weld bod darparwyr da'n buddsoddi yn eu staff, yn darparu hyfforddiant, ac nad ydynt yn meddwl mai cynnig y cyflogau a'r telerau a'r amodau isaf posibl yw'r ffordd o wneud pethau. Nid yw cyflogwyr llwyddiannus yng Nghymru, ac mae gennym lawer ohonynt, yn gwneud hynny. Gallwch weld hynny mewn prawf syml iawn. Rydych yn ei weld yn nhrosiant staff o fewn y sector. Mae staff y bobl hynny sy'n talu leiaf ac sy'n gwneud dim dros eu staff yn eu gadael cyn gynted ag y gallant. Mae staff pobl sy'n buddsoddi mewn staff—ac mae rhai cwmnïau'n gwneud hynny, ac mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud hynny—ac sy'n darparu hyfforddiant a gwell telerau ac amodau yn aros gyda hwy. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi adroddiad blynyddol. Un syniad sy'n ddeniadol iawn imi yw mai un o'r pethau y byddai'n rhaid iddynt adrodd amdano yw ffigurau trosiant. Felly, os ydych yn chwilio am gartref, byddwch yn gweld a yw hwn yn gyflogwr sy'n llwyddo i ddal gafael ar bobl, un y mae pobl yn barod i barhau i weithio iddo, gan wella eu harbenigedd a'u gallu i ddarparu gofal, ynteu a yw'n ddarparwr y mae staff yn ei adael cyn gynted ag y gallant wneud hynny.

We will debate the whole issue of 15-minute care calls during the passage of the Bill, I'm sure. I absolutely want us to avoid unrealistic timeslots that can only result in the diminishing of care. The sort of choices that Kirsty Williams outlined will be absolutely unacceptable in 15 minutes. There are some other calls that care providers make that they, and sometimes their users, tell us can be discharged within 15 minutes. We'll need to talk that through as the Bill proceeds.

Byddwn yn trafod materion ynghylch galwadau gofal 15 munud yn ystod hynt y Bil, rwyf yn siŵr. Yn bendant, hoffwn inni osgoi slotiau amser afrealistig na allant ond arwain at grebachu gofal. Bydd y math o ddewisiadau a amlinellodd Kirsty Williams yn hollol annerbyniol mewn 15 munud. Mae rhai galwadau eraill y mae darparwyr gofal yn eu gwneud y maent hwy, ac weithiau eu defnyddwyr, yn dweud wrthym y gellir eu cyflawni o fewn 15 munud. Bydd angen inni siarad am hynny wrth i'r Bil fynd rhagddo.

15:21

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog.

Thank you, Minister.

15:21

# 4. Datganiad: Treth ar Waredu i Safleoedd Tirlenwi

# 4. Statement: Landfill Disposals Tax

Senedd.tv
Fideo Video

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Statement by the Minister for Finance and Government Business on a landfill disposals tax: I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

15:22

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr. Today, I'm launching a consultation on a landfill disposals tax, which will replace UK landfill tax in Wales from April 2018. It is part of the package of new fiscal powers for Wales provided in the Wales Act 2014, and is another lever with which to support our growing economy, our public services and ambitious waste policies.

Diolch yn fawr. Heddiw, rwy'n lansio ymgynghoriad ar dreth waredu tirlenwi, a fydd yn disodli treth tirlenwi'r DU yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Mae'n rhan o'r pecyn o bwerau cyllidol newydd i Gymru a ddarparwyd yn Neddf Cymru 2014, ac mae'n ysgogiad arall i gefnogi ein heconomi sy'n tyfu, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n polisïau gwastraff uchelgeisiol.

This consultation is the third that I've published to inform the design of our new tax system for Wales. It builds on what we have learned to date—from the responses to my White Paper on the collection and management of devolved taxes, but also from wider stakeholder engagement including the discussions of the technical experts group.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r trydydd yr wyf wedi ei gyhoeddi i lywio cynllun ein system dreth newydd i Gymru. Mae'n adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn—o'r ymatebion i fy Mhapur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi datganoledig, ond hefyd wrth ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid gan gynnwys trafodaethau'r grŵp arbenigwyr technegol.

The existing landfill tax is a significant driver of environmental behaviour, encouraging greater prevention, re-use, recycling and recovery of waste. It sits alongside the Welsh Government's 'Towards Zero Waste' strategy, which promotes an approach to dealing with waste in Wales, which will provide benefits for the environment, economy and communities. We are now well ahead of the rest of the UK in terms of municipal waste recycling and are the equivalent of fourth in the European league table of nations.

Mae'r dreth dirlenwi bresennol yn ffactor arwyddocaol ar gyfer llywio ymddygiad amgylcheddol, gan annog mwy o atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff. Mae'n bodoli ochr yn ochr â strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo dull o ymdrin â gwastraff yng Nghymru, a fydd yn darparu buddion i'r amgylchedd, yr economi a chymunedau. Rydym bellach ymhell ar y blaen i weddill y DU o ran ailgylchu gwastraff trefol ac yn cyfateb i bedwerydd yn nhabl cynghrair cenhedloedd Ewrop.

As a result of our efforts to divert waste from landfill, receipts from taxing landfill disposals are expected to decline over time. Despite this, there are compelling financial and policy reasons for introducing a replacement tax.

O ganlyniad i'n hymdrechion i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, disgwylir i'r arian a dderbynnir trwy drethu gwarediadau tirlenwi leihau dros gyfnod o amser. Er hyn, mae rhesymau ariannol a pholisi cryf dros gyflwyno treth newydd.

The Wales Bill command paper confirmed the UK Government's intention that the process of devolving landfill tax will result in the Welsh Government's block grant being reduced. I expect the adjustment in subsequent years to take account of expected trends in revenue. HMRC forecasts that landfill tax revenues in Wales are currently around £50 million. If the Welsh Government chose not to implement a replacement landfill tax in Wales, it would either need to operate with a reduced budget or find alternative ways of raising such revenues to maintain existing resource levels.

Cadarnhaodd papur gorchymyn Bil Cymru fwriad Llywodraeth y DU y bydd y broses o ddatganoli'r dreth dirlenwi yn arwain at leihau grant bloc Llywodraeth Cymru. Rwy'n disgwyl i'r addasiad yn y blynyddoedd dilynol ystyried tueddiadau disgwyliedig mewn refeniw. Mae Cyllid a Thollau EM yn rhagweld bod refeniw'r dreth dirlenwi yng Nghymru ar hyn o bryd tua £50 miliwn. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â gweithredu treth dirlenwi newydd yng Nghymru, byddai naill ai angen iddi weithredu â llai o gyllideb neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi refeniw o'r fath i gynnal lefelau adnoddau presennol.

Not replacing landfill tax in Wales would also have impacts for the waste management system in Wales and the Welsh Government's wider aims with regard to sustainable development and the wellbeing of future generations, climate change and the environment. There would also be social and environmental impacts for our communities.

Byddai peidio â disodli'r dreth dirlenwi yng Nghymru hefyd yn effeithio ar y system rheoli gwastraff yng Nghymru ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy a lles cenedlaethau'r dyfodol, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd. Byddai hefyd yn cael effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer ein cymunedau.

It is therefore this Government's intention to introduce a landfill disposals tax. The initial development work for this new tax has been guided by my four tax principles: I am seeking to design taxes that are fair to the businesses and individuals who pay them; that are simple, with clear rules, which minimise compliance and administration costs; that provide certainty for taxpayers; and that support growth and jobs, in turn helping to tackle poverty.

Felly, bwriad y Llywodraeth hon yw cyflwyno treth ar waredu i safleoedd tirlenwi. Mae fy mhedair egwyddor o ran treth wedi llywio'r gwaith datblygu cychwynnol ar gyfer y dreth newydd: rwy'n ceisio cynllunio trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu; sy'n syml, â rheolau clir, sy'n lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu; sy'n darparu sicrwydd i drethdalwyr; ac sy'n cefnogi twf a swyddi, yn eu tro yn helpu i fynd i'r afael â thlodi.

In determining our tax rates, I am keen that we ensure stability and certainty for our businesses so that they may have confidence in their business plans and investments. I am also mindful of the potential for so-called 'waste tourism'. Twenty-six out of 28 landfill sites in Wales are within 50 miles of the border with England and there are more than 100 sites within 50 miles of the border on the English side. We must not unfairly disadvantage businesses operating in Wales or our communities.

Wrth benderfynu ar ein cyfraddau treth, rwy'n awyddus ein bod yn sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd ar gyfer ein busnesau fel y gallant fod yn hyderus yn eu cynlluniau busnes a'u buddsoddiadau. Rwy'n ymwybodol o'r potensial hefyd ar gyfer yr hyn a elwir yn 'dwristiaeth wastraff'. Mae 26 o'r 28 o safleoedd tirlenwi yng Nghymru o fewn 50 milltir i'r ffin â Lloegr ac mae mwy na 100 o safleoedd o fewn 50 milltir i'r ffin ar ochr Lloegr. Rhaid inni beidio â rhoi busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru na'n cymunedau dan anfantais annheg.

However, I believe that there is an opportunity to make improvements to the existing landfill tax, which will have more benefits for people and communities in Wales. I want to look at how we can best address the harmful impacts of waste crime on our communities and the environment. I want to find ways to realign the balance of risk so that the consequences of being caught outweigh the profit to be made.

Fodd bynnag, credaf fod cyfle i wneud gwelliannau i'r dreth dirlenwi bresennol, gan roi mwy o fuddion i bobl a chymunedau yng Nghymru. Rwyf am ystyried beth yw'r ffordd orau inni fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol troseddau gwastraff ar ein cymunedau a'r amgylchedd. Rwyf am ddod o hyd i ffyrdd i aildrefnu'r cydbwysedd risg fel bod canlyniadau cael eich dal yn fwy na'r elw y gallech ei wneud.

One of the options that I'm consulting on is the possibility of including illegal deposits of waste within the scope of the tax. This means that those who illegally dispose of waste would be liable to pay the tax twice: firstly at the point where they disposed of it illegally, and again when it is deposited at a licensed landfill site. I would welcome views on this, in particular any practical implications that might arise as a result of adopting a broader approach to the definition of landfill sites.

Un o'r opsiynau yr wyf yn ymgynghori yn ei gylch yw'r posibilrwydd o gynnwys achosion o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth. Mae hyn yn golygu y byddai'r rhai sy'n cael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon yn gorfod talu'r dreth ddwywaith: yn gyntaf ar yr adeg lle gwnaethant ei waredu'n anghyfreithlon, ac unwaith eto pan gaiff ei adael mewn safle tirlenwi trwyddedig. Byddwn yn croesawu barn am hyn, yn enwedig unrhyw oblygiadau ymarferol a allai godi o ganlyniad i fabwysiadu agwedd ehangach at y diffiniad o safleoedd tirlenwi.

I've been clear that we must be rigorous in ensuring proper and fair payment of devolved Welsh taxes. The new Welsh revenue authority will be responsible for collecting and managing devolved Welsh taxes. I will expect the Welsh revenue authority to support and enable taxpayers to pay the right amount of tax in a timely way. For landfill disposals tax, for example, I will look to improve communication and simplify administration where possible. Equally, I will consider all available tools to deter and take action against those who are seeking to avoid or evade tax. Avoidance and evasion deprive our valued public services and impact on the communities and businesses that depend upon them. It also gives tax evaders an unfair advantage over those law-abiding businesses and individuals who pay their fair share. Tax avoiders and evaders will be treated equitably in Wales and challenged robustly, regardless of circumstances—seeking to avoid or evade payment is simply unacceptable. I announced earlier this month that I intend to develop a Welsh tax avoidance rule, drawing on the helpful responses to my White Paper on the 'Collection and management of devolved taxes in Wales', responses to my latest tax-specific consultations and from experiences elsewhere. This rule will be fit for Wales, consistent with the challenges that we face, and clear that there is no place for tax avoidance here.

Rwyf wedi bod yn glir bod yn rhaid inni fod yn drylwyr wrth sicrhau bod trethi datganoledig yng Nghymru'n cael eu talu'n gywir a theg. Bydd yr awdurdod refeniw newydd ar gyfer Cymru'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru. Byddaf yn disgwyl i awdurdod refeniw Cymru gefnogi a galluogi trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth mewn modd amserol. Ar gyfer y dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi, er enghraifft, byddaf yn ceisio gwella'r trefniadau cyfathrebu a symleiddio gweinyddiaeth lle bo hynny'n bosibl. Yn yr un modd, byddaf yn ystyried yr holl ddulliau sydd ar gael i atal pobl sy'n ceisio osgoi neu efadu trethi a chymryd camau yn eu herbyn. Mae pobl sy'n osgoi ac yn efadu yn amddifadu ein gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr ac yn effeithio ar y cymunedau a'r busnesau sy'n dibynnu arnynt. Mae hefyd yn rhoi mantais annheg i bobl sy'n osgoi talu treth dros y busnesau a'r unigolion sy'n ufudd i'r gyfraith ac sy'n talu eu cyfran deg. Bydd pobl sy'n osgoi ac yn efadu talu trethi yn cael eu trin yn deg yng Nghymru a'u herio'n gadarn, waeth beth fo'r amgylchiadau—mae'n gwbl annerbyniol ceisio osgoi neu efadu talu. Cyhoeddais yn gynharach y mis hwn fy mod yn bwriadu datblygu rheol ynglŷn ag osgoi treth yng Nghymru, gan ddefnyddio'r ymatebion defnyddiol i fy Mhapur Gwyn ar 'Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru', ymatebion i fy ymgynghoriadau diweddaraf sy'n ymwneud yn benodol â threthi a phrofiadau mewn mannau eraill. Bydd y rheol hon yn addas ar gyfer Cymru, yn gyson â'r heriau sy'n ein hwynebu, ac yn glir nad oes lle i bobl osgoi talu trethi yma.

Beyond this, I will expect the WRA to take clear and proportionate enforcement action against the minority who purposefully seek to evade or avoid paying their fair share of tax. This will include the use of civil and criminal penalties and the necessity for WRA to work with a range of partners in setting a clear stance on enforcement. We are in discussions with Natural Resources Wales about using their knowledge and resources to help address tax evasion and avoidance in landfill disposals tax. I will also look to work with the police, HMRC and other enforcement bodies to ensure that we're clear in our intent.

Y tu hwnt i hyn, byddaf yn disgwyl i Awdurdod Refeniw Cymru gymryd camau gorfodi clir a chymesur yn erbyn y lleiafrif sy'n bwrpasol ceisio osgoi neu efadu talu eu cyfran deg o'u trethi. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cosbau sifil a throseddol a'r angen i Awdurdod Refeniw Cymru weithio gydag ystod o bartneriaid wrth osod safiad clir ar orfodi. Rydym mewn trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â defnyddio eu gwybodaeth a'u hadnoddau i helpu i fynd i'r afael â phobl sy'n efadu ac yn osgoi talu trethi o ran y dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi. Byddaf hefyd yn dymuno gweithio gyda'r heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrff gorfodi eraill i sicrhau bod ein bwriad yn glir.

I cannot, of course, consider landfill disposals tax without examining more broadly how landfill sites and the tax affect communities. People living close to landfill sites can be disadvantaged by the impact of increasing traffic and noise. The existing landfill tax seeks to offset some of those effects through a tax credit scheme called the landfill communities fund. The fund aims to incentivise landfill site operators to support local community and environmental projects. I am, therefore, seeking views on whether and how to use a proportion of landfill disposals tax receipts to enhance community wellbeing, including tackling waste crime, biodiversity initiatives, tackling poverty, waste minimisation and recycling.

Nid wyf, wrth gwrs, yn gallu ystyried y dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi heb archwilio'n fwy eang sut mae safleoedd tirlenwi a'r dreth yn effeithio ar gymunedau. Gall pobl sy'n byw yn agos at safleoedd tirlenwi fod dan anfantais oherwydd effaith y cynnydd yn y traffig a'r sŵn. Mae'r dreth dirlenwi bresennol yn ceisio gwneud rhywfaint o iawn am yr effeithiau hynny drwy gynllun credyd treth a elwir y gronfa cymunedau tirlenwi. Nod y gronfa yw cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol lleol. Rwyf, felly, yn ceisio barn ar p'un a sut i ddefnyddio cyfran o'r arian a derbynnir trwy'r dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi i wella lles cymunedol, gan gynnwys mynd i'r afael â throseddau gwastraff, mentrau bioamrywiaeth, trechu tlodi, lleihau gwastraff ac ailgylchu.

It is therefore clear to me that landfill disposals tax will have a variety of impacts—on businesses, regulators, communities and the third sector. Through this open and extensive consultation, I am seeking to consider the fullest range of options. I urge all stakeholders with an interest in the operation of this tax and in its wider aims to share their ideas on how we can design this tax so that it works well for Wales.

Felly, mae'n amlwg i mi y bydd y dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi yn cael amrywiaeth o effeithiau—ar fusnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a'r trydydd sector. Trwy'r ymgynghoriad agored a helaeth hwn, rwy'n ceisio ystyried yr ystod lawnaf o opsiynau. Rwy'n annog yr holl randdeiliaid sydd â budd yng ngweithrediad y dreth hon ac yn ei hamcanion ehangach i rannu eu syniadau ynghylch sut y gallwn gynllunio'r dreth hon fel ei bod yn gweithio'n dda i Gymru.

15:29

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llefarydd y Ceidwadwyr, Nick Ramsay.

The Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

15:29

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. Minister, can I welcome your statement today and, indeed, the announcement of the consultation on the proposed landfill disposals tax? As your taxes in Wales brochure says—which I have read avidly—the total tonnage of waste going to landfill in Wales has fallen by more than 50% since 2001. So, as you've pointed out, the landfill tax has clearly been working, and it makes this tax different to many other taxes in that it is specifically orientated at, ultimately, abolishing itself. So, by 2018-20, the revenue we receive probably will have fallen. What discussions have you had with the UK Government regarding this likely fall off in revenue over the years to come, and how are you going to make sure that the block grant and the revenue funding that come to Wales take account of this?

Diolch, Gadeirydd. Weinidog, a gaf i groesawu eich datganiad heddiw ac, yn wir, y cyhoeddiad ynglŷn â'r ymgynghoriad ar y dreth arfaethedig ar waredu i safleoedd tirlenwi? Fel y mae eich llyfryn ar drethi yng Nghymru'n ei ddweud—ac rwyf wedi ei ddarllen yn eiddgar—mae cyfanswm y tunelli o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru wedi gostwng mwy na 50% ers 2001. Felly, fel yr ydych wedi nodi, mae'r dreth dirlenwi yn amlwg wedi bod yn gweithio, ac mae'n gwneud y dreth hon yn wahanol i lawer o drethi eraill gan mai ei nod penodol, yn y pen draw, yw ei dileu ei hun. Felly, erbyn 2018-20, bydd y refeniw a gawn wedi gostwng mae'n debyg. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y gostyngiad tebygol hwn mewn refeniw dros y blynyddoedd i ddod, a sut yr ydych yn mynd i wneud yn siŵr bod y grant bloc a'r cyllid refeniw sy'n dod i Gymru yn ystyried hyn?

Turning to regulation, Scotland will have full control of landfill tax in the coming months, and the Scottish Government is looking at whether it will be possible for it to regulate this itself rather than using the UK regulator. What consideration have you given to the regulation framework within Wales? Do you intend to carry on using the UK regulator or to have a Welsh regulator, which would clearly have a cost implication, or indeed to have maybe an amalgam of these—maybe the regions of the UK and countries of the UK having a separate regulator?

Gan droi at reoleiddio, bydd yr Alban yn cael rheolaeth lawn ar y dreth dirlenwi yn y misoedd nesaf, ac mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried a fydd yn bosibl iddi reoleiddio hyn ei hun yn hytrach na defnyddio rheoleiddiwr y DU. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i'r fframwaith rheoleiddio yng Nghymru? A ydych yn bwriadu parhau i ddefnyddio rheoleiddiwr y DU neu gael rheoleiddiwr ar gyfer Cymru, a fyddai'n amlwg â goblygiadau o ran cost, neu yn wir i gael cyfuniad o'r rhain o bosibl— rheoleiddiwr ar wahân ar gyfer rhanbarthau'r DU a gwledydd y DU efallai?

I'm very interested in the idea you mentioned of taxing twice in the case of illegal disposals—taxing the initial disposal on an illegal site and then taxing again in the legal disposal. I think this is worth looking at, so long as it avoids legitimising the initial illegal disposal just through introducing a tax. I'm just thinking in my mind's eye that you could end up with a situation where, if people are paying a tax on an illegal site initially, they might think that the Government is somehow benefiting from that revenue. So, that needs to be avoided, as I'm sure you agree.

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y syniad y gwnaethoch sôn amdano o drethu ddwywaith mewn achosion o waredu'n anghyfreithlon—trethu'r gwaredu cychwynnol ar safle anghyfreithlon, ac yna trethu'r gwaredu cyfreithlon eto. Rwy'n credu ei bod yn werth edrych ar hyn, cyn belled â'i fod yn osgoi cyfreithloni'r cam cychwynnol o waredu'n anghyfreithlon dim ond drwy gyflwyno treth. Rwy'n dychmygu wrthyf i fy hun y gallech gael sefyllfa, os yw pobl yn talu treth ar safle anghyfreithlon i ddechrau, y gallent feddwl bod y Llywodraeth yn elwa rhywsut ar y refeniw hwnnw. Felly, mae angen osgoi hynny, fel yr ydych yn cytuno rwy'n siŵr.

You mentioned our old favourite: tax tourism. Clearly, we need to ensure that the new tax here does its job and continues to push down on landfill in the way that the old landfill tax does. But it's important, as you say, that we don't encourage waste disposal across the border or any increased waste disposal across the border. So, I'd be grateful if you could keep the Chamber up to date on your creation of this tax and how that's going to be avoided. As the Minister for the economy, Edwina Hart, is always fond of telling us, we have a very porous border here in Wales, and that has to be factored into this new tax framework.

Rydych wedi sôn am ein hen ffefryn: twristiaeth treth. Yn amlwg, mae angen inni ofalu bod y dreth newydd yn gwneud ei gwaith ac yn parhau i roi pwysau ar dirlenwi fel y mae'r hen dreth dirlenwi yn ei wneud. Ond mae'n bwysig, fel y dywedwch, inni beidio ag annog pobl i waredu gwastraff ar draws y ffin neu waredu mwy o wastraff ar draws y ffin. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr wrth greu'r dreth hon a dweud sut mae hynny'n mynd i gael ei osgoi. Fel y mae Gweinidog yr economi, Edwina Hart, bob amser yn hoff o ddweud wrthym, nid yw ein ffin yma yng Nghymru yn un soled, ac mae'n rhaid cynnwys hynny yn y fframwaith treth newydd.

Finally, Chair, we have returned to the issue of tax avoidance and evasion—a common theme with all these discussions and debates in this Chamber on the future tax framework in Wales. It's clearly important that tax avoidance and evasion are kept to a minimum. I've warned in the past that, as the Minister would accept herself, the Assembly and Welsh Government have no experience in this area of collecting taxes, which makes us different from local authorities and, indeed, community councils. So, without that experience to date, how are you going to build up, very rapidly and very cohesively, as is required, a whole framework for dealing with tax avoidance and evasion to make sure that Wales doesn't come to be seen as a soft touch? Indeed, how much do you intend to take advantage of the experience of HMRC in this area?

Yn olaf, Gadeirydd, rydym wedi dychwelyd at fater osgoi ac efadu treth—thema gyffredin ym mhob un o'r trafodaethau a'r dadleuon hyn yn y Siambr hon ar y fframwaith treth yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau bod cyn lleied o osgoi ac efadu trethi â phosibl. Rwyf wedi rhybuddio yn y gorffennol, fel y byddai'r Gweinidog yn derbyn ei hun, nad oes gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru unrhyw brofiad yn y maes hwn o gasglu trethi, sy'n ein gwneud yn wahanol i awdurdodau lleol ac, yn wir, i gynghorau cymuned. Felly, heb y profiad hwnnw hyd yma, sut rydych chi'n mynd i ddatblygu fframwaith cyfan, yn gyflym iawn ac yn gydlynol iawn, fel sy'n ofynnol, ar gyfer ymdrin ag osgoi ac efadu trethi er mwyn gwneud yn siŵr nad yw Cymru'n cael ei hystyried yn rhywle hawdd manteisio arni? Yn wir, i ba raddau yr ydych yn bwriadu manteisio ar brofiad Cyllid a Thollau EM yn y maes hwn?

15:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Nick Ramsay very much for those very constructive comments and questions. I think it is important to recognise the value and the impact of landfill tax. It was introduced in 1996 as an environmental behavioural tax to encourage reuse, recycling and recovery and to stop waste going to landfill, and it has been hugely successful in that regard in terms of the reduction of waste to landfill by over 50%. But it is quite clear that, if we didn't have a landfill disposal tax, there would be revenue and policy implications, particularly, I think, behavioural policy implications. There could be impacts for the waste management system in Wales—adverse impacts in terms of undermining our efforts to divert waste from landfill.

Diolch yn fawr iawn i Nick Ramsay am y sylwadau a'r cwestiynau adeiladol iawn hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod gwerth ac effaith y dreth dirlenwi. Cafodd ei chyflwyno ym 1996 fel treth ymddygiad amgylcheddol er mwyn annog pobl i ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff a'i atal rhag mynd i safleoedd tirlenwi, ac mae wedi bod yn hynod lwyddiannus yn hynny o beth gan arwain at anfon 50% yn llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Ond mae'n eithaf amlwg y byddai goblygiadau refeniw a pholisi pe na byddai gennym dreth dirlenwi, yn arbennig, rwy'n meddwl, goblygiadau o ran polisi ymddygiad. Gallai fod effeithiau ar gyfer y system rheoli gwastraff yng Nghymru—effeithiau andwyol o ran tanseilio ein hymdrechion i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

But, of course, it does mean that, as we are more successful, the tax will reduce, and of course this means that, as we approach the time of what will be an offset arrangement with the Treasury in terms of our budget, we will have to take account—a grant adjustment will have to take account—of reduced landfill tax receipts. At the moment, we are estimating, as you said, that—. For 2012-13, the latest year for data available, £50 million was raised, and that, of course, is still forecast as we go forward. But I think we have to recognise that revenues for both UK and Wales have followed a similar trend over the last decade: increasing rapidly until 2010-11 and remaining fairly stable since then. But I think we have to make sure that the exact adjustment method is clearly negotiated. And it’s assumed that the amount of landfill tax that would have been raised in Wales in 2018-19 will be the amount taken off the block grant, but we would then expect annual review to reflect trends in landfill tax receipts in Wales. We wouldn’t expect the adjustment to penalise Wales for any increased revenue as a result of any investment we make, for example, to improve tax compliance. We might find, through our tax-avoidance rule, that we might have more tax that will be levied and payable as a result of those actions. So, this, of course, will be in the future, in terms of how we make those adjustments. But I think it is also important to recognise that, in Scotland, they have negotiated there for one year their tax offset, in terms of the implementation of their new policy.

Ond, wrth gwrs, mae'n golygu y bydd y dreth yn lleihau wrth inni fod yn fwy llwyddiannus, ac wrth gwrs mae hyn yn golygu, wrth inni nesáu at amser yr hyn a fydd yn drefniant gwrthbwyso gyda'r Trysorlys o ran ein cyllideb, y bydd yn rhaid inni ystyried—bydd yn rhaid i addasiad grant ystyried—y ffaith bod llai o dreth dirlenwi’n cael ei derbyn. Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif, fel y dywedoch, bod—. Codwyd £50 miliwn yn 2012-13, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer, ac mae hynny, wrth gwrs, yn cael ei ragweld o hyd wrth inni symud ymlaen. Ond rwy'n credu bod rhaid inni gydnabod bod refeniw ar gyfer y DU a Chymru wedi dilyn tuedd debyg dros y degawd diwethaf: cynyddu'n gyflym tan 2010-11 ac yn aros yn weddol sefydlog ers hynny. Ond rwy'n credu bod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod union ddull yr addasiad yn cael ei drafod yn glir. A chymerir yn ganiataol mai’r swm a gymerir oddi ar y grant bloc fydd swm y dreth dirlenwi a fyddai wedi ei chodi yng Nghymru yn 2018-19, ond byddem wedyn yn disgwyl i adolygiad blynyddol adlewyrchu tueddiadau yn lefel y dreth dirlenwi a dderbynnir yng Nghymru. Ni fyddem yn disgwyl i'r addasiad gosbi Cymru am unrhyw gynnydd mewn refeniw o ganlyniad i unrhyw fuddsoddiad a wnawn, er enghraifft, i wella cydymffurfiad â’r system drethi. Efallai y byddwn yn canfod, drwy ein rheol osgoi trethi, y gallai mwy o dreth gael ei chodi a bod yn daladwy o ganlyniad i’r camau gweithredu hynny. Felly, wrth gwrs, bydd hyn yn y dyfodol, o ran sut yr ydym yn gwneud yr addasiadau hynny. Ond rwy'n credu hefyd ei bod yn bwysig cydnabod eu bod, yn yr Alban, wedi trafod eu treth wrthbwyso am flwyddyn, o ran rhoi eu polisi newydd ar waith.

I think it is important in terms of regulatory and policy context, and particularly in relation to the opportunities for the landfill communities fund, that we look to the work that’s being done to consider, for example, Entrust, which is now performing that role in terms of the opportunities through the landfill communities fund, to regulate the support of those projects, which have been very important in terms of environmental benefit. Again, the consultation is to enable us to get views back on those who have already made use of the communities fund, via the regulator Entrust, and to look as to whether we should consider future opportunities and options for us in Wales.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig o ran y cyd-destun rheoleiddio a pholisi, ac yn enwedig o ran y cyfleoedd ar gyfer y gronfa cymunedau tirlenwi, ein bod yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried Entrust, er enghraifft, sy’n cyflawni’r rôl honno ar hyn o bryd o ran y cyfleoedd drwy'r gronfa cymunedau tirlenwi, i reoleiddio cefnogaeth y prosiectau hynny, sydd wedi bod yn bwysig iawn o ran budd amgylcheddol. Unwaith eto, bwriad yr ymgynghoriad yw ein galluogi ni i glywed safbwyntiau am y rhai sydd eisoes wedi gwneud defnydd o'r gronfa cymunedau, drwy gyfrwng y rheoleiddiwr Entrust, a meddwl a ddylem ni ystyried cyfleoedd ac opsiynau i'r dyfodol i ni yng Nghymru.

Now, you have raised the important point of the further extension of our consultation to consider those illegal deposits—illegal deposits that, of course, are illegally deposited, but we are seeking to understand the practicalities of extending the definition. As far as we are concerned, this is an example of evasion, where the question in the consultation seeks the views of those who respond to extend the definition of landfill sites to include illegal deposits of waste. And, of course, we have to consider that very carefully in terms of the operation and the cost-effectiveness of the enforcement regime. I know Natural Resources Wales is very interested in, particularly, compliance and enforcement. So, you know, the consultation, again, will be seeking views on whether there’s a need for increased compliance activity on the ground, rather than desk-based, to help address this issue.

Nawr, rydych wedi codi pwynt pwysig ynglŷn ag ymestyn ein hymgynghoriad ymhellach i ystyried gollwng gwastraff yn anghyfreithlon—gwastraff anghyfreithlon sydd, wrth gwrs, yn cael ei waredu’n anghyfreithlon, ond rydym yn ceisio deall agweddau ymarferol ymestyn y diffiniad. Yn ein barn ni, mae hyn yn enghraifft o osgoi talu, lle mae'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn y rhai sy'n ymateb ynglŷn ag ymestyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gollwng gwastraff yn anghyfreithlon. Ac, wrth gwrs, mae'n rhaid inni ystyried hynny’n ofalus iawn o ran gweithredu’r drefn orfodi a pha mor gost-effeithiol fydd y drefn honno. Rwy'n gwybod bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddiddordeb mawr, yn arbennig, mewn cydymffurfio a gorfodi. Felly, chi'n gwybod, bydd yr ymgynghoriad, unwaith eto, yn gofyn am farn ynghylch a oes angen mwy o weithgarwch cydymffurfio ar lawr gwlad, yn hytrach nag wrth y ddesg, er mwyn helpu i roi sylw i’r mater hwn.

We have to be clearly aware of the concerns or the fact, in terms of how we manage this, particularly in relation to the border between England and Wales, that we do not end up in the position where there could be waste tourism, and tax tourism as well, in terms of what this could mean. Now, this is something that, of course, again, we're clearly discussing with business: how they are concerned about moving forward and where we don't want to change things for the sake of it, but, as I've said in my statement, we need to be aware in terms of rates, and also levels in terms of the tax, of what this could mean in terms of the danger of waste and tax tourism.

Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol iawn o'r pryderon neu'r ffaith, o ran sut yr ydym yn rheoli hyn, yn enwedig o ran y ffin rhwng Cymru a Lloegr, nad ydym yn y pen draw mewn sefyllfa lle y gallai fod gennym dwristiaeth wastraff, a thwristiaeth dreth yn ogystal, o ran yr hyn y gallai hyn ei olygu. Nawr, mae hyn yn rhywbeth, wrth gwrs, unwaith eto, yr ydym yn ei drafod yn glir gyda busnesau: sut maent yn poeni am symud ymlaen a lle nad ydym am newid pethau er mwyn newid, ond, fel yr wyf wedi dweud yn fy natganiad, mae angen inni fod yn ymwybodol o ran cyfraddau, a hefyd lefelau o ran y dreth, o'r hyn y gallai hyn ei olygu o ran y perygl o dwristiaeth gwastraff a threth.

Now, tax avoidance is an important part of all of the announcements that I've been making in the last few weeks. I think, particularly, I want to encourage tax compliance. There is evidence, for example, that there have been cases of landfill tax evasion, and payment can be avoided through a number of routes, and particularly in relation to landfill tax. So, tax avoidance is about ensuring that people can pay their taxes and that I support them in making them as simple and as straightforward as possible, because our taxes help pay for the public services that our communities and businesses depend on.

Nawr, mae osgoi treth yn rhan bwysig o'r holl gyhoeddiadau yr wyf wedi bod yn eu gwneud yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwy'n meddwl, yn arbennig, fy mod am annog pobl i gydymffurfio â'r dreth. Ceir tystiolaeth, er enghraifft, y bu achosion o osgoi talu'r dreth dirlenwi, a gellir osgoi talu trwy nifer o lwybrau, ac yn arbennig o safbwynt y dreth dirlenwi. Felly, mae osgoi treth yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn gallu talu eu trethi a fy mod yn eu cefnogi i'w gwneud mor syml ac mor rhwydd â phosibl, gan fod ein trethi yn helpu i dalu am y gwasanaethau cyhoeddus y mae ein cymunedau a'n busnesau yn dibynnu arnynt.

15:39

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

15:39

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Rwy'n croesawu'r ymgynghoriad sydd wedi cael ei lansio heddiw, a diolch yn fawr hefyd am y briffio fuodd y bore yma i'r gwrthbleidiau.

Thank you very much. I welcome the consultation launched today, and thank you very much for the briefing provided this morning to the opposition parties.

Mae llawer iawn o'r cwestiynau wedi cael eu gofyn, ac mae'r atebion wedi bod yn llawn, ac mae'ch datganiad chi yn llawn. A gaf fi jest nodi rhai pethau? Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn rydych yn ei ddweud: bod busnes a diwydiant angen sicrwydd a thegwch. Mae hynny'n bwysig iawn. Felly, a gaf ofyn pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda diwydiant ynglŷn â'r dreth newydd benodol yma, sydd, wrth gwrs, yn bwysig iawn, iawn I lawer iawn o'n busnesau? Yn sicr, byddai rhywun yn cytuno nad oes cyfiawnhad mewn newid dim ond er mwyn newid yn y sefyllfa sydd ohoni. Rydych wedi cyffwrdd â hyn, ond os bydd strategaeth ailgylchu'r Llywodraeth yn llwyddiannus, ac mae pwyslais ychwanegol ar hynny rŵan, bydd llai a llai o arian yn dod o'r dreth tirlenwi. Sut mae'r Llywodraeth yn mynd I gynnwys hyn yn ei rhag-baratoadau cyllidol i'r dyfodol?

Many of the questions have already been asked, and the responses have been comprehensive, as is your statement. May I just note a few things? I agree entirely with what you say: that business and industry need certainty and equity. That is very important. So, may I ask what discussions you have had with industry on this specific new tax, which, of course, is extremely important to many of our businesses? Certainly, one would agree that there is no justification for change for change's sake in the situation that we find ourselves in. You've touched upon this issue, but if the Government's recycling strategy is successful, and there is an additional emphasis on that now, then less and less money will be generated by the landfill tax. How is the Government going to include this in its budgetary planning for the future?

Yn olaf, rwyf i hefyd eisiau cyfeirio at y gronfa gymunedol tirlenwi yma, sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei gweinyddu ar draws y Deyrnas Unedig. Byddwn I am wneud un ple: na ddylai defnydd y cronfeydd yma gael ei reoli gan y Llywodraeth yn ganolog. Wedi'r cwbl, mae'r trethi yma wedi cael eu targedu ar gyfer yr ardaloedd hynny lle mae safleoedd tirlenwi. Os ydych eisiau cael trosolwg, a bod defnydd strategol yn cael ei wneud ohonyn nhw, yna mae hynny'n gyfrifoldeb, byddwn i'n awgrymu, i'r cynghorau lleol. Mae gormod o gronfeydd o'r math yma yn cael eu rheoli yn ganolog gan y Llywodraeth, a chanlyniad hynny yw bod ardaloedd cyfan o Gymru, a theuluoedd yng Nghymru, yn cael eu hallgáu o gronfeydd o'r fath ac nid wyf eisiau gweld rhagor o hynny yn digwydd. Ac mi fyddwn ni yn cadw llygad barcud ar hynny wrth i'r ymgynghoriad yma fynd yn ei flaen.

Finally, I also want to refer to the landfill communities fund, which, at present, is administered on a UK-wide basis. I would make one plea: the use of these funds should not be controlled by Government centrally. After all, these taxes are targeted at those areas where there are landfill sites. If you want to have an overview, and make strategic use of those funds, then that's a responsibility, I would suggest, for local councils. There are too many funds of this kind that are controlled centrally by Government, and the upshot of that is that whole areas of Wales, and families in Wales, are excluded from funds of this sort and I don't want to see more of that happening in the future. And I will be keeping a close eye on that as this consultation proceeds.

15:42

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I have been fortunate to have been advised by a technical experts group and I have met indeed not only with landfill site operators, but also I have met with business groups—business sits on my tax advisory group. I've also been invited to specific consultation events that have been set up to look at our new tax arrangements, for example, a meeting with the north Wales committee of the Confederation of British Industry only a couple of weeks ago. So, I'm fully engaging and also extending that invitation more broadly to all sectoral interests, and meeting with environmental and third sector groups and networks as well. But, clearly, this consultation is an opportunity for them all to respond.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Rwyf wedi bod yn ffodus i fod wedi cael fy nghynghori gan grŵp o arbenigwyr technegol ac rwyf wedi cyfarfod yn wir gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi, ond hefyd rwyf wedi cyfarfod â grwpiau busnes—mae busnes yn rhan o'r grŵp cynghori ym maes trethi. Rwyf hefyd wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiadau ymgynghori penodol sydd wedi cael eu sefydlu i edrych ar ein trefniadau treth newydd, er enghraifft, cyfarfod gyda phwyllgor gogledd Cymru o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain dim ond cwpl o wythnosau yn ôl. Felly, rwy'n ymgysylltu'n llawn a hefyd yn estyn y gwahoddiad hwnnw yn fwy cyffredinol i'r holl fuddiannau sectoraidd, ac yn cyfarfod â grwpiau a rhwydweithiau sector amgylcheddol a'r trydydd sector yn ogystal. Ond, yn amlwg, mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle iddynt i gyd ymateb.

I think it is important in terms of looking at what will happen in terms of this tax. The UK Government will switch off landfill tax in Wales. It will reduce the Welsh block grant to allow for the loss of revenue to Treasury, but we have got the opportunity to make sure that this tax is designed to better meet the needs of Wales. That may not result in dramatic change, but as a result of consultation, it may result in meeting some of the important principles that I've set out in terms of our new Welsh taxes: fair to businesses and individuals who pay taxes; being simple, with clear rules; minimising compliance and administration costs; and, supporting growth and jobs to tackle poverty. It is important that we look at this in the context of those key principles. I've already responded, not only to the discussions that will take place in terms of final offset arrangements, but on the adjustment to the Welsh block grant, and discussions are already under way between Welsh and UK Governments. They will take account, those adjustments, of expected trends in revenue that have occurred as a result of changes. We do not, of course, expect any adjustments to penalise Wales for any increased revenue arising from Welsh Government action, such as strong approach to compliance and enforcement. So, our particular circumstances will have to be taken into account.

Rwy'n credu ei fod yn bwysig o ran ystyried yr hyn a fydd yn digwydd o ran y dreth hon. Bydd Llywodraeth y DU yn dod â'r dreth dirlenwi i ben yng Nghymru. Bydd yn lleihau grant bloc Cymru i ganiatáu am y refeniw a gollir gan y Trysorlys, ond mae gennym gyfle i wneud yn siŵr bod y dreth hon yn cael ei chynllunio i ddiwallu anghenion Cymru'n well. Efallai na fydd hynny'n arwain at newid dramatig, ond o ganlyniad i ymgynghori, gall arwain at gyflawni rhai o'r egwyddorion pwysig yr wyf wedi'u nodi o ran ein trethi newydd i Gymru: eu bod yn deg i fusnesau ac unigolion sy'n talu trethi; yn syml, â rheolau clir; yn lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu; ac yn cefnogi twf a swyddi i fynd i'r afael â thlodi. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried hyn yng nghyd-destun yr egwyddorion allweddol hynny. Rwyf eisoes wedi ymateb, nid yn unig i'r trafodaethau a fydd yn digwydd o ran y trefniadau gwrthbwyso terfynol, ond ar yr addasiad i grant bloc Cymru, ac mae trafodaethau eisoes ar y gweill rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU. Bydd yr addasiadau hynny'n rhoi ystyriaeth i'r tueddiadau a ddisgwylir mewn refeniw sydd wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau. Nid ydym, wrth gwrs, yn disgwyl i unrhyw addasiadau gosbi Cymru am unrhyw gynnydd mewn refeniw sy'n deillio o gamau gan Lywodraeth Cymru, megis agwedd gadarn tuag at gydymffurfio a gorfodi. Felly, bydd yn rhaid ystyried ein hamgylchiadau penodol.

You raised important points about the landfill communities fund. I think you’re aware from our briefing this morning that we learned that there are 191 registered bodies, environmental bodies, in Wales, that can undertake projects within 10 miles of a landfill site. Again, this consultation is very helpful and your views are very constructive this afternoon in terms of taking a more strategic approach to how that landfill communities fund could operate in Wales. It is a tax-credit scheme and, just again to clarify, landfill operators can use up to a certain proportion, currently 5.1%, of their landfill tax liability towards community and environmental projects and receive as a result a tax credit worth 90% of this amount. In 2012-13, close to £4 million was spent on projects in Wales, but I think your response—. And I’m sure there will be similar views in terms of the strategic allocation of those funds for the purposes that we feel the most appropriate to not only Welsh Government, but local government and indeed environmental groups across the country.

Fe wnaethoch godi pwyntiau pwysig am y gronfa cymunedau tirlenwi. Rwy’n meddwl eich bod yn ymwybodol o'n briffio fore heddiw ein bod wedi dysgu bod 191 o gyrff cofrestredig, cyrff amgylcheddol, yng Nghymru, sy'n gallu ymgymryd â phrosiectau o fewn 10 milltir i safle tirlenwi. Unwaith eto, mae'r ymgynghoriad hwn yn ddefnyddiol iawn ac mae eich barn yn adeiladol iawn y prynhawn yma o ran mabwysiadu agwedd fwy strategol at sut y gallai cronfa cymunedau tirlenwi weithredu yng Nghymru. Cynllun credyd treth yw hwn ac, i egluro unwaith eto, caiff gweithredwyr tirlenwi ddefnyddio hyd at gyfran benodol, 5.1% ar hyn o bryd, o'u rhwymedigaeth treth dirlenwi tuag at brosiectau cymunedol ac amgylcheddol a derbyn credyd treth o ganlyniad sy'n werth 90% o’r swm hwn. Yn 2012-13, cafodd yn agos at £4 miliwn ei wario ar brosiectau yng Nghymru, ond rwy’n meddwl bod eich ymateb—. Ac rwy'n siŵr y bydd safbwyntiau tebyg o ran dyraniad strategol y cronfeydd hynny at ddibenion y teimlwn sydd fwyaf priodol nid yn unig i Lywodraeth Cymru, ond i lywodraeth leol ac yn wir i grwpiau amgylcheddol ar draws y wlad.

15:46 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i hefyd groesawu’r datganiad? Rwy’n meddwl bod yna lawer o drafod ynghylch y ffaith bod yn rhaid inni gael rhyw fath o gyfundrefn dreth yn ei lle, ac rwy’n meddwl eich bod chi wedi esbonio yn union y perygl sydd gennym fel gwlad wrth feddwl am y gostyngiad sydd wedi bod yn y dreth sy’n cael ei chasglu. Mae hynny, wrth gwrs, yn fater sydd wedi cael ei gynllunio, I ryw raddau, gan y Llywodraeth, gan eu bod nhw eisiau gweld llai o wastraff yn mynd I mewn i’r safleoedd tirlenwi. Felly, rwy’n derbyn beth yr ydych chi wedi ei ddweud ynglŷn â’r trafodaethau a fydd yn rhaid iddynt gymryd lle rhwng y Llywodraeth yma yng Nghymru a Llywodraeth Prydain, ond a gaf I ofyn ichi a oes unrhyw waith paratoadol wedi cael ei wneud o ran y gost a fydd yn syrthio ar Lywodraeth Cymru o ran gweinyddu hyn? Fel y dywedodd Alun Ffred, yn y gorffennol mae’r gyfundrefn wedi bod ar lefel Prydeinig, felly a oes yna bryder y bydd y gost o weinyddu’r dreth yma yn uwch o achos maint ein gwlad ni?

May I also welcome the statement? I think there’s been much discussion about the fact that we have to have some sort of tax regime in place, and I think you’ve explained exactly the danger that we have as a country in thinking about the reduction that’s been in the tax that is collected. That, of course, is a matter that has been planned, to some extent, by the Government—they want to see less waste going into landfill sites. Therefore, I accept what you’ve said about the discussions that will have to happen between Government here in Wales and the British Government, but can I ask you if any preparatory work has been done in terms of the cost that will fall on the Welsh Government in terms of administering this? As Alun Ffred said, in the past the system has been on a British level, so is there is a concern in terms of administering this that the cost will be higher because of the size of our country?

Hefyd, a gaf i ofyn ichi—. Buaswn i’n dweud bod yn rhaid i bobl ymateb i’r ymgynghoriad yma achos, ar hyn o bryd, mae llawer iawn o’n cymunedau ni yn dioddef o ran safleoedd tirlenwi, ac mae nifer ohonynt, wrth gwrs, ar y ffin, mewn ardaloedd lle mae yna draddodiad o ddiwydiant clai wedi bod. Mae’r cymunedau hynny’n dioddef, ac rwy’n meddwl byddai yna bryder yn y cymunedau hynny os nad ydynt yn gweld unrhyw fath o fudd o ran y dreth sy’n cael ei wario yn lleol, ond mae yna gyfle iddynt ddweud hynny yn yr ymgynghoriad. Ond, wrth symud ymlaen at y cynnig yma bod yna drethi dwbl yn cael eu gwneud o ran sbwriel anghyfreithlon, a oes yna fodd hefyd i’r Llywodraeth ystyried ei wneud yn llawer iawn symlach o ran pwy sy’n derbyn cyfrifoldeb o ran erlyn? Rwy’n ymwybodol bod yna ffin rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a llywodraeth leol, lle'r oedd erlyn person yn llawer iawn mwy cymhleth o achos bod yna ryw fath o ddryswch ynglŷn â phwy oedd yn derbyn cyfrifoldeb a hefyd pwy oedd efo’r adnoddau i erlyn. Ond rwy’n meddwl bod yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle inni drafod ymhellach a hefyd yn rhoi cyfle i bawb sydd efo buddiant yn y diwydiant yma i ymateb i’r Llywodraeth, felly rwy’n croesawu’r datganiad.

Can I also ask you—. I would say that people would need to respond to this consultation, because, at the moment, many of our communities are suffering because of landfill sites, and there are number of them, of course, on the border, in areas where there’s been a tradition of the clay industry. Those communities are suffering, and I think there would be concern in those communities if they don’t see any benefit in terms of the tax being spent locally, but there is an opportunity for them to say so in the consultation. But, in moving forward to this proposal that double taxes should be levied in terms of illegal waste, is there also a way for the Government to consider making it much simpler in terms of who accepts responsibility for prosecution? I’m aware that there is a boundary between Natural Resources Wales and local authorities, where prosecuting a person was much more complex because there was some sort of confusion about who accepted responsibility and also who had the resources to prosecute. But I think that the consultation provides an opportunity for us to discuss further and also provides an opportunity for everybody who has an interest in this industry to respond to the Government, so I welcome the statement.

15:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Aled Roberts. Of course, a great deal of preparatory work has been undertaken. Clearly, on your question about costs and implementation of the proposals, we're at the very early stages of a process that will take several years to implement, and it is clear that we have to bear on those costs. I think the documents published alongside the Wales Bill—. They don't provide administrative costs for either stamp duty land tax or landfill tax, as you're aware, in the command paper. The Wales Bill impact assessment quotes a cost of around £1 million to switch off stamp duty in Scotland. We have to obviously explore a range of options for taking on these new powers and be mindful of keeping costs down. I think the issues around enforcement are very important issues, and, for example, with our Welsh revenue authority, in the Bill that I will be bringing forward to the Senedd in due course—the Bill on the collection and management of taxation—it will provide powers, for example, to levy an appropriate penalty regime.

Diolch yn fawr, Aled Roberts. Wrth gwrs, mae llawer iawn o waith paratoi wedi'i wneud. Yn amlwg, o ran eich cwestiwn ynglŷn â chostau'r cynigion a'r dull o'u gweithredu, rydym ar gamau cynnar iawn proses a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu, ac mae'n amlwg bod rhaid inni ddylanwadu ar y costau hynny. Rwy'n meddwl bod y dogfennau a gyhoeddir ochr yn ochr â Bil Cymru—. Nid ydynt yn darparu costau gweinyddol yn y papur gorchymyn ar gyfer naill ai treth dir y doll stamp na'r dreth dirlenwi, fel yr ydych yn ymwybodol. Mae asesiad effaith Bil Cymru yn dyfynnu cost o tua £1 miliwn i ddod â threth stamp i ben yn yr Alban. Yn amlwg mae'n rhaid inni archwilio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ysgwyddo'r pwerau newydd hyn a chadw mewn cof yr angen i gadw costau i lawr. Rwy'n meddwl bod y materion yn ymwneud â gorfodaeth yn faterion pwysig iawn, ac, er enghraifft, bydd ein hawdurdod refeniw ar gyfer Cymru, yn y Bil y byddaf yn ei gyflwyno i'r Senedd maes o law—y Bil ar gasglu a rheoli trethiant—yn darparu pwerau, er enghraifft, i weithredu trefn gosb briodol.

Of course, we'll set out in legislation details of penalties that could apply to a landfill disposals tax as well as the land transaction tax, so that will be set out in legislation. But it is also important, and I welcome your views again on, how we can ensure that communities across Wales can benefit and engage, indeed, in this consultation; that's why the third sector has been very engaged in the preparatory work to make sure that we have got an open and transparent consultation regime, I believe, in terms of the new landfill disposals tax, and I encourage Members to enable their local communities and groups to respond accordingly.

Wrth gwrs, bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys manylion y cosbau a allai fod yn berthnasol i dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi yn ogystal â'r dreth ar drafodion tir, felly bydd yn cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth. Ond mae hefyd yn bwysig, ac rwy'n croesawu eich barn unwaith eto ar sut y gallwn sicrhau y gall cymunedau ledled Cymru elwa a chymryd rhan, yn wir, yn yr ymgynghoriad hwn; dyna pam y mae'r trydydd sector wedi bod yn ymwneud cymaint â'r gwaith paratoi i wneud yn siŵr bod gennym drefn ymgynghori agored a thryloyw, yn fy marn i, o ran y dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi newydd, ac rwy'n annog yr Aelodau i alluogi eu cymunedau a'u grwpiau lleol i ymateb yn unol â hynny.

15:50 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also welcome the statement. Landfill tax is, probably, the only tax where success is measured by reducing the money received. It is also an example of a tax that has changed attitudes and behaviour over several years. The tax is, as the Minister said, a significant driver of environmental behaviour, encouraging prevention, re-use, recycling and recovery. Success will be when the tax produces no income because there is no landfill.

Rwyf hefyd yn croesawu'r datganiad. Treth dirlenwi, yn ôl pob tebyg, yw'r unig dreth lle mae llwyddiant yn cael ei fesur drwy dderbyn llai o arian. Mae hefyd yn enghraifft o dreth sydd wedi newid agweddau ac ymddygiad dros nifer o flynyddoedd. Mae'r dreth, fel y dywedodd y Gweinidog, yn ffactor arwyddocaol o ran llywio ymddygiad amgylcheddol, gan annog pobl i atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer. Ceir llwyddiant pan na fydd y dreth yn cynhyrchu unrhyw incwm am nad oes gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

As landfill charges are paid where waste is disposed of, not where it is created, any major difference between England and Wales will lead to a change in the use of landfill sites. Does the Minister agree that this constrains the ability to increase tax above that in England? Is there a danger, on charging for illegally dumped waste material, that local authorities clearing fly-tipping will be charged twice, as often it is very difficult to find out who actually did the fly-tipping in the first place? Will the Minister consider reducing the distance from the landfill site a community support fund can be provided? There is a major landfill site in my constituency, and the area around there seems to get an awful lot less than some of the leafier suburbs many, many miles away, in terms of financial support. Finally, will the Minister consider using local authorities to collect the landfill tax, because, in many cases, the local authority runs the landfill?

Gan fod costau tirlenwi’n cael eu talu lle mae gwastraff yn cael ei waredu, nid lle mae'n cael ei greu, bydd unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng Cymru a Lloegr yn arwain at newid yn y defnydd o safleoedd tirlenwi. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hyn yn cyfyngu ar y gallu i gynyddu treth yn uwch na’r lefel yn Lloegr? A oes perygl, wrth godi tâl am ollwng deunydd gwastraff yn anghyfreithlon, y codir tâl ddwywaith ar yr awdurdodau lleol sy’n clirio gwastraff, gan ei bod yn anodd iawn cael gwybod pwy mewn gwirionedd wnaeth ei ollwng yn anghyfreithlon yn y lle cyntaf? A wnaiff y Gweinidog ystyried lleihau'r pellter oddi wrth y safle tirlenwi y gellir darparu cronfa cymorth cymunedol? Mae safle tirlenwi mawr yn fy etholaeth i, ac mae'n ymddangos bod yr ardal o gwmpas yn cael llawer iawn llai o gymorth ariannol na rhai o'r maestrefi brasach filltiroedd lawer i ffwrdd. Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog ystyried defnyddio awdurdodau lleol i gasglu'r dreth dirlenwi, oherwydd mai’r awdurdod lleol, mewn llawer o achosion, sy’n rhedeg y safle tirlenwi?

15:52

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Mike Hedges. I think your points are very pertinent and helpful in terms of the consultation. This issue about whether we do extend the definition of a landfill site in terms of illegal deposits of landfill I think is very important. Scottish landfill tax has already taken this forward, in defining a landfill site more widely than the UK legislation. We really need to, as I’ve said, consider the practicalities of extending the definition, in terms of whether it would be cost-effective and how we would operate that.

Diolch yn fawr iawn, Mike Hedges. Rwy’n meddwl bod eich pwyntiau’n berthnasol ac yn ddefnyddiol iawn o ran yr ymgynghoriad. Rwy’n credu bod y mater hwn ynghylch a ydym yn ymestyn y diffiniad o safle tirlenwi o safbwynt gollwng gwastraff yn anghyfreithlon mewn safleoedd tirlenwi yn bwysig iawn. Mae treth dirlenwi’r Alban eisoes wedi bwrw ymlaen â hyn, trwy ddiffinio safle tirlenwi yn ehangach na deddfwriaeth y DU. Mae gwir angen inni ystyried agweddau ymarferol ehangu'r diffiniad, fel yr wyf wedi dweud, o ran a fyddai'n gost-effeithiol a sut y byddem yn gweithredu hynny.

I do also very much agree—and it’s a point that’s been made by other Members in the Chamber today—about the need to make a community support fund more accessible as well as more strategic, and the consultation, of course, provides an opportunity for local authorities, as well as community groups and the third sector, to respond, to make sure that the community support fund is more accessible. But, of course, as you said at the outset, as we improve in terms of reducing waste to landfill, so will our tax reduce, but our compliance measures—waste will still be, not just in terms of households, but business and industry—. We will still have waste; let’s manage it and let’s tax it most effectively in Wales to continue with that behavioural change.

Rwyf hefyd yn cytuno’n gryf iawn—ac mae'n bwynt sydd wedi ei wneud gan Aelodau eraill yn y Siambr heddiw—ynglŷn â’r angen i wneud cronfa cymorth cymunedol yn fwy hygyrch yn ogystal â mwy strategol, ac mae'r ymgynghoriad, wrth gwrs, yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ymateb, yn ogystal â grwpiau cymunedol a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod y gronfa cymorth cymunedol yn fwy hygyrch. Ond, wrth gwrs, fel y dywedoch ar y dechrau, bydd ein treth yn lleihau wrth inni wella o ran anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, ond bydd ein mesurau cydymffurfiaeth—bydd gwastraff yn dal i fod, nid yn unig gan gartrefi, ond gan fusnes a diwydiant—. Bydd gwastraff wastad yn bodoli; gadewch inni ei reoli a gadewch inni ei drethu’n fwyaf effeithiol yng Nghymru er mwyn parhau â'r newid mewn ymddygiad.

15:54

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Most of the questions I wanted to ask have already been asked, but I wanted to say that I was very pleased that the Minister visited the play area in Hailey Park in Llandaff North yesterday, which has benefitted from funds from the existing landfill tax. We were very pleased to meet with the Friends of Hailey Park, which is a great group and which had raised 10% of the funding towards the play equipment. So, I think that was a great project to benefit from the existing landfill tax.

Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn eisoes wedi cael eu gofyn, ond roeddwn eisiau dweud fy mod yn falch iawn bod y Gweinidog ddoe wedi ymweld â'r man chwarae ym Mharc Hailey yn Ystum Taf, sydd wedi elwa o arian o’r dreth dirlenwi bresennol. Roeddem yn falch iawn i gwrdd â Chyfeillion Parc Hailey, sy'n grŵp gwych a oedd wedi codi 10% o'r cyllid tuag at yr offer chwarae. Felly, credaf ei fod yn brosiect gwych i fanteisio ar y dreth dirlenwi bresennol.

When the new tax is introduced, I know that it's going to be a reducing sum of money, probably, but how much money does the Minister think will be available to help community projects like the one in Hailey Park, and does she have any preliminary thoughts about the type of projects that should benefit from the investment in the community?

Pan fydd y dreth newydd gael ei chyflwyno, gwn y bydd y swm o arian yn gostwng, yn ôl pob tebyg, ond faint o arian y mae'r Gweinidog yn credu fydd ar gael i helpu prosiectau cymunedol fel yr un ym Mharc Hailey, ac a oes ganddi unrhyw syniadau cychwynnol ynglŷn â'r math o brosiectau a ddylai elwa ar y buddsoddiad yn y gymuned?

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

I thank Julie Morgan, the Member for Cardiff North, for that question. I was also very pleased, despite the poor weather, to visit Hailey Park outdoor activity centre and to meet the Friends of Hailey Park group there, who have accessed successfully—following on from Mike Hedges's question—funding linked directly to the landfill site operated by Cardiff council, which I visited, at Lamby Way. In fact, the criteria for projects supported through the landfill communities fund at present are generally aimed at the provision, maintenance or improvement of a public park, such as Hailey Park, or another public amenity; the conservation of a specific species or a specific habitat where it naturally occurs; places of architectural importance; and repairs, maintenance or restoration of a place of worship. Those are the criteria that have been set at the moment by HMRC, and we need to look at this in terms of further opportunities.

Hoffwn ddiolch i Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn falch iawn hefyd i ymweld â chanolfan gweithgareddau awyr agored Parc Hailey, er gwaethaf y tywydd gwael, ac i gwrdd â'r grŵp Cyfeillion Parc Hailey yno, sydd wedi llwyddo—yn dilyn ymlaen o gwestiwn Mike Hedges— i elwa ar gyllid yn uniongyrchol gysylltiedig â'r safle tirlenwi a weithredir gan gyngor Caerdydd yn Lamby Way, rhywle arall yr ymwelais ag o. Yn wir, mae'r meini prawf ar gyfer prosiectau a gefnogir drwy'r gronfa cymunedau tirlenwi ar hyn o bryd wedi'u hanelu ar y cyfan at ddarparu, cynnal a chadw neu wella parciau cyhoeddus, fel Parc Hailey, neu amwynder cyhoeddus arall; gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle mae i'w weld yn naturiol; gwarchod mannau o bwysigrwydd pensaernïol; ac atgyweirio, cynnal a chadw neu adfer man addoli. Dyma'r meini prawf a osodwyd ar hyn o bryd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mae angen inni edrych ar hyn o safbwynt darparu rhagor o gyfleoedd.

I think I've already, in response to questions, said that, in 2012-13—the latest figures—we received £4 million for environmental projects of this kind as a result of the landfill tax. So, you know, we would want to ensure that we can maintain, if possible, that kind of level, but it is clear in terms of future prospects that it will very much depend on not just the tax that we raise, but the way we manage and regulate it, and the way we have a more strategic approach, which I think has come through very clearly from the questions this afternoon.

Rwy'n credu fy mod i eisoes wedi dweud, mewn ymateb i gwestiynau, ein bod wedi derbyn £4 miliwn ar gyfer prosiectau amgylcheddol o'r math hwn o ganlyniad i'r dreth dirlenwi yn 2012-13—y ffigurau diweddaraf. Felly, chi'n gwybod, byddem am ofalu y gallwn gynnal lefel o'r math hwnnw, os yn bosibl, ond mae'n amlwg o ran y rhagolygon at y dyfodol y bydd yn dibynnu'n fawr iawn ar y dreth yr ydym yn ei chodi, ond hefyd ar y ffordd yr ydym yn ei rheoli a'i rheoleiddio, a'r agwedd fwy strategol sydd gennym. Rwy'n meddwl bod hynny wedi dod drosodd yn glir iawn o'r cwestiynau y prynhawn yma.

15:56

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, 5% of this tax currently goes towards environmental projects, some of them in my region, and I know that north-east Wales will be one of the regions that is potentially the most affected by this tax. I know that there are concerns about ENTRUST, but, obviously, when you set up a new body, there are initial set-up costs that aren't reflected. Obviously, that body will have had contact with the third sector organisations, through them applying for funding for those projects. In addition, that 5% that does go on environmental projects is for environmental projects that are carried out within 10 miles of the landfill site. So, they are very local and they benefit the communities that directly are affected, potentially, by the landfill site. Can I seek an assurance from you that you are interested in ensuring that that environmental element carries on and that the valuable work that is done by those sorts of projects will not be taken away from local communities that currently benefit from them? That is, that 10-mile radius has a value to those who have to live within the landfill facility itself.

Weinidog, mae 5% o'r dreth hon ar hyn o bryd yn mynd tuag at brosiectau amgylcheddol, rhai ohonynt yn fy rhanbarth i, a gwn mai gogledd-ddwyrain Cymru fydd un o'r rhanbarthau y gallai'r dreth hon effeithio fwyaf arno. Gwn fod pryderon ynghylch ENTRUST, ond, yn amlwg, pan fyddwch yn sefydlu corff newydd, mae costau sefydlu cychwynnol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu. Yn amlwg, bydd y corff hwnnw wedi bod mewn cysylltiad â'r sefydliadau trydydd sector, drwy iddynt wneud cais am arian ar gyfer y prosiectau hynny. Yn ogystal, mae'r 5% sy'n mynd ar brosiectau amgylcheddol yn cael ei wario ar brosiectau amgylcheddol sy'n cael eu cynnal o fewn 10 milltir i'r safle tirlenwi. Felly, maent yn lleol iawn ac maent o fudd i'r cymunedau y mae'r safle tirlenwi'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, o bosibl. A allaf ofyn am sicrwydd gennych bod gennych ddiddordeb mewn sicrhau bod yr elfen amgylcheddol honno'n parhau ac na fydd y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud gan y mathau hynny o brosiectau yn cael ei gymryd oddi ar gymunedau lleol sy'n cael budd ohonynt ar hyn o bryd? Hynny yw, mae gan y radiws o 10 milltir werth i'r rhai sy'n gorfod byw'n agos at y cyfleuster tirlenwi ei hun.

15:58

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

I think that’s a very valuable point and adds to many of the questions and points that have been made this afternoon—very valuable points—by Members. As I’ve said, to qualify for a tax credit, contributions must be made to a registered environmental body that would undertake a project within 10 miles of a landfill site. I think, on the issue about future regulation and the role of ENTRUST, there has been some concern about the costs of ENTRUST as a regulator. It is being now reviewed by HMRC. For example, at the moment, 11.4% is spent on the administration of environmental bodies, and we need to reduce administrative costs so that the funding can get to the environmental project. There is a 2.17% levy used to fund ENTRUST. So, I think we’ve got a chance to look at this, and I think HMRC are looking at it as well in terms of the UK landfill tax, and look at it to ensure that our communities can benefit appropriately, as you say, but also that we make sure that it’s open, transparent and there is full awareness nationally and locally of the opportunities to benefit from the environmental funds available.

Credaf fod hwnnw’n bwynt gwerthfawr iawn ac mae’n ychwanegu at nifer o'r cwestiynau a’r pwyntiau a wnaed brynhawn heddiw— pwyntiau gwerthfawr iawn—gan yr Aelodau. Fel yr wyf wedi dweud, i fod yn gymwys i gael credyd treth, mae'n rhaid i gyfraniadau gael eu gwneud i gorff amgylcheddol cofrestredig a fyddai'n ymgymryd â phrosiect o fewn 10 milltir i safle tirlenwi. O safbwynt rheoleiddio yn y dyfodol a rôl ENTRUST, rwy’n meddwl y bu rhywfaint o bryder ynghylch costau ENTRUST fel rheoleiddiwr. Mae'n cael ei adolygu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar hyn o bryd. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae 11.4% yn cael ei wario ar weinyddu cyrff amgylcheddol, ac mae angen inni leihau costau gweinyddol fel y gall y cyllid gyrraedd y prosiect amgylcheddol. Mae ardoll o 2.17% yn cael ei defnyddio i ariannu ENTRUST. Felly, rwy’n meddwl bod gennym gyfle i edrych ar hyn, ac rwy’n meddwl bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn edrych ar hynny hefyd o ran y dreth dirlenwi yn y DU, ac yn edrych i sicrhau y gall ein cymunedau elwa yn briodol, fel y dywedwch, ond hefyd ein bod yn gwneud yn siŵr ei bod yn agored, yn dryloyw a bod ymwybyddiaeth lawn yn genedlaethol ac yn lleol o’r cyfleoedd i gael budd o'r cronfeydd amgylcheddol sydd ar gael.

Senedd.tv Fideo Video

15:59

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

Senedd.tv Fideo Video

15:59

# 5. Trefn Trafod y Gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

# 5. Order of Consideration of Amendments for the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Trefn trafod y gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y cynnig—Leighton Andrews.

Order of consideration of amendments for the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill: I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5697 Leighton Andrews

Motion NDM5697 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 2-25

a) sections 2-25

b) adran 1

b) section 1

c) Teitl Hir.

c) Long title.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:00

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Yn ffurfiol.

Formally.

Senedd.tv Fideo Video

16:00 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid oes ceisiadau i siarad yn y ddadl yma. A ydych chi am ymateb i'ch sylwadau agoriadol, Weinidog? Nag ydych. Felly, y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

There are no requests to speak on this debate. Do you want to respond to your opening comments, Minister? No. Therefore the proposal is to agree the motion. Does any Member object? Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:00.*

*Sandy Mewies took the Chair at 16:00.*

16:00

## 6. Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015-16

## 6. Debate on the Police Settlement 2015-16

Senedd.tv Fideo Video

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Item 6 is the debate on the police settlement. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Eitem 6 yw'r ddadl ar setliad yr heddlu. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5699 Jane Hutt

Motion NDM5699 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2015-2016 (Setliad Terfynol—Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu).

Under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 2) 2015-16 (Final Settlement—Police and Crime Commissioners).

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Today, I am presenting to the Assembly for its approval the details of the Welsh Government's contribution to police funding for 2015-16 for the four police and crime commissioners in Wales.

Heddiw, rwyf yn cyflwyno i'r Cynulliad eu cymeradwyo fanylion cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyllid yr heddlu ar gyfer 2015-16 ar gyfer y pedwar comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru.

Home Office funding cuts will, of course, hit all police forces in Wales, and the overall funding picture is determined by Home Office investment. The Home Office provides police grant and top-up support, which will mean no Welsh police force receives a reduction in core funding of more than 5.1% in 2015-16, compared with this year. Total support for the police service in Wales for 2015-16 amounts to £357 million. Our contribution to this amount through the revenue support grant is £135 million, and this is the funding the Assembly is being asked to approve today.

Bydd toriadau cyllid y Swyddfa Gartref, wrth gwrs, yn taro pob heddlu yng Nghymru, a buddsoddi gan y Swyddfa Gartref sy'n pennu'r darlun cyllido cyfan. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu grant yr heddlu a chymorth atodol, a fydd yn golygu na fydd cyllid craidd yr un heddlu yng Nghymru'n gostwng mwy na 5.1% yn 2015-16, o gymharu ag eleni. £357 miliwn yw cyfanswm y cymorth i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru ar gyfer 2015-16. Byddwn ni'n cyfrannu £135 miliwn at y swm hwn drwy'r grant cynnal refeniw, a dyma'r arian y gofynnir i'r Cynulliad ei gymeradwyo heddiw.

The Home Office has continued formula damping to ensure every police force across England and Wales receives the same percentage reduction. To meet this target, the Home Office provides a top-up grant totalling £12.5 million for Dyfed-Powys and North Wales. Without this grant, the cash reductions for these forces would be even greater. However, this is undoubtedly a challenging settlement for Welsh forces at a time when they are facing unprecedented cuts. It will require difficult choices in order to protect front-line policing. The unprecedented financial challenges mean now more than ever that public service providers must strive to identify opportunities to work together and build collaborative efforts around shared outcomes.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i leddfu'r fformiwla er mwyn sicrhau bod pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn cael yr un gostyngiad canrannol. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyfanswm grant atodol o £12.5 miliwn i Ddyfed-Powys a Gogledd Cymru. Heb y grant hwn, byddai'r gostyngiadau arian parod i'r heddluoedd hyn yn fwy byth. Fodd bynnag, mae hwn yn ddi-os yn setliad heriol i heddluoedd yng Nghymru ar adeg pan fônt yn wynebu toriadau digynsail. Bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd er mwyn amddiffyn plismona rheng flaen. Mae'r heriau ariannol hyn na welwyd mo'u tebyg o'r blaen yn golygu yn awr yn fwy nag erioed o'r blaen fod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ymdrechu i ddod o hyd i gyfleoedd i gydweithio a meithrin ymdrechion cydweithredol ar sail canlyniadau a rennir.

Despite the reductions to our own budget, we have protected our investment in the recruitment of 500 community support officers across Wales. The full complement of officers has been deployed since October 2013, and they're making a positive contribution to public safety across Wales. A vital part of their role is actively engaging with partners and community organisations to address anti-social behaviour and related criminal activity.

Er gwaethaf y gostyngiadau i'n cyllideb ninnau, rydym wedi diogelu ein buddsoddiad er mwyn recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru. Mae cyflenwad llawn y swyddogion hyn ar waith ers mis Hydref 2013, ac maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddiogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Un elfen hanfodol o'u swyddogaeth yw ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau cymunedol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol cysylltiedig.

The Welsh Government, working in partnership with the four Welsh police forces and the British Transport Police, has introduced this additional resource that is helping to make a real difference to the lives of people in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio mewn partneriaeth â phedwar heddlu Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, wedi cyflwyno'r adnodd ychwanegol hwn sy'n helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru.

Collectively, we know that public services in Wales face significant challenges in relation to future funding. This underlines the need for greater collaboration, innovation and transformation in the way public services are delivered. Police forces in Wales have an enviable record of collaboration between themselves and the wider public sector, and I've encouraged other public service leaders in Wales to look to the lessons they can adopt from the approach taken by the police.

Gyda'n gilydd, rydym yn gwybod bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n wynebu heriau sylweddol o safbwynt cyllid yn y dyfodol. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am fwy o gydweithio, arloesi a thrawsnewid yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Mae gan heddluoedd yng Nghymru record ragorol o gydweithio â'r sector cyhoeddus ehangach, ac rwyf wedi annog arweinwyr eraill gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i edrych ar y gwersi y gellir eu mabwysiadu o ymagwedd yr heddlu.

Today's motion is to agree the local government finance report for police and crime commissioners, which has been laid before the Assembly. If approved, this will allow the commissioners to set their budgets by the end of February, a deadline that is set out in statute. I therefore ask Assembly Members to support this motion today.

Y cynnig heddiw yw derbyn yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu, sydd wedi ei osod gerbron y Cynulliad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hyn yn caniatáu i'r comisiynwyr bennu eu cyllidebau erbyn diwedd mis Chwefror, sy'n ddyddiad sydd wedi'i nodi mewn statud. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

16:03

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conservative spokesperson, Mark Isherwood.

Llefarydd y Ceidwadwyr, Mark Isherwood.

16:04

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Regarding the confirmation by the Home Office that no Welsh police force will receive a funding decrease of more than 5.1% for 2015-16, I commend the generally positive way police and crime commissioners and panels have determined their 2015-16 police precept.

O ran cadarnhad y Swyddfa Gartref na fydd cyllid yr un heddlu yng Nghymru'n gostwng mwy na 5.1% ar gyfer 2015-16, cymeradwyaf y ffordd gadarnhaol y mae comisiynwyr yr heddlu a throseddu a'r paneli at ei gilydd wedi penderfynu ar braesept yr heddlu ar gyfer 2015-16.

This will deliver increases in the amount council tax payers pay towards police services, at 5% in South Wales, 3.9% in Gwent, 3.44% in North Wales—17p a week for households—and a payment reduction of 5% for Dyfed-Powys households. As South Wales Police Federation state, the increase there only closes the gap between themselves and other Welsh forces. The north Wales police and crime commissioner states that the increase there is vital to the ability of the force to keep north Wales a safe place. The chair of the Gwent police and crime panel states that the increase there will ensure that Gwent Police have the necessary resources to continue to reassure and protect their residents. The Dyfed-Powys police commissioner states that the reduction there, made possible by tough decisions to deliver efficiency and the hard work of the chief constable, his officers and staff, will lighten the load on the hard-pressed householders of an economically poor region. His decision brings their precept more in line with others in Wales and, as the commissioner states, the result will be

Bydd hyn yn cynyddu’r swm y mae’r rhai sy'n talu treth y cyngor yn ei dalu tuag at wasanaethau heddlu, 5% yn Ne Cymru, 3.9% yng Ngwent, 3.44% yng Ngogledd Cymru—17c yr wythnos i aelwydydd—ac yn gostwng taliad cartrefi Dyfed-Powys 5%. Fel y mae Ffederasiwn Heddlu De Cymru yn ei ddweud, y cwbl y mae’r cynnydd yno’n ei wneud yw cau'r bwlch rhyngddynt hwy a heddluoedd eraill yng Nghymru. Mae comisiynydd heddlu a throseddu Gogledd Cymru’n nodi bod y cynnydd yno yn hanfodol i allu'r heddlu i gadw gogledd Cymru yn lle diogel. Mae cadeirydd panel heddlu a throseddu Gwent yn datgan y bydd y cynnydd yno yn sicrhau bod gan Heddlu Gwent yr adnoddau sydd eu hangen i barhau i dawelu meddyliau a diogelu ei drigolion. Mae comisiynydd heddlu Dyfed-Powys yn nodi y bydd y gostyngiad yno, a sicrhawyd drwy benderfyniadau anodd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a thrwy waith caled y prif gwnstabl, ei swyddogion a’i staff, yn ysgafnhau'r baich ar ddeiliaid tai sydd dan bwysau mewn ardal sy’n economaidd dlawd. Mae ei benderfyniad yn dod â’u praesept yn agosach at rai eraill yng Nghymru, ac fel y mae’r comisiynydd yn ei nodi, y canlyniad fydd

‘more, and improved, policing for less money’

mwy o blismona a phlismona gwell am lai o arian

with 100,000 extra hours on the beat.

gyda 100,000 o oriau ychwanegol ar y rhawd.

Her Majesty’s Inspectorate of Constabulary has found that the police are successfully meeting the challenge of balancing their books while protecting the front line and delivering reductions in crime. This UK Government has made it easier for the police to do their job by cutting red tape, scrapping unnecessary targets and giving forces the discretion to use professional judgment. According to the independent Crime Survey for England and Wales, crime across the UK has fallen by more than a fifth under this Government of the UK. The policing Minister has said that the police funding settlement is ‘challenging’, but the reduction in crime demonstrates that

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi canfod bod yr heddlu’n bodloni her mantoli ei llyfrau ac ar yr un pryd yn diogelu’r rheng flaen ac yn lleihau troseddu. Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn haws i'r heddlu wneud eu gwaith trwy dorri biwrocratiaeth, cael gwared ar dargedau diangen a rhoi disgresiwn i heddluoedd i arfer crebwyll proffesiynol. Yn ôl yr Arolwg Troseddu annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr, mae troseddau ledled y DU wedi gostwng mwy nag un rhan o bump o dan y Llywodraeth hon yn y DU. Mae'r Gweinidog plismona wedi dweud bod setliad cyllid yr heddlu yn 'heriol', ond mae'r gostyngiad mewn troseddu’n dangos

‘there is no simple link between officer numbers and crime levels, the visibility of the police in the community and the quality of service provided.’

nad oes cysylltiad syml rhwng niferoedd swyddogion a lefelau troseddu, amlygrwydd yr heddlu yn y gymuned ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Whilst the crime survey reveals that crime in Wales increased by 17% after 2011, the crime level is still half that reported 20 years previously, and the rise driven by sexual offences and violent crime had been expected by experts. As the Gwent police and crime commissioner states, the increase in recorded crime was an 'inevitable consequence' of the change in recording practices, with Gwent's chief constable adding that the increase reflects 'improved accuracy' of crime recording as well as 'people's willingness to report crimes'. Statisticians said the rise was down to improvement in recording as well as a greater willingness of victims to come forward. Despite this, in the year to September 2014, overall police recorded crime in Wales increased by only 2%, with zero increase in north Wales. Overall, crime measured by the independent crime survey has fallen by 27%, and police-recorded crime by 16% since 2010, including reductions of 12% in South Wales, 14% in Dyfed-Powys, 16% in North Wales and 27% in Gwent. The Crime Survey for England and Wales, reflecting experience of crime, revealed an 11% fall in crime to 7 million incidents last year, from 7.9 million the previous year: the lowest estimate since the survey began in 1981.

Er bod yr arolwg troseddu'n datgelu bod troseddu yng Nghymru wedi cynyddu 17% ar ôl 2011, mae lefelau troseddu yn dal i fod yn hanner yr hyn a adroddwyd 20 mlynedd ynghynt, ac roedd yr arbenigwyr yn disgwyl y cynnydd wedi'i yrru gan droseddau rhywiol a throseddau treisgar. Fel y mae comisiynydd heddlu a throseddu Gwent yn ei ddatgan, roedd y cynnydd mewn troseddau a gofnodwyd yn 'ganlyniad anochel' i'r newid mewn arferion cofnodi, ac ychwanegodd prif gwnstabl Gwent fod y cynnydd yn adlewyrchu 'mwy o gywirdeb' wrth gofnodi troseddau yn ogystal â 'pharodrwydd pobl i roi gwybod am droseddau'. Dywedodd ystadegwyr fod y cynnydd yn ganlyniad i gofnodi gwell, yn ogystal â mwy o barodrwydd ymhlith dioddefwyr i ddod ymlaen. Er gwaethaf hyn, yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2014, dim ond 2% o gynnydd a welwyd mewn troseddu a gofnodwyd gan yr heddlu yn gyffredinol yng Nghymru, a dim cynnydd yng Ngogledd Cymru. At ei gilydd, mae troseddau a fesurwyd drwy'r arolwg troseddu annibynnol wedi gostwng 27%, a throseddu a gofnodwyd gan yr heddlu wedi gostwng 16% ers 2010, gan gynnwys gostyngiadau o 12% yn Ne Cymru, 14% yn ardal Dyfed-Powys, 16% yng Ngogledd Cymru a 27% yng Ngwent. Datgelodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, sy'n adlewyrchu profiadau o droseddu, ostyngiad o 11% mewn troseddu i 7 miliwn o ddigwyddiadau y llynedd, o 7.9 miliwn y flwyddyn cyn hynny: yr amcangyfrif isaf ers i'r arolwg ddechrau yn 1981.

Of course, it's déjà vu all over again for political debate about police structures. We should remind ourselves that two committee inquiries during the second Assembly into the police merger proposed then, in which I took part, found that a merger of Welsh police forces would have generated deficits of up to £120 million by 2012. The then Home Secretary had the sense to suspend those mergers accordingly. Our report also noted that criminal activity does not recognise national or regional boundaries, and that cross-border partnerships must reflect operational reality. As I said then, almost all the population of Wales lies along the M4 and A55 corridors, separated by a vast expansive rural hinterland, geography, history, transport links and very different policing requirements. As my contacts in North Wales Police told me recently, they have a closer affiliation with north-west England than the rest of Wales, and there is a lack of competence in Welsh Government to handle the devolution of policing. To proceed with this would, therefore, be damaging and irresponsible.

Wrth gwrs, mae'n déjà vu unwaith eto o ran trafodaeth wleidyddol ar strwythurau'r heddlu. Dylem ein hatgoffa ein hunain fod dau ymchwiliad pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad i uno'r heddluoedd a oedd yn yr arfaeth bryd hynny, y cymerais i ran ynddynt, wedi canfod y byddai uno heddluoedd Cymru wedi creu diffygion o hyd at £120 miliwn erbyn 2012. Roedd gan yr Ysgrifennydd Cartref bryd hynny ddigon o grebwyll i atal yr uno hwnnw o'r herwydd. Nododd ein hadroddiad hefyd nad yw gweithgarwch troseddol yn cydnabod ffiniau cenedlaethol neu ranbarthol, a bod yn rhaid i bartneriaethau trawsffiniol adlewyrchu'r realiti gweithredol. Fel y dywedais bryd hynny, mae holl boblogaeth Cymru bron yn gorwedd ar hyd coridorau'r M4 a'r A55, ac yn eu rhannu mae cefn gwlad helaeth ac eang, daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau trafnidiaeth a gofynion plismona gwahanol iawn. Fel y dywedodd fy nghysylltiadau yn Heddlu Gogledd Cymru wrthyf yn ddiweddar, mae ganddynt gysylltiad agosach â gogledd-orllewin Lloegr na gweddill Cymru, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd i ymdrin â datganoli plismona. Byddai bwrw ymlaen â hyn, felly, yn niweidiol ac yn anghyfrifol.

16:09 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The figures for policing, really, over the past five years or so, and for the coming five years, are, in fact, very, very bleak for our constituencies. The area that obviously concerns me most, as a former member of the South Wales Police Authority—many years ago—is, of course, that we see a juxtaposition between the cuts in policing and increasing complaints. Only this year, complaints in the south Wales area have increased by 15%. But, it's important that we understand the actual impact on our communities, and I'd like to talk a little bit about PCSOs in a moment. Between 2010 and 2014, we lost 572 officers in Wales: an 8% cut. There'll be a further 1,100 across the UK over the next year, anticipated. The Association of Chief Police Officers, for the whole of the UK, anticipate the loss of some 34,000 police jobs and officers over the course of the next five years. The impact on our communities has been dire, to such an extent that, in actual fact, police numbers in the South Wales Police area—under the effect of these cuts—will be lower than it was in 1979. We'll be hitting almost a 40-year low in the number of police officers. The reason I mention that is because it makes all the more important what the Welsh Government is doing to actually protect our communities and to give support to our communities through the police community support officers.

Mae'r ffigurau ar gyfer plismona, a dweud y gwir, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac am y pum mlynedd nesaf, mewn gwirionedd, yn llwm iawn, iawn ar gyfer ein hetholaethau. Yr hyn sy'n fy mhoeni fwyaf, wrth gwrs, fel cyn aelod o Awdurdod Heddlu De Cymru—flynyddoedd lawer yn ôl—yw ein bod yn gweld gwrthgyferbyniad rhwng y toriadau i blismona a nifer cynyddol o gwynion. Eleni yn unig, mae cwynion yn ardal de Cymru wedi cynyddu 15%. Ond mae'n bwysig ein bod yn deall yr effaith wirioneddol ar ein cymunedau, a hoffwn sôn ychydig am swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu mewn munud. Rhwng 2010 a 2014, collwyd 572 o swyddogion yng Nghymru: toriad o 8%. Bydd 1,100 yn rhagor yn mynd ledled y DU dros y flwyddyn nesaf—dyna a ragwelir. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, ar gyfer y DU gyfan, yn rhagweld y collir rhyw 34,000 o swyddi a swyddogion yr heddlu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r effaith ar ein cymunedau wedi bod yn enbyd, i'r fath raddau bod niferoedd yr heddlu yn ardal Heddlu De Cymru—dan effaith y toriadau hyn—mewn gwirionedd yn is nag yr oedd yn 1979. Byddwn yn cyrraedd man isaf ers bron i 40 mlynedd o ran nifer swyddogion yr heddlu. Y rheswm yr wyf yn sôn am hynny yw ei fod yn gwneud yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i amddiffyn ein cymunedau mewn gwirionedd ac i roi cefnogaeth i'n cymunedau drwy swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu hyd yn oed yn bwysicach.

I have been going around various parts of my constituency with the police community support officers and there are two things I'd like to say. First of all, they're not police officers, but the actual role that they play in the community, I think, has become embedded in those communities and is extremely valuable to them. In fact, just going around Rhydyfelin, for example, I only managed to get about 100m in an hour because of the number of people that we had to stop and talk to with the police community support officer over that period of time. So, it seems to me that it's absolutely vital what we're doing and, of course, this was a commitment by the Welsh Labour Government in its manifesto—one that has been honoured but one that has also made a massive contribution to our communities.

Rwyf wedi bod yn mynd o gwmpas gwahanol rannau o'm hetholaeth gyda swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ac mae dau beth yr hoffwn ei ddweud. Yn gyntaf oll, nid swyddogion yr heddlu mohonynt, ond mae eu swyddogaeth yn y gymuned, yn fy marn i, wedi dod yn rhan annatod o'r cymunedau hynny ac yn hynod werthfawr iddynt. Yn wir, dim ond o fynd o amgylch Rhydyfelin, er enghraifft, dim ond rhyw 100m y llwyddais i gerdded mewn awr oherwydd nifer y bobl yr oedd yn rhaid inni aros i siarad â hwy gyda swyddog cymorth cymunedol yr heddlu dros y cyfnod hwnnw. Felly, mae'n ymddangos i mi fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gwbl hanfodol ac, wrth gwrs, roedd hyn yn ymrwymiad gan Lywodraeth Lafur Cymru yn ei maniffesto—un sydd wedi ei anrhydeddu, ond un sydd hefyd wedi gwneud cyfraniad aruthrol i'n cymunedau.

The area of concern that I do have about police community support officers is this: what seems to be happening in some of our communities is that, as the PCSOs gain more and more knowledge of the local community, and actually establish a relationship with the community, one of the problems then is, of course, that they go on to be selected for training to become police officers. So we actually lose that, and that has become a bit of a trend over the past year or two. What I am concerned about is that we develop community support officers specifically as that—as longer term careers, rather than as a feeder ground for police training itself. The role, both in terms of the interaction with the community, in terms of information on policing, and also the perception of policing and wellbeing that they actually create in our communities is vital, but it's important that we allow them to develop those careers and retain the skills and the knowledge that they develop within their communities. Perhaps I would like to ask the extent to which, first, the PCSOs are secure for the future, that we actually recognise their particular role, but what can we do to ensure and to enhance the actual role they're playing, their training, and the retention of their community skills over the coming years. Because there is no doubt in my mind that their role is going to become more and more vital over the coming year, as the impact of the Tory cuts actually takes effect on our communities.

Yr hyn yr wyf yn pryderu yn ei gylch o ran swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yw hyn: mae'n ymddangos mai'r hyn sy'n digwydd yn rhai o'n cymunedau mewn gwirionedd, wrth i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ddod i wybod mwy a mwy am y gymuned leol, a meithrin perthynas â'r gymuned, yw mai un o'r problemau wedyn, wrth gwrs, yw eu bod yn mynd ymlaen i gael eu dewis i hyfforddi i fod yn swyddogion yr heddlu. Felly rydym mewn gwirionedd yn colli hynny, ac mae hynny wedi dod yn dipyn o duedd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Yr hyn yr wyf yn pryderu amdano yw ein bod yn datblygu swyddogion cymorth cymunedol yn benodol at y diben hwnnw—fel gyrfaoedd tymor hwy, yn hytrach na chyfle i fwydo hyfforddiant yr heddlu ei hun. Mae'r swyddogaeth, o ran yr ymadweithio â'r gymuned, o ran gwybodaeth am blismona, a hefyd y canfyddiad y maent yn ei greu am blismona a lles yn ein cymunedau yn hollbwysig, ond mae'n bwysig ein bod yn eu galluogi i ddatblygu'r gyrfaoedd hynny a chadw'r sgiliau a'r wybodaeth y maent yn eu datblygu o fewn eu cymunedau. Hoffwn ofyn i ba raddau, yn gyntaf, y mae swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn ddiogel at y dyfodol, a'n bod mewn gwirionedd yn cydnabod eu swyddogaeth benodol, ond beth y gallwn ei wneud i sicrhau ac i wella eu swyddogaeth wirioneddol, eu hyfforddiant, a chadw eu sgiliau cymunedol dros y blynyddoedd nesaf? Oherwydd nid oes gennyf amheuaeth nad yw eu swyddogaeth yn mynd i ddod yn fwyfwy hanfodol yn ystod y flwyddyn i ddod, wrth i effaith toriadau'r Torïaid effeithio ar ein cymunedau.

16:13

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

16:13

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rydych chi wedi amlinellu'r setliad ar gyfer yr heddlu ac wedi dweud bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr hyn sydd o fewn ei gallu i amddiffyn y gyllideb honno yn wyneb y toriadau sydd yn dod o San Steffan. Ond y gwir yw mai rhyw draean o'r gyllideb sy'n cael ei chyfrannu gan Lywodraeth Cymru, felly mae unrhyw ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu cyllideb yr heddlu, wrth gwrs, yn fach iawn o'u cymharu â'r toriadau sydd yn dod o gyllideb y glymblaid yn San Steffan. Roeddwn i'n gwrando ar lefarydd y Ceidwadwyr yn ceisio dadlau bod torri'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn yn mynd i wneud yr heddlu yn fwy effeithiol ac yn mynd i wella gwasanaethau. Wel, os oedd yna enghraifft glasurol o ystadegau'n cael eu defnyddio i brofi unrhyw beth, dyna ni. Mae unrhyw un yn gallu gweld bod toriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn mynd i gael effaith ar y modd rydym ni'n cael ein plismona yng Nghymru ac mae yna doriadau'n mynd i fod i wasanaethau sylfaenol yn ein cymunedau ni; rydym ni'n gwybod hynny yn iawn.

Minister, you've outlined the settlement for the police and said that the Welsh Government has done what it can to protect that budget in light of the cuts coming from Westminster. But, in reality, the Welsh Government provides about a third of the budget, so any attempt by the Welsh Government to safeguard police funding, of course, is very small compared with the cuts coming from the coalition's budget at Westminster. I listened to the Conservative spokesperson trying to argue that cutting the budget, year after year, will make the police more effective and will improve services. Well, if there was a classic example of statistics being used to prove anything, that was it. Anyone can see that cuts, year after year, will have an impact on the way we are policed here in Wales and there will be cuts to fundamental services in our communities; we know that.

Yn rhyfedd ddigon, yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, mae'r comisiynydd heddlu a throsedd yn y fan honno am ychwanegu at y toriadau yma trwy dorri'r praesept sydd yn dod i'r heddlu. Os nad yw'r toriadau sydd yn dod oddi wrth y glymblaid yn San Steffan yn ddigonol, mae eu gwas nhw yn Nyfed-Powys am ychwanegu at y toriadau hynny. A beth ydym ni'n ei weld? Un o'r pethau rydym ni'n weld yw'r gwasanaeth hofrennydd—a oedd wedi ei leoli ym Mhen-bre—yn cael ei golli, yn yr un modd ag y gwnaeth y safle yn Rhuddlan yn sir Ddinbych gael ei golli. Fe roedd llefarydd y Ceidwadwyr yn sôn am dirlun Cymru; wel, mae ei ddisgrifiad ef o dirlun Cymru yn ddadl arbennig o dda dros gadw'r safle ym Mhen-bre a chadw'r safle yn Rhuddlan, oherwydd dim ond trwy ddefnydd o'r safleoedd hynny y gellir sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn effeithiol. A wnaiff y Gweinidog, y prynhawn yma, fynegi ei gefnogaeth ef i'r frwydr i gadw'r safleoedd hollbwysig yma ym Mhen-bre ac yn Rhuddlan hefyd?

Strangely enough, in the Dyfed-Powys Police area, the police and crime commissioner there wants to add to those cuts by cutting the precept made available to the police. If the cuts emerging from the coalition in Westminster aren't enough, their servant in Dyfed-Powys wants to add to them. And what do we see? One thing we see is that the helicopter service—which was located in Pembrey—is to be lost, and the same is true of the site in Rhuddlan in Denbighshire. The Conservative spokesperson mentioned the Welsh landscape; well, his description of the Welsh landscape is a particularly strong argument for retaining the site in Pembrey and the site in Rhuddlan, because it is only through the use of those sites that we can ensure that the service is effective. Will the Minister, this afternoon, express his support for the battle to keep these crucially important sites in Pembrey and in Rhuddlan?

Mewn gwirionedd, onid yr hyn rydym wedi'i glywed y prynhawn yma yw'r ddadl gryfaf bosibl dros ddatganoli plismona yn llwyr i'r lle yma, fel ein bod yn gallu cael dadl synhwyrol ynglŷn â'r cyllid sydd ei angen er mwyn cynnig gwasanaeth plismona effeithiol? A wnaiff y Gweinidog ddatganiad clir y prynhawn yma fod y Llywodraeth yn cefnogi argymhellion comisiwn Silk y dylai plismona gael ei ddatganoli ac na ddylai elfen o hynny fod yn fater i'w gadw yn ôl? Mae yna ryw ychydig o elfennau yn y datganiad a wnaeth Ed Miliband yng nghynhadledd Llafur yn ddiweddar a oedd yn awgrymu ei fod am gadw elfennau o'r rheini yn ôl. 'Does bosib ein bod ni wedi dysgu'r wers o'r setliad cyfansoddiadol a gawsom yn y lle cyntaf: bod yn rhaid cael y gwahaniaeth clir yma rhwng yr hyn sydd wedi ei ddatganoli a'r hyn sydd ddim wedi ei ddatganoli.

In fact, isn't what we've heard this afternoon the strongest possible argument for the devolution of policing in its entirety to this place, so that we can have a sensible debate on the funding required in order to provide effective policing services? Would the Minister make a clear statement this afternoon that the Government supports the recommendations made by the Silk commission that policing should be devolved to Wales and that no element should be reserved in Westminster? Some elements of the statement made by Ed Miliband in the recent Labour conference suggested that he wanted to retain some of those powers in Westminster. Surely we have learnt the lesson from our initial constitutional settlement: that we must have that clear differential between what is devolved and what is retained or reserved.

A gaf i ategu'r hyn yr oedd Mick Antoniw yn ei ddweud ynglŷn â swyddogion cymunedol? Maen nhw'n gwneud gwasanaeth eithriadol o bwysig ac, yn aml iawn, maen nhw'n bobl leol sy'n adnabod eu cymunedau ac yn adnabod y problemau sy'n bodoli o fewn eu cymunedau nhw. Er ei fod yn dda iawn i'w gweld yn cael eu hyfforddi i fod yn blismyn, a bod hynny'n llwybr pwysig o ran eu gyrfaoedd nhw, rwy'n cytuno â Mick Antoniw: mae hynny'n codi cwestiwn ynglŷn â sut rydych chi'n sicrhau bod yna ddigon o niferoedd yn dod trwy'r system i lenwi'r bylchau hynny. Ond, gadewch i ni gofio nad plismyn yw'r swyddogion cymunedol yma. Mae ganddynt rôl benodol i'w chyflawni, ond nid oes modd dadlau bod penodi swyddog cymunedol yn gwneud yn iawn am golli plismyn sy'n weithredol yn ein cymunedau ni.

May I add to Mick Antoniw's comments on the PCSOs? They do exceptionally important work and, very often, they are local people who know their communities and can identify the problems that exist within those communities. Although it's good to see them being trained to become police officers, and that that is an important career route for them, I agree with Mick Antoniw: this does raise a question as to how you ensure that you have adequate numbers coming through the system to fill those vacancies. However, let us bear in mind that these PCSOs are not police officers. They have a very specific role, but one cannot argue that appointing a PCSO makes up for the loss of police officers working within our communities.

Fe fyddwn ni'n atal ein pleidlais ar y setliad yma yn unig oherwydd nad yw'r hyn y mae Llywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, yn gallu ei wneud yn gwneud yn iawn am y colledion sydd yn dod, a'r cwtogi sydd yn dod, o'r glymblaid yn San Steffan, ac fe fydd yna doriadau i wasanaethau yng Nghymru.

We will abstain on this settlement simply because what the Welsh Government is able to do doesn't make up for the significant losses and the serious cuts being made by the coalition in Westminster, and there will be cuts to services in Wales as a result.

16:18 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to make a short contribution to this important debate: a key function of this Assembly is passing and scrutinising the police and crime commissioners' budgets. Certainly, as a former police officer myself, I know, first-hand, how important it is to ensure our police have the resources necessary, but also the need to deliver value for money. Like any public service, the police have to ensure that money is being spent wisely and prudently.

Rwyf yn falch o wneud cyfraniad byr i'r ddadl bwysig hon: un o swyddogaethau allweddol y Cynulliad hwn yw pasio a chraffu ar gyllidebau comisiynwyr yr heddlu a throseddu. Yn sicr, fel cyn swyddog yr heddlu fy hun, rwyf yn gwybod, o brofiad uniongyrchol, pa mor bwysig yw sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol gan ein heddluoedd, ond hefyd fod angen sicrhau gwerth am arian. Fel unrhyw wasanaeth cyhoeddus, rhaid i'r heddlu sicrhau bod arian yn cael ei wario'n ddoeth ac yn ofalus.

You will not be surprised to learn that, much like the people of Mid and West Wales, I cannot but have some admiration for the work undertaken by their police and crime commissioner, Chris Salmon. He has very quietly, but quite determinedly taken tough decisions: for example, restructuring and removing departments rather than slicing them. He's cut senior pay: the top 10 salaries, of course, in Dyfed-Powys are being reduced by 20%. At the same time, he's also invested wisely in mobile IT and cut a great deal of red tape.

Ni fyddwch yn synnu o glywed, yn debyg iawn i bobl Canolbarth a Gorllewin Cymru, na allaf ond edmygu'r gwaith a wnaed gan eu comisiynydd heddlu a throseddu, Chris Salmon. Mae wedi gwneud penderfyniadau anodd yn dawel iawn, ond yn eithaf penderfynol: er enghraifft, ailstrwythuro a chael gwared ar adrannau yn hytrach na'u torri. Mae wedi torri cyflogau uwch: mae'r 10 cyflog uchaf, wrth gwrs, yn ardal Dyfed-Powys yn gostwng 20%. Ar yr un pryd, mae hefyd wedi buddsoddi'n ddoeth mewn TG symudol a thorri llawer iawn o fiwrocratiaeth.

16:19 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byron, will you take an intervention?

Byron, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:19 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I will.

Gwnaf.

16:19 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byron, you refer to the police and crime commissioner in Dyfed-Powys. Are you aware that the commissioner has stated quite clearly that he would defend the helicopter site at Pembrey and ensure its future? Why, now, has he reversed his decision on that, because that site is going to be lost?

Byron, rydych yn cyfeirio at gomisiynydd yr heddlu a throseddu yn Nyfed-Powys. A ydych yn gwybod bod y comisiynydd wedi dweud yn eithaf clir y byddai'n amddiffyn safle'r hofrennydd ym Mhen-bre ac yn diogelu ei ddyfodol? Pam y mae, yn awr, wedi gwyrdroi ei benderfyniad ar hynny, oherwydd mae'r safle hwnnw'n mynd i gael ei golli?

16:19 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't think he has reversed his decision. The fact is that that wasn't a decision for him to make. So, at the same time, as I say, he's invested wisely in mobile IT, which, of course, has given us 100,000 hours extra of police time in 2015. Now, it's not a numbers game: it's not all about employing more police officers; it's about the managed deployment of resources. That's what policing is about. In addition to focusing on the public first, following the time-true saying, which is especially true in the police service, an organisation's needs should follow public needs, not the organisation's needs. This is best exemplified by more flexible opening hours in police stations.

Nid wyf yn credu ei fod wedi gwyrdroi ei benderfyniad. Y ffaith yw nad oedd yn benderfyniad iddo ef ei wneud. Felly, ar yr un pryd, fel y dywedais, mae wedi buddsoddi'n ddoeth mewn TG symudol, sydd, wrth gwrs, wedi rhoi 100,000 o oriau ychwanegol o amser yr heddlu yn 2015. Yn awr, nid gêm rifau mo hon: nid yw'n fater o ddim ond cyflogi mwy o swyddogion yr heddlu; mae'n fater o reoli'r ffordd y defnyddir adnoddau. Dyna yw plismona. Yn ogystal â chanolbwyntio ar y cyhoedd yn gyntaf, sy'n arbennig o berthnasol yng ngwasanaeth yr heddlu, dylai anghenion sefydliad ddilyn anghenion y cyhoedd, nid anghenion y sefydliad. Amlygir hyn orau drwy oriau agor mwy hyblyg mewn gorsafoedd heddlu.

Chris Salmon and his team in Dyfed-Powys are now returning savings already made to taxpayers by not increasing the precept. Police are operationally effective and the public pay less for it: the lowest in Wales, in fact, according to this report.

Mae Chris Salmon a'i dîm yn Nyfed-Powys yn awr yn sicrhau arbedion a wnaed eisoes i drethdalwyr drwy beidio â chynyddu'r praesept. Mae'r heddlu'n weithredol effeithiol ac mae'r cyhoedd yn talu llai amdano: yr isaf yng Nghymru, a dweud y gwir, yn ôl yr adroddiad hwn.

16:20 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an amendment, Byron?

A wnewch chi dderbyn gwelliant, Byron?

16:20

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

16:20

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It also has the highest proportion of front-line officers in Wales. No, let me finish, please, Keith.

Mae ganddo hefyd y gyfran uchaf o swyddogion rheng flaen yng Nghymru. Na, gadewch imi orffen, os gwelwch yn dda, Keith.

This, sadly, Members, is in stark contrast to other police forces in Wales, and south Wales in particular, where we can see, in this report, it's increasing the precept by 5% and has shut front-desk operations across south Wales and has taken none of the tough decisions that we've seen taken in Dyfed-Powys.

Mae hyn, yn anffodus, Aelodau, yn gwbl wahanol i heddluoedd eraill yng Nghymru, a de Cymru'n benodol, lle y gallwn weld, yn yr adroddiad hwn, fod y praesept yn cynyddu 5% ac mae wedi cau gweithrediadau'r ddesg flaen ar draws de Cymru a heb wneud yr un o'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u gweld yn cael eu gwneud yn Nyfed-Powys.

It would be very easy for me just to stand here and say that this is the usual comparison between competence under a Conservative commissioner and chaos under a Labour commissioner. However, our police services deserve better and the people who I represent deserve better from South Wales Police. They need to understand that many pensioners, for example, in the Gower area, very rarely see the posted police officer. With issues in the centre of Swansea at weekends, it can take 20 to 25 minutes for police officers to arrive at the other end of the peninsula. That can't be right, because—[Interruption.]

Byddai'n hawdd iawn imi sefyll yma a dweud mai dyma'r gymhariaeth arferol rhwng gallu o dan gomisiynydd Ceidwadol ac anhrefn o dan gomisiynydd Lafur. Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau heddlu yn haeddu gwell ac mae'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli yn haeddu gwell gan Heddlu De Cymru. Mae angen iddynt ddeall mai anaml iawn y mae llawer o bensiynwyr, er enghraifft, yn ardal Gŵyr, yn gweld swyddog penodedig yr heddlu. Gyda phroblemau yng nghanol Abertawe ar benwythnosau, gall gymryd 20 i 25 munud i swyddogion yr heddlu gyrraedd pen arall y penrhyn. Ni all hynny fod yn iawn, oherwydd—[Torri ar draws.]

Finally, I just want to put on record my deep concerns, as someone who has an understanding of policing, and say that South Wales Police need to really re-examine their long-term plan, especially in the context of funding requirement from local taxpayers. You just cannot continue to expect local taxpayers to pay more while failing to acknowledge the demands of policing without looking at the budget carefully. I would say to all of the other police and crime commissioners, particularly the one in south Wales, to sit down and learn a lesson from Chris Salmon.

Yn olaf, rwyf am gofnodi fy mhryderon mawr, fel rhywun sydd â dealltwriaeth o blismona, a dweud bod angen i Heddlu De Cymru ailedrych mewn difrif ar ei gynllun tymor hir, yn enwedig yng nghyd-destun y gofynion ariannu gan drethdalwyr lleol. Ni allwch barhau i ddisgwyl i drethdalwyr lleol dalu mwy a pheidio â chydnabod gofynion plismona heb edrych ar y gyllideb yn ofalus. Byddwn yn dweud wrth bob un o gomisiynwyr eraill yr heddlu a throseddu, yn enwedig un De Cymru, am eistedd i lawr a dysgu gwers gan Chris Salmon.

16:22

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Liberal Democrats spokesperson, Aled Roberts.

Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Aled Roberts.

16:22

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Rwy'n meddwl y dylem fod yn canolbwyntio ar y setliad a'r gwaith anodd sydd i'w wneud oherwydd y setliad—rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gyfaddef hynny—o ran yr holl heddluoedd yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl ei bod yn gwneud unrhyw fath o synnwyr i un ai ddelio efo troseddau neu efo diogelwch y cyhoedd os ydym ni yn trio cymharu ac yn sôn am un heddlu yn cael ei reoli gan y Blaid Lafur a heddlu arall yn cael ei reoli gan y Blaid Geidwadol.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. I think we should be concentrating on the settlement and the difficult work that needs to be done because of the settlement—I think that we need to admit that—in terms of all the police forces in Wales. I don't think it makes any sense either to deal with crime or public safety if we try to compare and talk about one police force being controlled by the Labour Party and another one being controlled by the Conservative Party.

Felly, roedd yna lawr iawn o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Mark Isherwood yr oeddwn i'n cytuno efo nhw, o ran rhaid inni ymfalchïo yn y ffaith bod troseddau ar i lawr o ran yr ystadegau. Rwyf hefyd yn meddwl y dylem fod yn sicr yn ein barn fel corff yma—rydym yn sicr yn ein barn fel grŵp—y dylai plismona gael ei ddatganoli i Gymru er mwyn i bobl Cymru wneud yr union benderfyniadau sydd angen eu gwneud o ran yr amseroedd anodd o ran arian yr ydym yn eu hwynebu.

Mae'n rhaid i mi ddweud hefyd fy mod yn meddwl bod yna gamgymeriad wedi'i wneud gan y Llywodraeth ym Mhrydain o ran sefydlu comisiynwyr yr heddlu. Rydym ni fel grŵp wastad wedi dweud ein bod ni yn ei erbyn o. Rydym ni wedi gwneud hynny o fewn ein plaid ein hunain. Nid wyf yn meddwl y dylid gwleidydda neu wneud swydd y comisiynwyr yma yn fater a ddylai ein galluogi ni i wneud gwleidyddiaeth o fewn ein cyfundrefn plismona.

Rwy'n meddwl bod yna ddiffyg atebolrwydd o ran y comisiynwyr yma. Mae yna ddiffyg o ran y ffordd y mae rhai o'r dirprwyon wedi cael eu penodi. Hefyd, rwy'n meddwl, os ydych chi'n edrych yn bendant ar dde Cymru a Gwent, mae yna gwestiynau i'w gofyn ynglŷn â rhai o'r apwyntiadau. Ond, yn y pen draw, os ydym ni'n gweithredu o fewn cyfundrefn lle mae yna etholiadau ar gyfer comisiynwyr, mae gan y comisiynwyr hynny hawl i bennu cyllideb a hefyd i ateb os ydy problemau yn cynyddu o achos hynny.

Rwyf hefyd yn dweud wrth y Llywodraeth y byddwn ni'n cefnogi'r cynnig yma heddiw o achos rydym ni'n credu bod rhai o'r camau yr ydych wedi'u gwneud o ran heddlu ategol yn rhai sydd werth eu cefnogi. Rwy'n cofio y des i'n arweinydd yn Wrecsam o achos bod y Blaid Lafur, bryd hynny, yn gwrthwynebu apwyntio heddlu ategol. Felly, fel Paul ar y ffordd i Ddamascus, rwy'n croesawu eich newid barn chi ar hyn. Ond, hefyd, mae Mick Antoniw wedi gwneud pwynt dilys. Mae yna broblem rŵan: mae'r heddlu ategol yma yn dod yn fwy ac yn fwy pwysig o ran eu rôl gymunedol—y ffaith mai nhw ydy clustiau'r heddlu, I ryw raddau, yn y gymuned. Ond, hefyd, maen nhw'n rhoi rhyw fath o sicrwydd i'r henoed a'r rhai bregus o fewn ein cymunedau ni bod yr heddlu yn dal yna. Y broblem sy'n dod, ac rwyf I wedi ei gweld yn f'ardal I, ydy, fel dywedodd Mick, mae nifer ohonyn nhw, erbyn hyn, o achos diffyg mae'n debyg o ran y swydd a'r ffordd rydych chi'n datblygu o fewn y swydd, yn gweld mai'r cam nesaf ydy dod yn heddwas llawn. Felly, rydych chi'n colli'r ymwybyddiaeth yna ar lefel leol, ac mae yna ryw fath o bwynt yn dŵad lle mae yna ddiffyg o achos hynny.

Felly, rwy'n meddwl na ddylem ni jest fod yn edrych ar ffigurau o ran niferoedd yr heddlu. Rwy'n meddwl, os ydych chi'n edrych ar Gymru, mae'r niferoedd o ran nifer y swyddogion ar y rheng flaen wedi cynyddu dros y pedair blynedd olaf yma. Rwy'n ymwybodol o sefyllfaoedd pan oeddwn i'n gyfreithiwr lle yr oedd yna heddweision yn cael eu cyflogi yn y swyddfa gefn lle, i ddweud y gwir, nid oedd angen gwneud hynny. Felly, mae yna ofyn bod yr heddluoedd yn effeithlon ac i wneud yn sicr eu bod nhw'n cael gwerth am arian cyn belled â phosib. O ran beth fyddwn i'n ei ddweud wrth Mark Isherwood: mae'n rhaid inni hefyd gyfaddef bod yna setliad anodd iawn o ran rhai o'r heddluoedd yma, ac nid ydym ni'n gwneud unrhyw fath o fudd i'n cymunedau ni os nad ydym yn cydnabod hynny.

Many of the points made by Mark Isherwood I agreed with, in terms of the fact that we need to be pleased that the crime rate is down in terms of the statistics. I also think that we should be certain in our views as a body here—we are certain in our views as a group—that policing should be devolved to Wales in order for the people of Wales to make the decisions that need to be made in terms of the difficult times regarding the finances that we're facing.

I must say as well I think a mistake has been made by the Government in Britain in terms of establishing police commissioners. As a group, we've always said that we were against that. We've said that within our own party. I don't think that we should be politicising or making the role of these commissioners a matter that should enable us to bring politics into our policing system.

I do think that there is a lack of accountability in terms of these commissioners. There is an issue with the way that some of the deputies have been appointed. Also, I think, if you look certainly at south Wales and Gwent, there are questions to be asked about some of the appointments. But, ultimately, if we are operating within a system where elections are held for commissioners, those commissioners have a right to set a budget and also to answer if problems arise because of that.

I also tell the Government that we will be supporting this motion today because we do believe that some of the steps that you've taken in terms of additional policing are worth supporting. I became the leader in Wrexham because the Labour Party, at the time, opposed the appointment of supporting police. So, like Paul on the way to Damascus, I welcome your change of view on this. But, also, Mick Antoniw has made a valid point. There is a problem now: these PCSOs become more and more important in terms of their community role—the fact that they are the ears of the police, to some extent, in the community. But, also, they provide some kind of assurance to the elderly and the vulnerable people in society that the police are still there. The problem that arises, and I've seen it in my area, is that, as Mick mentioned, a number of them, by now, because of a deficiency in terms of the job and the way that you can develop within the job, many of them see that the next step is to become a full police officer. So, you lose that awareness on a local level, and a point arises where there is a shortage because of that.

So, I think we should not only be looking at figures in terms of the numbers of police. I think, if you look at Wales, the figures relating to the number of officers on the front line have increased over the last four years. I am aware of situations when I was a solicitor where there were police officers being employed in the back office when there wasn't really a need for them to do that, to be honest. So, there is a requirement on police forces to be efficient and to ensure value for money as far as possible. In terms of what I would tell Mark Isherwood: we also have to admit that there is a very difficult settlement for some of these police forces, and it is of no benefit to our communities if we don't acknowledge that.

16:26

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl.

16:26

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Can I start by saying that I think one of the outcomes of the debate this afternoon is that we have seen the way in which the creation of the police and crime commissioner role has led to a politicisation in the debate around the police, which I think is somewhat disappointing? It was very clear from the remarks of Byron Davies that he is somewhat ignorant, I think, of the work of the south Wales police and crime commissioner. But it was rather disappointing, I think, that he strove to be so partisan in his representations of the roles of PCCs across Wales. Let me say on behalf of the police and crime commissioner in south Wales that I think some innovative work has been undertaken, for example, the work that's been undertaken in Swansea at weekends, which has reduced the number of visits to accident and emergency, as a result of the on-site presence in the city centre in Swansea. I think some fantastic work has been done by the police and crime commissioner in respect, for example, of violence against women. Some pioneering approaches have been taken there and they deserve our commendation. I think it's unfortunate when people use a debate on the police settlement to make highly partisan attacks on people who, I think, are doing a responsible job within the terms that have been set for them.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn meddwl mai un o ganlyniadau'r ddadl y prynhawn yma yw ein bod wedi gweld y ffordd y mae creu rôl comisiynydd yr heddlu a throseddu wedi arwain at wleidyddoli'r ddadl ynghylch yr heddlu, a chredaf fod hynny braidd yn siomedig. Roedd yn amlwg iawn o sylwadau Byron Davies ei fod braidd yn anwybodus, rwyf yn meddwl, o waith comisiynydd heddlu a throseddu de Cymru. Ond roedd yn siomedig braidd, yn fy marn i, ei fod yn ceisio bod mor bleidiol yn ei sylwadau am swyddogaethau comisiynwyr yr heddlu a throseddu ledled Cymru. Gadewch imi ddweud ar ran comisiynydd heddlu a throseddu de Cymru fy mod yn meddwl bod peth gwaith arloesol wedi'i wneud, er enghraifft, y gwaith sydd wedi ei wneud yn Abertawe ar benwythnosau, sydd wedi gostwng nifer yr ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, oherwydd presenoldeb yng nghanol y ddinas yn Abertawe. Rwyf yn credu bod peth gwaith gwych wedi'i wneud gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu, er enghraifft ynglŷn â thrais yn erbyn menywod. Mae rhai camau arloesol wedi eu cymryd yno ac maent yn haeddu ein canmoliaeth. Credaf ei bod anffodus pan fydd pobl yn defnyddio dadl ar setliad yr heddlu i wneud ymosodiadau pleidiol iawn ar bobl sydd, yn fy marn i, yn gwneud gwaith cyfrifol o fewn y telerau a osodwyd ar eu cyfer.

You know, it's no secret that my party, like the Liberal Democrats and others, would not have PCCs. I look forward, after May, to the powers to do something about that situation. That brings me to the remarks of the Plaid Cymru spokesperson, who asked—. I think what Ed Miliband said at the Labour conference 10 days ago was very clear indeed: that there will be responsibility to the Welsh Government for the drawing up of an all-Wales policing plan, in co-operation with the Home Secretary, and that we will have the powers to shape the map of policing in Wales and the structures of accountability in Wales as well. I think that is very clear.

Wyddoch chi, nid yw'n gyfrinach na fyddai fy mhlaid i, fel y Democratiaid Rhyddfrydol ac eraill, am gael Comisiynwyr. Edrychaf ymlaen, ar ôl mis Mai, at gael grym i wneud rhywbeth am y sefyllfa honno. Mae hynny'n dod â mi at sylwadau llefarydd Plaid Cymru, a ofynnodd—. Rwyf yn credu bod yr hyn a ddywedodd Ed Miliband yng nghynhadledd Llafur 10 diwrnod yn ôl yn glir iawn: mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am lunio cynllun plismona ar gyfer Cymru gyfan, mewn cydweithrediad â'r Ysgrifennydd Cartref, ac y bydd gennym rym i lunio'r map plismona yng Nghymru a'r strwythurau atebolrwydd yng Nghymru hefyd. Credaf fod hynny'n glir iawn.

Now, we heard, on the other hand, from the Conservatives today—from their spokesperson—probably a taster of what will be said at their party conference in Wales at the weekend: that, whatever they come forward with in terms of devolution, there will be no devolution of policing in Wales from them. Maybe, of course, the Welsh Conservative spokesperson in this Chamber doesn't really know what is going to be said by the UK Government, and we'll hear something completely different. We'll wait and see, though I suspect, sadly, he was giving us a taster of what the Secretary of State or one of his fellow Cabinet members will be announcing at the weekend or next week.

Yn awr, clywsom, ar y llaw arall, gan y Ceidwadwyr heddiw—gan eu llefarydd—yn ôl pob tebyg blas o'r hyn a fydd yn cael ei ddweud yng nghynhadledd eu plaid yng Nghymru dros y penwythnos: beth bynnag y maent yn ei gyflwyno o ran datganoli, na fydd dim datganoli ar blismona yng Nghymru ganddynt. Efallai, wrth gwrs, nad yw llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Siambr hon mewn gwirionedd yn gwybod beth sy'n mynd i gael ei ddweud gan Lywodraeth y DU, ac y byddwn yn clywed rhywbeth hollol wahanol. Arhoswn i gael gweld, er fy mod yn amau, yn anffodus, ei fod yn rhoi blas inni o'r hyn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu un o'i gyd-aelodau yn y Cabinet yn ei gyhoeddi dros y penwythnos neu'r wythnos nesaf.

My colleague the Member for Pontypridd and, indeed, the Plaid Cymru spokesperson did refer very specifically to the impact of cuts on the police forces in Wales. They have been very significant. I commend the way in which the chief constables have been working at an operational level to minimise the impact of those cuts. The Plaid Cymru spokesperson made the case for Pembrey and Rhuddlan very well in what he had to say. A number of Members spoke about the role of the PCSOs and the Welsh Government scheme. Can I say to both my colleague the Member for Pontypridd and to the Liberal Democrat spokesperson that I think they were in a sense addressing a problem of success? I think the chief constables are very positive about the fact that they are often now recruiting into the police force from PCSOs from within our programme or from within their own existing PCSOs. I think that both they and the police and crime commissioners have been very positive in their meetings with me about the role of the PCSOs in general and indeed the Welsh Government-funded PCSOs.

Cyfeiriodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Bontypridd ac, yn wir, llefarydd Plaid Cymru yn benodol iawn at effaith y toriadau ar heddluoedd yng Nghymru. Maent wedi bod yn sylweddol iawn. Cymeradwyaf y ffordd y mae'r prif gwnstabliaid wedi bod yn gweithio ar lefel weithredol i liniaru effaith y toriadau hynny. Cyflwynodd llefarydd Plaid Cymru yr achos dros Ben-bre a Rhuddlan yn dda iawn yn yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud. Siaradodd nifer o Aelodau am swyddogaeth swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a chynllun Llywodraeth Cymru. A gaf fi ddweud wrth fy nghydweithwyr yr Aelod dros Bontypridd a llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol fy mod yn credu eu bod ar un ystyr yn mynd i'r afael â phroblem o lwyddiant? Credaf fod y prif gwnstabliaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ffaith eu bod yn aml yn awr yn recriwtio i mewn i'r heddlu o blith swyddogion cymorth cymunedol o fewn ein rhaglen neu o blith eu swyddogion cymorth cymunedol eu hunain. Credaf eu bod hwy a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu wedi bod yn gadarnhaol iawn yn eu cyfarfodydd â mi am rôl y swyddogion cymorth cymunedol yn gyffredinol ac yn wir y swyddogion cymorth cymunedol hynny a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

However, today's debate is about the police settlement, and we have explained today the contribution that we are making here in Wales. We are explaining the impact that the cuts from the Home Office are having on the availability of resources for policing in Wales, but I hope the Assembly will support the motion today.

Fodd bynnag, mae'r ddadl heddiw yn ymwneud â setliad yr heddlu, ac rydym wedi esbonio heddiw y cyfraniad yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru. Rydym yn esbonio'r effaith a gaiff toriadau'r Swyddfa Gartref ar argaeledd adnoddau ar gyfer plismona yng Nghymru, ond rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r cynnig heddiw.

16:31 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch ichi, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Mae'r cynnig, felly, wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 7. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013-14

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw Elin Jones.*

## 7. Debate on the Estyn Annual Report 2013-14

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, and amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of Elin Jones.*

16:31 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We move now on to the debate on the Estyn annual report 2013-14, and I call on the Minister for Education and Skills to move the motion—Huw Lewis.

Symudwn ymlaen nawr at y ddadl ar adroddiad blynyddol Estyn 2013-14, a galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig—Huw Lewis.

Cynnig NDM5698 Jane Hutt

Motion NDM5698 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013-14.

Notes the annual report for 2013-14 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. Can I open this debate today by first of all thanking Ann Keane for this, her fifth and, indeed, final, annual report as chief inspector of education and training in Wales? I cannot let this moment pass without offering Ann a very genuine and heartfelt thank you for her towering contribution to education in Wales over the last 30 years. During her tenure as chief inspector, Ann has displayed an unswerving commitment and tenacity for improvement through what has been one of the most important periods in Welsh educational history. Through that time, she has shown a professionalism and an enthusiasm that have infected the whole system. The impact of her stewardship of Estyn is evident in the difference she has made to the organisation and what it has managed to achieve in recent years. Through the new style common inspection framework, she has helped create a more rigorous and robust inspection process that our system and our young people will all be the better for in years to come. I cannot think of a better legacy than that.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi agor y ddadl hon heddiw drwy ddiolch yn gyntaf i Ann Keane am hwn, ei phumed ac, yn wir, ei hadroddiad blynyddol olaf fel prif arolygydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru? Ni allaf adael i'r achlysur hwn fynd heibio heb gynnig diolch diffuant ac o'r galon i Ann am ei chyfraniad amhrisiadwy i addysg yng Nghymru dros y 30 mlynedd diwethaf. Yn ystod ei chyfnod o fod yn brif arolygydd, mae Ann wedi arddangos dycnwch ac ymrwymiad diysgog ar gyfer gwella drwy'r hyn sydd wedi bod yn un o'r cyfnodau pwysicaf yn hanes addysg yng Nghymru. Drwy gydol y cyfnod hwnnw, mae hi wedi dangos proffesiynoldeb a brwdfrydedd sydd wedi treiddio drwy'r system gyfan. Mae effaith ei stiwardiaeth ar Estyn yn amlwg yn y gwahaniaeth y mae hi wedi ei wneud i'r sefydliad a'r hyn y mae wedi llwyddo i'w gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Drwy arddull newydd y fframwaith arolygu cyffredin, mae hi wedi helpu i greu proses arolygu mwy trwyadl a chadarn y bydd ein system a'n pobl ifanc yn elwa arni yn y blynyddoedd i ddod. Ni allaf feddwl am well etifeddiaeth na hynny.

And so, acting Presiding Officer, to the annual report. I am heartened by Ann Keane's view that there is 'a new momentum for improvement' in our system. Yes, significant challenges still remain, but the report recognises that we are making progress in implementing our ambitious reform programme. Taking our comprehensives as an example, the report highlights that standards in over half of the secondary schools inspected in the last year were good or better. Indeed, no secondary school in that time was judged to be unsatisfactory. The quality of teaching in our secondaries continues to improve. This is good news. It is recognition of the very real efforts made by the teaching profession to drive up standards. It provides a robust and indeed eloquent response to those who have chosen recently to denigrate and disparage the community-based comprehensive system we hold so dear in Wales. This report highlights that that system works and it is delivering for our young people. There are other major positives in this report. Our special schools continued to perform extremely well indeed. Of the six inspected this year, three were judged to be good and three were deemed excellent. This is an important sector and deserves to be recognised for the consistently high standards it achieves. At local authority level, we are seeing progress with Ceredigion being judged excellent and five other local authorities removed from follow-up thanks to stronger collaborative working.

Ac felly, Ddirprwy Lywydd, awn at yr adroddiad blynyddol. Mae'n galonogol cael gweld barn Ann Keane bod 'momentwm newydd ar gyfer gwella' yn ein system. Oes, mae heriau sylweddol yn parhau, ond mae'r adroddiad yn cydnabod ein bod yn gwneud cynnydd o ran gweithredu ein rhaglen ddiwygio uchelgeisiol. Gan gymryd ein hysgolion cyfun fel enghraifft, mae'r adroddiad yn dangos bod safonau mewn mwy na hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dda neu'n well. Yn wir, ni ddyfarnwyd unrhyw ysgol uwchradd yn y cyfnod hwnnw fel bod yn anfoddhaol. Mae ansawdd yr addysgu yn ein hysgolion uwchradd yn parhau i wella. Mae hwn yn newydd da. Mae'n cydnabod yr ymdrechion gwirioneddol a wnaed gan y proffesiwn addysgu i wella safonau. Mae'n darparu ymateb cadarn, a huawdl yn wir, i'r rhai sydd wedi dewis yn ddiweddar i ddirmygu a dibrisio'r system gyfun yn y gymuned sydd mor agos at ein calonnau ni yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y system yn gweithio a'i bod yn cyflawni ar gyfer ein pobl ifanc. Mae pethau cadarnhaol eraill o bwys yn yr adroddiad hwn. Parhaodd ein hysgolion arbennig i berfformio'n eithriadol o dda yn wir. O'r chwech a gafodd eu harolygu eleni, dyfarnwyd tair fel bod yn dda a thair yn ardderchog. Mae hwn yn sector pwysig ac mae'n haeddu cael ei gydnabod am y safonau cyson uchel y mae'n eu cyflawni. Rydym yn gweld cynnydd ar lefel awdurdod lleol, gyda Cheredigion yn cael ei ddyfarnu fel bod yn rhagorol a phum awdurdod lleol arall wedi'u tynnu o ymweliadau dilynol diolch i gydweithio cryfach.

It is, though, acting Presiding Officer, vital that I also acknowledge the weaknesses that remain and are identified in the report. There was a fall in primary school standards this year, with 63% achieving 'good' or 'better' in 2013-14, which was down from 70% in the previous two years. A lack of numeracy skills has been identified as a significant factor in this, and this backs up messages from Estyn's other work over the last year, and I have already begun work on how we tackle this cross-cutting issue in our primary sector. On the positive side, there were more examples of excellent teaching and assessment this year. Estyn's report points to progress in a number of other key areas, including improved attendance rates, with a reduction in persistent absence, the performance of pupils eligible for free school meals—well, that performance gap is narrowing—governors are playing a more proactive and challenging role than before, and fewer young people are not in education, employment or training.

Y mae, fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, yn hanfodol fy mod hefyd yn cydnabod y gwendidau sy'n parhau ac a nodir yn yr adroddiad. Roedd gostyngiad yn safonau ysgolion cynradd eleni, gyda 63% yn cyflawni 'yn dda' neu 'yn well' yn 2013-14, a oedd i lawr o 70% yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae diffyg sgiliau rhifedd wedi cael ei nodi fel ffactor arwyddocaol yn hyn o beth, ac mae hyn yn ategu'r negeseuon o waith arall gan Estyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rwyf eisoes wedi dechrau gweithio ar sut yr ydym am fynd i'r afael â'r mater trawsbynciol hwn yn ein sector cynradd. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd mwy o enghreifftiau o addysgu ac asesu rhagorol eleni. Mae adroddiad Estyn yn pwyntio at gynnydd mewn nifer o feysydd allweddol eraill, gan gynnwys gwell cyfraddau presenoldeb, gyda gostyngiad mewn absenoldeb parhaus, perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim—wel, mae'r bwlch perfformiad hwnnw'n culhau—mae llywodraethwyr yn chwarae rhan fwy rhagweithiol a heriol nag o'r blaen, ac mae llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Education in Wales is on the up, and I am encouraged that this Estyn report shows we are on the right track, but I am not complacent. The policies we have put in place over recent years, such as the foundation phase, the literacy and numeracy framework, the Master's in educational practice, Schools Challenge Cymru, the lead and emerging schools project, and the new system of categorisation, are helping to drive improvements in our system. They are being delivered by committed teachers, powerful leaders and creative support staff throughout the sector, and I am grateful to them all for the contribution they are making in driving change and driving improvement. We can, of course, and we will, do more. I said last year that there is excellence in our system, but there is not enough of it and it is not consistent enough. I am working to put this right, and I look forward to what the Assembly has to contribute to that debate this afternoon.

Mae addysg yng Nghymru ar gynnydd, ac rwyf wedi fy nghalonogi bod yr adroddiad Estyn hwn yn dangos ein bod ar y trywydd iawn, ond nid wyf yn hunanfodlon. Mae'r polisïau yr ydym wedi'u rhoi ar waith dros y blynyddoedd diweddar, megis y cyfnod sylfaen, y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y Meistr mewn ymarfer addysgol, Her Ysgolion Cymru, y prosiect ysgolion arweiniol a datblygol, a'r system newydd o gategoreiddio, yn helpu i ysgogi gwelliannau yn ein system. Maent yn cael eu cyflwyno gan athrawon ymroddedig, arweinwyr pwerus a staff cymorth creadigol ar draws y sector, ac rwy'n ddiolchgar i bob un ohonynt am y cyfraniad y maent yn ei wneud wrth sbarduno newid a gwelliant. Gallwn, wrth gwrs, a byddwn, yn gwneud mwy. Dywedais y llynedd fod rhagoriaeth yn ein system, ond nid oes digon ohoni ac nid yw'n ddigon cyson. Rwyf yn gweithio i unioni hyn, ac edrychaf ymlaen at yr hyn sydd gan y Cynulliad i gyfrannu at y ddadl honno y prynhawn yma.

16:36

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I have selected the six amendments to the motion, and I call on Paul Davies to move amendments 1 and 2 in his name.

Diolch i chi, Weinidog. Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliannau 1 a 2 yn ei enw ef.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cymeradwyo agweddau cryfach ar addysg yng Nghymru, ond yn gresynu at y ffaith bod safonau cyffredinol yn dal i fod yn wan ac:*

*Applauds the stronger aspects of Welsh education, but regrets that overall standards are still weak and that:*

*a) bod angen i ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref i rannu arferion gorau gydag ysgolion gwannach i roi hwb i safonau; a*

*a) schools with strong leadership need to share best practice with weaker schools to boost standards; and that*

*b) bod angen i Lywodraeth Cymru wella mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r ddarpariaeth ohono ar gyfer athrawon newydd a phrofiadol.*

*b) the Welsh Government needs to improve both access to, and provision of, continuing professional development for both new and experienced teachers.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn gresynu at gyflwr unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru y mae angen gwella pob un ond dau ohonynt.*

*Regrets the state of pupil referral units in Wales, all of which, barring two, need improvement.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:36

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, acting Deputy Presiding Officer, and I'm pleased to have the opportunity to take part in this debate today, and to move the amendments tabled in my name on behalf of the Welsh Conservatives. I welcome the findings of the Estyn annual report and the contribution of all the staff behind the report in their efforts to ensure that the Welsh education system is meeting the needs of all who are part of it. Can I, like the Minister, specifically thank Ann Keene for her huge contribution in the last few years?

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw, ac i gynnig y gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw i ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Rwy'n croesawu canfyddiadau adroddiad blynyddol Estyn a chyfraniad yr holl staff sydd y tu ôl i'r adroddiad yn eu hymdrechion i sicrhau bod system addysg Cymru yn diwallu anghenion pawb sy'n rhan ohoni. A gaf innau, fel y gwnaeth y Gweinidog, ddiolch yn benodol i Ann Keane am ei chyfraniad enfawr yn y blynyddoedd diwethaf?

Now, it's vitally important that our children are given the best possible opportunities through the education system in Wales, and that their education and training shapes an essential part of their development into mature, well-rounded adults. I very much agree with the chief inspector that significant challenges remain and that 2013-14 was a mixed year for standards. Indeed, while standards in the secondary school sector have indeed improved, those in the primary sector have of course declined. Good or excellent standards have continued to characterise sectors such as maintained special schools and non-maintained nursery settings, but the trend of a relatively weak performance has continued in pupil referral units, which we have highlighted in our second amendment.

Nawr, mae'n hanfodol bwysig fod ein plant yn cael y cyfleoedd gorau posibl drwy'r system addysg yng Nghymru, a bod eu haddysg a'u hyfforddiant yn rhan hanfodol o'u datblygiad i fod yn oedolion aeddfed, cyflawn. Cytunaf yn llwyr â'r prif arolygydd fod heriau sylweddol yn parhau, a bod 2013-14 wedi bod yn flwyddyn gymysg ar gyfer safonau. Mae'n wir, er bod safonau yn y sector ysgolion uwchradd yn wir wedi gwella, mae'r rhai yn y sector cynradd wedi gostwng wrth gwrs. Mae safonau da neu ragorol wedi parhau i nodweddu sectorau megis ysgolion arbennig a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir, ond mae'r duedd o berfformiad cymharol wan wedi parhau mewn unedau cyfeirio disgyblion, yr ydym ni wedi tynnu sylw atynt yn ein hail welliant.

I accept that there are some positive things to note from this report, such as the fact that 95% of settings for children under five were judged to have excellent or good performance, continuing the upward trend since the first year of the current inspection cycle, when this figure was 89%. This is very welcome reading, and I sincerely hope that as we move forward this figure continues to increase. Indeed, standards in secondary schools have also improved, with 53% of schools inspected judged to have excellent or good performance compared with 45% during the previous year. I note that secondary schools made progress in five main areas identified by Estyn, including outcomes, pupil wellbeing, provision for skills, teaching and learning, and leadership and self-evaluation.

Rwy'n derbyn bod rhai pethau cadarnhaol i'w nodi yn yr adroddiad hwn, megis y ffaith y dyfarnwyd bod 95% o leoliadau ar gyfer plant dan bump oed wedi perfformio'n rhagorol neu'n dda, gan barhau â'r duedd tuag at i fyny ers blwyddyn gyntaf y cylch arolygu cyfredol, pryd mai 89% oedd y ffigur hwn. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, ac rwy'n mawr obeithio wrth inni symud ymlaen y bydd y ffigur hwn yn parhau i gynyddu. Yn wir, mae safonau mewn ysgolion uwchradd hefyd wedi gwella, gyda 53% o'r ysgolion a arolygwyd wedi'u dyfarnu fel bod yn perfformio'n rhagorol neu'n dda o'i gymharu â 45% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nodaf fod ysgolion uwchradd wedi gwneud cynnydd mewn pum prif faes a nodwyd gan Estyn, gan gynnwys canlyniadau, lles disgyblion, darpariaeth ar gyfer sgiliau, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth a hunanwerthuso.

However, there are plenty of areas where much more work needs to be done. As the Minister said in his opening contribution, standards in primary schools could be much better, with 62% of schools inspected judged to have excellent or good overall performance compared with 70% in the previous year and 80% in 2010-11 at the start of the inspection cycle. There is a genuine fear among many about the standards of our primary schools, and this continual cycle of decline does nothing to alleviate those fears. The report makes it clear that there are still challenges with pupils' numeracy skills in primary schools, and there remains in nearly all secondary schools a general need to improve standards in mathematics and numeracy, which now needs to be addressed as a matter of urgency. Numeracy is one of the most important life skills a young person needs when they leave full-time education. It's essential for everything from competing in the global jobs market to avoiding losing money when purchasing goods or services. Therefore, unless we begin to see urgent improvements in the delivery of the most basic skills in the Welsh education system, Welsh students will be left at a severe disadvantage in the global race, and that's something no-one in this Chamber wants to see.

Fodd bynnag, mae digonedd o feysydd lle mae angen gwneud llawer mwy o waith. Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei gyfraniad agoriadol, gallai safonau mewn ysgolion cynradd fod yn llawer gwell, gyda 62% o ysgolion a arolygwyd wedi'u dyfarnu fel bod â pherfformiad cyffredinol ardderchog neu dda o'i gymharu â 70% yn y flwyddyn flaenorol ac 80% yn 2010-11 ar ddechrau'r cylch arolygu. Mae llawer yn poeni'n wirioneddol am safonau ein hysgolion cynradd, ac nid yw'r cylch parhaus hwn o ddirywiad yn gwneud dim i liniaru'r ofnau hynny. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir bod heriau yn dal i fod o ran sgiliau rhifedd disgyblion mewn ysgolion cynradd, ac mae angen cyffredinol i wella safonau mewn mathemateg a rhifedd ym mhob ysgol uwchradd bron, ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel mater o frys bellach. Mae rhifedd yn un o'r sgiliau bywyd pwysicaf sydd ei angen ar berson ifanc pan ei fod yn gadael addysg llawnamser. Mae'n hanfodol ar gyfer popeth o gystadlu yn y farchnad swyddi fyd-eang i osgoi colli arian wrth brynu nwyddau neu wasanaethau. Felly, oni bai ein bod yn dechrau gweld gwelliannau brys wrth gyflwyno'r sgiliau mwyaf sylfaenol yn y system addysg yng Nghymru, bydd myfyrwyr Cymru yn cael eu gadael dan anfantais ddifrifol yn y ras fyd-eang, ac mae hynny'n rhywbeth nad oes neb yn y Siambr hon eisiau ei weld.

If I could briefly now turn to our amendments, we've highlighted continuing professional development as an area where more can be done. The Organisation for Economic Co-operation and Development report, 'Improving Schools in Wales: An OECD Perspective', last April cites the views of headteachers and teachers that continuing professional development is in dire need of strengthening. Now, I accept that the Minister has announced the national support programme, which offers variable levels of support to staff in subjects right across the curriculum to help them to evaluate pupils' skills in either literacy or numeracy, but, even now, teachers are still not clear about the standards expected or how best to develop pupils' knowledge and skills, therefore, the Welsh Government must do more to help support teachers to understand how the national support programme works in order to improve learning and teaching literacy and numeracy in all schools in Wales.

Os caf droi yn fyr yn awr at ein gwelliannau, rydym wedi tynnu sylw at ddatblygiad proffesiynol parhaus fel maes lle gellir gwneud mwy. Mae adroddiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 'Gwella Ysgolion yng Nghymru: Perspectif OECD', fis Ebrill diwethaf yn nodi barn penaethiaid ac athrawon bod angen dybryd i gryfhau datblygiad proffesiynol parhaus. Nawr, rwy'n derbyn bod y Gweinidog wedi cyhoeddi rhaglen gymorth genedlaethol, sy'n cynnig lefelau amrywiol o gefnogaeth i staff mewn pynciau ar draws y cwricwlwm i'w helpu i werthuso sgiliau disgyblion naill ai mewn llythrennedd neu rifedd, ond, hyd yn oed yn awr, mae athrawon yn dal heb fod yn glir ynghylch y safonau a ddisgwylir, na sut orau i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau disgyblion, felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i helpu athrawon cymorth i ddeall sut y mae'r rhaglen gymorth genedlaethol yn gweithio er mwyn gwella dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd ym mhob ysgol yng Nghymru.

Our second amendment refers to pupil referral units in Wales, and it's clear that too many local authorities do not have a strategy or vision for how pupil referral units fit into the range of services they offer to support vulnerable pupils. The Estyn report states:

Mae ein hail welliant yn cyfeirio at unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, ac mae'n amlwg bod gormod o awdurdodau lleol nad oes ganddynt strategaeth na gweledigaeth ar gyfer sut y dylai unedau cyfeirio disgyblion gyd-fynd â'r ystod o wasanaethau y maent yn eu cynnig i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Mae adroddiad Estyn yn datgan:

'for the most part, inspection outcomes are generally worse for PRUs than for any other sector, with half having only adequate or unsatisfactory standards and provision'.

ar y cyfan, mae canlyniadau arolygu yn gyffredinol yn waeth ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion nag ar gyfer unrhyw sector arall, gyda safonau a darpariaeth ddim ond yn ddigonol neu'n anfoddhaol ar gyfer 50% ohonynt.

Now, PRUs support some of our most vulnerable learners in Wales, and therefore I urge the Minister to seriously look at pupil referral units across Wales, and how the Welsh Government can better support them, as a matter of urgency.

Nawr, mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cefnogi rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghymru, ac felly rwy'n annog y Gweinidog i edrych o ddifrif ar unedau cyfeirio disgyblion ar draws Cymru, ac ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru eu cefnogi yn well, fel mater o frys.

Therefore, in closing, acting Deputy Presiding Officer, whilst there is progress being made in a number of areas of our education system, there are still a number of huge challenges that the Welsh Government must address. There are still problems with mathematics and numeracy, standards in primary schools are falling considerably, and our most vulnerable learners in PRUs across Wales are being failed. I hope now that the Minister will address these challenges once and for all and work harder with the relevant bodies so that our education system meets the needs of all learners in Wales, today and in the future.

Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, er bod cynnydd yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd yn ein system addysg, mae nifer o heriau enfawr y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw. Mae problemau gyda mathemateg a rhifedd o hyd, mae safonau mewn ysgolion cynradd yn gostwng yn sylweddol, ac mae ein dysgwyr mwyaf agored i niwed mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ar draws Cymru yn cael eu siomi. Rwy'n gobeithio nawr y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r heriau hyn unwaith ac am byth ac yn gweithio'n galetach gyda'r cyrff perthnasol fel bod ein system addysg yn bodloni anghenion pob dysgwr yng Nghymru heddiw, ac yn y dyfodol.

16:42

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to move amendments 3, 4, 5 and 6 tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 3, 4, 5 a 6 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod safonau mewn ysgolion cynradd wedi gostwng eleni, gyda chyfran yr ysgolion cynradd sydd â safonau da neu ragorol yn disgyn o saith ym mhob 10 i ychydig dros chwech ym mhob 10.*

*Regrets Estyn's finding that standards in primary schools declined this year, with the proportion of primary schools with good or excellent standards falling from seven in ten to just over six in ten.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod disgyblion yn cael anhawster o ran defnyddio sgiliau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm mewn tua hanner ein hysgolion.*

*Regrets Estyn's finding that pupils struggle to use numeracy skills appropriately across the curriculum in around half of schools.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru feithrin gallu'r gweithlu addysg i roi polisïau allweddol ar waith mewn modd effeithiol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.*

*Believes that the Welsh Government needs to build the capacity of the education workforce for effective implementation of key policies such as the Literacy and Numeracy Framework, the Foundation Phase and the new National Curriculum.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn credu y dylai athrawon ym mhob rhan o Gymru gael mynediad i arfer gorau.*

*Believes that teachers in all parts of Wales should have access to best practice.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3, 4, 5 a 6.*

*Amendments 3, 4, 5 and 6 moved.*

16:42 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro, ac rwyf innau eisiau cofnodi diolchiadau Plaid Cymru, a minnau, fel llefarydd addysg Plaid Cymru, i Ann Keane, y prif arolygydd, am ei gwaith diflino dros y blynyddau, ac, yn arbennig, am y ffordd ddihafal a meistrolgar y mae hi wedi cyflwyno tystiolaeth i'r lle hwn, yn y pwyllgor ac yn adroddiadau fel hyn, sy'n cyfoethogi ein dealltwriaeth ni, ar draws yr ystod o weithgareddau addysg, ynglŷn â sut mae'r gyfundrefn addysg yn gweithio. Wrth ddweud hynny, wrth gwrs, rwyf hefyd yn dymuno'n dda i'w holynydd hi, Meilyr Rowlands, yn y gwaith, gobeithio, y bydd ef yn parhau ag ef yn yr un modd.

Thank you, acting Deputy Presiding Officer, and I want to record Plaid Cymru's thanks, and my thanks, as Plaid Cymru's education spokesperson, to Ann Keane, the chief inspector, for her tireless work over the years, and, in particular, for her mastery in presenting evidence to this place, in committee and in reports such as this, which enhances our understanding across the whole range of educational activities in terms of how the education system works. In saying that, of course, I also wish her successor, Meilyr Rowlands, well in the work that I hope he will continue in the same way.

Rwy'n credu ei bod yn briodol, ar ddiwedd cyfnod fel hyn, i edrych efallai yn fwy cryno ar bwrpas arolygu a beth yw gwaith Estyn bellach, a'r holl fentrau eraill, fel petai, sydd gan y Llywodraeth yn y maes hwn. Mae'r peth wedi newid yn sylweddol iawn yn ystod y degawd diwethaf. Erbyn hyn, nid yn unig mae gennym ni Estyn, fel y corff arolygu, ond mae gennym ni gorff rhyngwladol, yr OECD, sy'n bwrw golwg dros ein hysgolion ni fel crynswth hefyd. Mae gennym ni system gan y Llywodraeth ei hun—y categoreiddio—sy'n sicr yn welliant ar fandio, sydd hefyd yn ceisio gweld a oes angen cefnogaeth ar ysgolion ar sail eu llwyddiant mewn nifer o feysydd meini prawf. Mae Estyn ei hun yn adolygu ysgolion penodol, mae'n adolygu awdurdodau addysg ac mae'n adolygu sefydliadau addysgol o bob math. Efallai'r unig ran o'r gyfundrefn addysg sydd heb gael adolygiad annibynnol, felly, yw'r Llywodraeth ei hun. Mae'n debyg bod hynny'n rhan o'n gwaith ni, Ddirprwy Lywydd dros dro, ond mae hefyd efallai yn waith y byddwn i'n dymuno i Estyn ymgymryd ag ef yn ystod y cyfnod nesaf, hefyd.

I do think that it is appropriate, at the end of a period such as this, to take perhaps a broader look at the purpose of inspection and the work of Estyn, and all of the other initiatives, as it were, that the Government has in place in this area. Things have changed significantly over the past decade. We now not only have Estyn, as the inspection body, but we also have an international body, the OECD, which takes an overview of our schools. We also have a Government system—categorisation—which is certainly an improvement on banding, which also seeks to determine whether schools need support on the basis of their successes in a number of different categories. Estyn itself inspects specific schools, inspects education authorities and education institutions of all sorts. Perhaps the only part of the education system that has not had an independent inspection, therefore, is the Government itself. I suppose that is part of our work, temporary Deputy Presiding Officer, but it's also perhaps work that I would like Estyn undertake over the ensuing period, too.

Wrth inni hefyd cydnabod bod Estyn wedi sefydlu cyfundrefn adolygu fwy cadarn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'n briodol hefyd gofyn a ydym ni angen ailedrych ar y ffordd yr ydym yn arolygu ysgolion a sefydliadau addysgol erbyn hyn. Hoffwn i weld proses adolygu sydd yn fwy seiliedig ar risg erbyn hyn, ac un sydd yn caniatáu, efallai, i ysgolion sydd wedi llwyddo dangos llwyddiant, ac sydd â systemau hunanarfarnu credadwy a chadarn yn eu lle—bod modd i'r ddau yna, efallai, gael lle mwy 'light touch', os liciwch chi, o ran adolygu, gan adael i adnoddau Estyn a'r Llywodraeth ffocysu ar yr ysgolion hynny sydd wir angen cefnogaeth. Byddwn hefyd am weld mwy o adolygu 'spot', fel petai, yn digwydd, lle, yn syml iawn, byddai'n rhydd i unrhyw sefydliad addysgiadol yng Nghymru fod yn agored i adolygiad gan Estyn. Credaf mai dyna sut y gallwn gadw safonau a chadw pawb ar flaenau'u traed.

As we acknowledge that Estyn has put in place a more robust inspection system over the past five years, it also appropriate to ask whether we need now to review the way in which we inspect schools and education institutions. I would like to see an inspection process more based on risk, and one that allows, perhaps, schools that have demonstrated success, and that have credible and robust self-evaluation systems in place—for those, perhaps, to have a more light-touch approach, if you like, in terms of inspection, allowing Estyn and Government resources to focus on those schools that truly need support. I would also want to see more spot checks happening, where, quite simply, any educational institution in Wales could be open to an Estyn inspection. I believe that that is how we can maintain standards and keep everyone on their toes.

Yn y cyd-destun hwnnw, bydd hunanarfarnu'n hynod bwysig i ysgolion yn y pum mlynedd nesaf. Roeddwn yn falch bod Estyn, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wedi dweud bod athrawon bellach yn rhan o'r broses arolygu a'u bod yn hyfforddi athrawon i fod yn rhan o'r timau arolygu sydd gan Estyn fel bod hunanarfarnu yn dod yn fwy naturiol o fewn y proffesiwn. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei nodi yn adroddiad yr OECD i'r Llywodraeth fel un o'r nodweddion sydd eu hangen mewn unrhyw system sy'n llwyddo.

In that context, self-evaluation will be extremely important for schools in the next five years. I was pleased that Estyn, giving evidence to the Children, Young People and Education Committee, said that teachers are now part of the inspection process and that they are are training teachers to be part of the Estyn inspection teams so that self-evaluation happens more naturally within the profession. It is something that is noted in the OECD report for Government as one of the characteristics required in any successful system.

Yn gyffredinol, felly, mae adroddiad Estyn yn nodi cryn dipyn o lwyddiant mewn sawl maes. Mae gwelliannau Plaid Cymru yn nodi rhai o'r methiannau, achos, fel y dywedais, ein swyddogaeth ni yw dal y Llywodraeth i gyfrif fan hyn; nid oes neb arall yn gwneud hynny.

In general, therefore, the Estyn report notes considerable success in many areas. Plaid Cymru's amendments set out some of the failings, because, as I said, our role is to hold the Government to account here; no-one else does that.

Y peth olaf rwyf am gyfeirio ato yw un o'r meysydd yn adroddiad Estyn lle rwy'n meddwl bod angen i'r Lywodraeth fwrw mwy o sylw a rhoi cryn dipyn mwy o gefnogaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf, a hwnnw yw'r cwestiwn o arweinyddiaeth yn ein hysgolion ni. Mae adroddiad Estyn yn glir yn dangos y ddolen rhwng ansawdd arweiniad mewn ysgolion ac ansawdd y deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae hefyd yn dweud yn glir nad oes cynllunio strategol cenedlaethol ar gyfer arweinwyr newydd, ac efallai ein bod yn dibynnu gormod ar uchelgais bersonol a sefyllfa unigol ysgolion a phrifathrawon yn hytrach na chynllunio'r proffesiwn fel ag y mae. Dyna pam rwyf am weld llawer mwy o sylw yn ystod y cyfnod nesaf ar arweinyddiaeth a sgiliau arweinyddol, a'r rheini yn cael eu meithrin drwy'r proffesiwn i gyd. Dyna un o swyddogaethau, am wn i, y cyngor gweithlu addysg newydd, a dyna pam fod cyfeiriad at hwnnw yng ngwelliannau Plaid Cymru hefyd.

The final thing I want to refer to is one of the areas in the Estyn report where I believe the Government needs to focus and provide a lot more support over the next five years, and that is the question of leadership in our schools. The Estyn report clearly shows the link between the quality of leadership in schools and the quality of outcomes for learners. It also clearly states that there is no national strategic planning for new leaders, and perhaps we rely too much on personal ambition and the individual circumstances of schools and headteachers rather than planning for the profession that we have. That is why I want to see a lot more attention during the next period paid to leadership and leadership skills, and to nurturing those skills throughout the profession. That is one of the functions, I suppose, of the new education workforce council, and that is why there is reference to that in the Plaid Cymru amendments.

16:47

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to focus on the challenges faced, as set out in the Estyn report, and particularly perhaps in terms of the challenges in the more deprived areas of Wales, and children from the more deprived backgrounds, on community-focused schools. It seems to me that very many of the points raised in the Estyn report would benefit from greater consistency across Wales in terms of community-focused schools, and I believe that they are very relevant to Estyn's findings. I think it's frustrating for many Members, actually, right across Wales, that too often schools are closed up during holidays, weekends and, indeed, evenings, and it's very variable and patchy from one part of Wales to another and, indeed, within local authority areas. I think the general public are very frustrated by this very often, particularly in terms of the challenges of austerity, because obviously they are existing facilities that are there and are not being used to best effect at a time when it's very, very difficult to find resource for new buildings. Although new buildings and improvements to existing buildings are still taking place across Wales, it obviously is quite a struggle at the present time.

Hoffwn ganolbwyntio ar yr heriau a wynebir, fel y nodwyd yn adroddiad Estyn, ac yn enwedig efallai o ran yr heriau yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru, a phlant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig, ar ysgolion bro. Mae'n ymddangos i mi y byddai llawer iawn o'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad Estyn yn elwa ar fwy o gysondeb ar draws Cymru o ran ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac rwy'n credu eu bod yn berthnasol iawn i ganfyddiadau Estyn. Rwy'n credu ei bod yn rhwystredig i lawer o Aelodau, mewn gwirionedd, ar draws Cymru, bod ysgolion yn cael eu cau yn rhy aml yn ystod y gwyliau, penwythnosau ac, yn wir, gyda'r nosau, ac mae'n amrywiol iawn ac yn anghyson o un rhan o Gymru i'r llall ac, yn wir, o fewn ardaloedd awdurdodau lleol. Rwy'n meddwl bod y cyhoedd yn gyffredinol yn teimlo'n rhwystredig iawn oherwydd hyn yn aml iawn, yn enwedig o ran heriau cyni, gan eu bod yn amlwg yn gyfleusterau sy'n bodoli eisoes sydd ar gael ac nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau ar adeg pan ei bod yn anodd iawn, iawn dod o hyd i adnodd ar gyfer adeiladau newydd. Er bod adeiladau newydd a gwelliannau i adeiladau presennol yn dal i ddigwydd ledled Cymru, mae'n amlwg yn dipyn anodd iawn ar hyn o bryd.

I think the emphasis in terms of family, working with the families of pupils and working with communities as an extension from families, would benefit greatly if we had those community-focused schools consistently open to families and communities right across Wales. So, I would be very interested in hearing from the Minister as to what ways we might find to open up schools right across Wales far more consistently to our communities and families, because, as I said in opening, I believe that would very much address many of the points raised in this Estyn report and, indeed, benefit our general efforts to improve education in Wales.

Rwy'n meddwl y byddai'r pwyslais o ran y teulu, gweithio gyda theuluoedd disgyblion a gweithio gyda chymunedau fel estyniad o deuluoedd, yn elwa'n fawr pe byddai gennym ysgolion bro ar agor yn gyson i deuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed gan y Gweinidog ynghylch pa ffyrdd y gallem eu canfod i agor ysgolion ledled Cymru yn llawer mwy cyson i'n cymunedau a theuluoedd, oherwydd, fel y dywedais ar y cychwyn, rwy'n credu y byddai hynny'n mynd i'r afael i raddau helaeth â nifer o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad Estyn hwn ac, yn wir, byddai o fudd i'n hymdrechion cyffredinol i wella addysg yng Nghymru.

16:49

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Aled Roberts.

16:49 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd. Rwy’n meddwl bod y Gweinidog wedi bod yn eithaf gonest, i ddweud y gwir, wrth gyflwyno’r ddadl yma y prynhawn yma. Rwy’n meddwl bod yna dueddiad, hwyrach, i’r Llywodraeth ganolbwyntio ar yr holl enillion a ni fel gwrthbleidiau i ddweud, ‘Wel, rydych chi’n methu ar hyn a’r llall’. Rwy’n meddwl mai darlun cymysg sydd gennym ni yma; dyna’r pwynt a oedd yn cael ei wneud, rwy’n meddwl, yn y pwyllgor plant. Rwyf i, fel pawb arall, yn llongyfarch Ann Keane ar y gwaith mae hi wedi ei wneud fel prif arolygydd dros y blynyddoedd. Rwy’n meddwl bod pob un o’r pleidiau yma yn cydnabod ei meistrolaeth hi ar y pwnc yma, ac rydym i gyd yn dymuno’n dda i Meilyr Rowlands wrth iddo ymgymryd â’r swydd.

Thank you, Chair. I think that the Minister has been quite candid, to be honest, in introducing the debate here this afternoon. I think that there is a tendency, perhaps, for the Government to focus on all the positives and for us as opposition parties to say, 'Well, you have failed on this and that'. I think it's a mixed picture that we have here; that is the point that was being made, I think, in the children's committee. I, like everyone else, congratulate Ann Keane on the work that she has done as chief inspector over the years. I think that all parties here acknowledge her mastery of the subject, and we all wish Meilyr Rowlands well as he takes the reins.

Ond rwy’n meddwl bod yna gwestiynau i’w gofyn o ran y Llywodraeth. Mae yna welliannau wedi bod o ran yr ysgolion uwchradd; er hynny, mae yna ostyngiad wedi bod hyd yn oed yn y sector yna o ran nifer yr ysgolion sy’n ‘ardderchog’ yn hytrach na ‘da’. Felly, mae yna, rwy’n meddwl, le i ni boeni rhywfaint, er bod yna gynnydd wedi bod yn y ddarpariaeth o dan bump oed.

But I think there are questions to be asked of Government. There have been improvements in secondary schools; however, there has been a decline even in that sector in terms of the number of schools rated ‘excellent’ rather than ‘good’. So there is, I think, cause for some concern, even though there has been improvement in provision for under fives.

Rwy’n meddwl bod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y pwyllgor plant hefyd yn rhoi rhai cwestiynau ymlaen ynglŷn â’r ffaith bod y Llywodraeth yn credu mai’r consortia a fydd yn cyflwyno llawer iawn o’r gwelliannau yma. Rwy’n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn eithaf cadarn ein barn a’n beirniadaeth o’r consortia yma. Rwy’n gweld bod yr adroddiad yn cadarnhau bod Estyn yn mynd i adrodd yn ôl yn ystod mis Mai ar waith y consortia. Rwy’n gofyn y prynhawn yma i’r Gweinidog gadarnhau y bydd yna gyfle i ni drafod, hwyrach, yr adroddiad yna ar lawr y Cynulliad. Rwy’n meddwl bod hynny yn destun pryder, achos, yn y pen draw, ni fydd yna arolygiadau o’r consortia yma tan haf 2016.

I think the evidence received at the children's committee also brings forward some questions in terms of the fact that the Government believes that it will be the consortia that will deliver a number of these improvements. I think that we have to be fairly robust in our views and criticism of the consortia. I see that the report confirms that Estyn is going to report back in May on the work of the consortia. I ask the Minister this afternoon to confirm that there will be an opportunity for us to discuss, perhaps, that report in the Chamber. I think that is a cause for concern, because, ultimately, there will be no inspection of the consortia until the summer of 2016.

Rwyf hefyd yn mynd i ofyn i’r Gweinidog edrych ar y grant amddifadedd. Rydych yn ymwybodol ein bod ni wedi codi cwestiynau o’r blaen ynglŷn â’r ffaith nad yw rhai ysgolion yn cyhoeddi sut maen nhw’n gwario’r grant amddifadedd. Hefyd, mae yna gryn ddryswch o fewn y consortia eu hunain. Mae yna rai yn casglu’r wybodaeth ynglŷn â gwariant, a rhai eraill yn dweud bod yna ddim cyfrifoldeb arnyn nhw i wneud hynny.

I am also going to ask the Minister to look at the deprivation grant. You are aware that we’ve previously asked questions about the fact that some schools still don't publish how they spend the pupil deprivation grant. Also, there is considerable confusion within the consortia themselves. Some collect this information on expenditure, while others say that there is no responsibility on them to do so.

Mi fyddwn ni, felly, yn cefnogi’r holl welliannau gan Blaid Cymru a’r Toriaid. Rwy’n meddwl bod Simon Thomas wedi gwneud pwynt dilys iawn: mi fydd yna symud o ran mwy o hunanarfarnu. Os ydych chi’n edrych ar yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, mae yna gryn dipyn o gwestiynau yn codi ynglŷn ag asesiadau athrawon—yn sicr ar lefel ysgolion cynradd. Os ydym ni’n dweud bod y system yna yn wan yng Nghymru, sut allwn ni fod yn hyderus ynglŷn â’r asesiadau yna?

We will, therefore, be supporting all the amendments by Plaid Cymru and the Tories. I think Simon Thomas made a very valid point: there will be movement towards more self-evaluation. If you look at the report in its entirety, a significant number of questions arise regarding teacher assessments—certainly at the primary school level. If we say that that system is weak in Wales, how can we be confident about those assessments?

Rwy’n meddwl bod Paul Davies hefyd wedi codi pwynt a oedd yn poeni llawer iawn ohonom ni yn y pwyllgor, ac sydd wedi cael ei godi nifer o weithiau rŵan mewn nifer o adroddiadau gan Estyn, sef yr unedau ymddygiad yma—y PRUs. Dim ond dau ohonyn nhw sydd lle gallwn fod yn fodlon â’u perfformiad nhw. Mwy na hynny, yr hyn a oedd yn destun pryder oedd y ffaith bod Ann Keane ei hun wedi dweud bod yna gwestiynau yn codi ynglŷn â rhai unedau sydd ddim wedi cael eu cofrestru fel PRUs, ac sydd i bob pwrpas o dan y radar o ran y gyfundrefn. Mae yna hefyd gwestiwn yn codi, wrth gwrs, bod yna ymarfer gwahanol o awdurdod i awdurdod. Mae rhai awdurdodau yn dweud bod rhaid i bob plentyn gael ei gofrestru yn y PRU ei hun, mae yna rai eraill yn dweud eu bod yn aros wedi eu cofrestru yn yr ysgol, ac mae gan rai eraill beth maen nhw’n ei alw yn ‘dual registration’. Rwy’n meddwl bod yna gryn ddryswch. Wrth feddwl mai’r plant yma sydd yn wynebu’r holl anawsterau yn eu bywydau, mae’n rhaid i ni ddweud, ar ôl yr holl amser yma, fod angen rŵan i ni gael gafael ar y sefyllfa yma unwaith ac am byth.

I think that Paul Davies also raised a point that concerned many of us in the committee, which has been raised several times now in Estyn reports, on the referral units—the PRUs. There are only two of them that we can be satisfied with their performance. More than that, what was worrying was the fact that Ann Keane herself said that questions arose about some units that haven’t been registered as PRUs, which are, to all intents and purposes, under the radar in terms of the system. There is also a question, of course, about the different practices from authority to authority. Some authorities say that every child must be registered in the PRU itself, others say that they remain as registered at the school, and others have what they call 'dual registration'. I think that there is considerable confusion. Given that these are children facing so many difficulties in their lives, we have to say, after all this time, that there is a need now for us to address the situation once and for all.

Felly, rwy’n meddwl bod rhaid i ni edrych—. Rwy’n gwybod bod y Llywodraeth wedi bod yn edrych ar reolaeth yr unedau yma, ac rwy’n mawr obeithio erbyn yr adroddiad nesaf hwyrach y bydd yna gryn dipyn o symud o ran yr unedau unigol yma.

Therefore, I think that we must look —. I know that the Government has been looking at the management of these units, and I really do hope that by the next report there will have been quite a bit of movement, perhaps, in terms of these individual units.

16:55

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Having looked at the diabetes delivery plan, and the differences between children in England and the numbers of children who are overweight and obese in Wales, which is statistically significant, I’m very pleased to see that Estyn also focuses on the fact that one in four four and five-year-olds are overweight, and that one in 10 are obese, and that half of people 16 to 44 are overweight or obese. So this is a major educational issue. I’m very pleased that the Estyn report focuses on the fact that teachers do focus on healthy eating in relevant lessons, and that food choices in school canteens nudge pupils towards healthy eating. But, I think we also have to be concerned that secondary schools do less well than primary schools, and we should all worry that there is a trend for more pupils to leave secondary school to access junk food. There’s no doubt that unscrupulous cheap and unhealthy food providers will—unless local authorities stop them—set up shop outside secondary schools, entirely motivated by profit. So, I hope local authorities will act to protect young pupils from these predators.

Ar ôl edrych ar y cynllun cyflawni ar gyfer diabetes, a'r gwahaniaethau rhwng plant yng Nghymru a nifer y plant sydd dros eu pwysau ac yn ordew yng Nghymru, sydd yn ystadegol sylweddol, rwy'n falch iawn o weld bod Estyn hefyd yn canolbwyntio ar y ffaith fod un o bob pedwar o blant pedair a phum mlwydd oed dros eu pwysau, a bod un o bob 10 yn ordew, a bod hanner y bobl 16 i 44 dros eu pwysau neu'n ordew. Felly, mae hyn yn fater addysgol pwysig. Rwy'n falch iawn bod adroddiad Estyn yn canolbwyntio ar y ffaith fod athrawon yn canolbwyntio ar fwyta'n iach mewn gwersi perthnasol, a bod y dewisiadau bwyd mewn ffreutur ysgol yn cyfeirio disgyblion tuag at fwyta'n iach. Ond, rwy'n credu hefyd bod angen i ni bryderu nad yw ysgolion uwchradd yn gwneud cystal ag ysgolion cynradd, a dylem i gyd boeni bod tuedd i fwy o ddisgyblion fod yn gadael yr ysgol uwchradd i gael gafael ar fwyd sothach. Does dim amheuaeth y bydd darparwyr bwyd rhad ac afiach diegwyddor—oni bai bod awdurdodau lleol yn eu hatal—yn sefydlu siop y tu allan i ysgolion uwchradd, pan mai'r unig gymhelliant yw elw. Felly, rwy’n gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu i ddiogelu disgyblion ifanc rhag yr y bobl hyn sy'n ceisio cymryd mantais arnynt.

*Daeth y Llywydd i’r Gadair am 16:56.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:56.*

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad] [Biography]

One of the things that concern me is that we still have schools trying to retain pupils in their sixth form even when this is not in the best interests of that individual. The whole purpose of the learning pathways for 14 to 19-year-olds is to give pupils that wider subject choice at key stage 4, and enable them to follow their innate interests and abilities. So, if we have schools trying to guide their children to stay in school for their own ends, that is not serving the best interests of the pupils and giving them the ability to develop their skills and interests to the best of their ability, so that is a slight worry.

Un o'r pethau sy'n peri pryder i mi yw ein bod yn dal i gael ysgolion yn ceisio cadw disgyblion yn eu chweched dosbarth hyd yn oed pan nad yw hyn er lles gorau'r unigolyn hwnnw. Holl bwrpas y llwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yw rhoi'r dewis iddynt o bynciau ehangach yng nghyfnod allweddol 4, a'u galluogi i ddilyn eu diddordebau a'u galluoedd cynhenid. Felly, os oes gennym ysgolion yn ceisio arwain eu plant i aros yn yr ysgol ar gyfer eu dibenion eu hunain, nad yw'n gwasanaethu lles gorau'r disgyblion a rhoi'r gallu iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u diddordebau hyd eithaf eu gallu, mae hynny'n peri rhywfaint o bryder.

I think, as one of the Conservative amendments highlights, we should all be concerned that pupil referral units don't come out well out of this report, because we cannot have pupil referral units being used as dumping grounds for challenging children, who schools with weak leadership and weak teaching simply don't want to be bothered with. There is, of course, a role for pupil referral units to get people back on course, to enable them to reflect on their behaviour and the way it's impacting on other pupils. But we should also acknowledge that this is an incredibly difficult job for teachers who work in PRUs, because some of the children who end up there have had very, very troubled home experiences. But we cannot allow PRUs to be seen as a one-way street, from which young people simply graduate to young offender institutions and prisons. I feel that we have to acknowledge that teaching in a pupil referral unit requires the highest skill of pedagogues—both excellent teachers in their subjects and excellent at classroom management. So, I think teachers in PRUs deserve to get extra financial reward for this very, very difficult task.

Rwy'n credu, fel y mae un o welliannau'r Ceidwadwyr yn ei amlygu, y dylai pob un ohonom fod yn bryderus nad yw unedau cyfeirio disgyblion yn dod allan o'r adroddiad hwn yn dda, oherwydd ni allwn ganiatáu i unedau cyfeirio disgyblion gael eu defnyddio fel mannau i roi plant heriol ynddynt, nad yw ysgolion ag arweinyddiaeth wan ac addysgu gwan yn syml eisiau trafferthu gyda nhw. Mae gan unedau cyfeirio disgyblion, wrth gwrs, swyddogaeth o ran cael pobl yn ôl ar y trywydd iawn, gan eu galluogi i fyfyrio ar eu hymddygiad a'r modd y mae'n effeithio ar ddisgyblion eraill. Ond dylem gydnabod hefyd bod hwn yn waith hynod anodd i athrawon sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion oherwydd bod rhai o'r plant sy'n diweddu yno wedi cael profiadau cartref cythryblus iawn, iawn. Ond ni allwn ganiatáu i Unedau Cyfeirio Disgyblion gael eu gweld fel stryd unffordd, lle mae pobl ifanc yn syml yn graddio i sefydliadau troseddwyr ifanc a charchardai. Rwy'n credu bod yn rhaid inni gydnabod bod addysgu mewn uned cyfeirio disgyblion yn mynnu'r sgiliau uchaf gan athrawon—athrawon rhagorol yn eu pynciau a rhagorol mewn rheoli dosbarth. Felly, rwy'n credu bod athrawon mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn haeddu taliadau ychwanegol am y dasg anodd iawn, iawn hon.

I do wonder whether we would really need PRUs at all if we had effective, specialist teaching facilities, like at Birchgrove in Swansea, where they are able to tailor specific special needs, including behavioural difficulties, to meet the needs of pupils and ensure that they do, indeed, develop.

Rwyf yn meddwl tybed a fyddai angen Unedau Cyfeirio Disgyblion arnom o gwbl pe byddai gennym gyfleusterau addysgu arbenigol effeithiol, fel yn Birchgrove yn Abertawe, lle maent yn gallu teilwra anghenion arbennig penodol, gan gynnwys anawsterau ymddygiadol, i ddiwallu anghenion disgyblion a sicrhau eu bod, mewn gwirionedd, yn datblygu.

Lastly, I want to just highlight something that Ann Keane mentions at the very beginning of her foreword, about both the benefits and the risks of digital communications. Particularly, I want to focus on the risks. I was very shocked when I visited Cardiff High School recently; it is a green category school—so doing all the right things and with a below-average number of pupils on free school meals or other indicators of disadvantage—yet, this school has a massive problem of pupils of all classes, of all age groups who are putting themselves at risk by sharing pictures of themselves that they think are only going to one individual, but are actually going to the whole world. We have to do something about this. Cardiff is doing something about this in bringing in the police on a weekly basis, but this is clearly a massive problem that we need to tackle throughout all our secondary schools.

Yn olaf, rwyf eisiau tynnu sylw at rywbeth y mae Ann Keane yn sôn amdano ar gychwyn cyntaf ei rhagair, am fanteision a risgiau cyfathrebu digidol. Yn arbennig, rwyf eisiau canolbwyntio ar y risgiau. Cefais fy synnu'n fawr pan ymwelais ag Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ddiweddar; mae hi'n ysgol categori gwyrdd—felly'n gwneud yr holl bethau iawn a gyda nifer is na'r cyfartaledd o ddisgyblion ar brydau ysgol am ddim neu ddangosyddion eraill o anfantais—ac eto, mae gan yr ysgol hon broblem enfawr o ddisgyblion o bob dosbarth, o bob grŵp oedran sy'n rhoi eu hunain mewn perygl trwy rannu lluniau ohonynt eu hunain y maent yn credu sydd yn mynd i un unigolyn yn unig, ond sydd mewn gwirionedd yn mynd i'r byd i gyd. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth am hyn. Mae Caerdydd yn gwneud rhywbeth am hyn drwy ddod â'r heddlu i mewn bob wythnos, ond mae hon yn amlwg yn broblem enfawr y mae angen i ni fynd i'r afael â hi ar draws ein holl ysgolion uwchradd.

17:00 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Government motion is to note this report. In that regard, there are two figures in particular, on page 46, that, in my opinion, we would do well to both note and reflect on. In the last year, 13% of looked-after children achieved five A* to C grade GCSEs in subjects including their first language and mathematics. The figure for all learners is 53%. This, in fact, represents a significant improvement. Ten years ago, only 4% of our looked-after children reached this educational benchmark, but when less than two in 10 looked-after children achieve the same grades as half of their school friends, there is clearly much work to be done.

Cynnig y Llywodraeth yw nodi'r adroddiad hwn. Yn hynny o beth, mae dau ffigur yn arbennig, ar dudalen 46, y dylem, yn fy marn i, eu nodi a myfyrio arnynt. Yn y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 13% o blant sy'n derbyn gofal bum TGAU gradd A* i C mewn pynciau gan gynnwys eu hiaith gyntaf a mathemateg. Mae'r ffigur ar gyfer yr holl ddysgwyr yn 53%. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn welliant sylweddol. Ddeng mlynedd yn ôl, dim ond 4% o'n plant sy'n derbyn gofal gyrhaeddodd y meincnod addysgiadol hwn, ond pan fo llai na dau o bob 10 o blant sy'n derbyn gofal yn cyflawni yr un graddau â hanner eu ffrindiau ysgol, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud.

The Estyn report outlines the strategies that the best schools pursue to support looked-after children. I would like to draw attention to one particular initiative from my constituency. Hillside Secure Centre was established in Neath in 1996, and accommodates and educates children who have been placed into the care of the local authority by court order. This year, it entered into an affiliation with Cefn Saeson—a local comprehensive—to bring to Hillside the support and expertise of an excellent mainstream school. Hillside is the only children's secure centre in Wales and it is the only one in the UK, to my knowledge, to have put such an arrangement in place.

Mae adroddiad Estyn yn amlinellu'r strategaethau y mae'r ysgolion gorau yn eu dilyn i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Hoffwn dynnu sylw at un fenter benodol o fy etholaeth i. Sefydlwyd Canolfan Ddiogel Hillside yng Nghastell-nedd ym 1996, ac mae'n darparu llety ar gyfer plant sydd wedi eu rhoi dan ofal yr awdurdod lleol drwy orchymyn llys, ac yn eu haddysgu. Eleni, cytunodd i ymlyniad â Chefn Saeson—ysgol gyfun leol—i ddod â chefnogaeth ac arbenigedd ysgol brif ffrwd leol ragorol i Hillside. Hillside yw'r unig ganolfan ddiogel i blant yng Nghymru a hi yw'r unig un yn y DU, hyd y gwn i, sydd wedi sefydlu trefniant o'r fath.

It is also in Wales that we have put education at the core of care planning for looked-after children. Following the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, the assessment of a child's need must consider their wider wellbeing, which now, by statute, includes their educational provision. The wellbeing statement for people who need care and support that supplements the Act elaborates on what education means for wellbeing. In defining what people should expect, it succinctly states,

Yng Nghymru hefyd yr ydym wedi rhoi addysg wrth wraidd cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n rhaid i'r asesiad o angen plentyn ystyried ei les ehangach, sydd bellach, yn statudol, yn cynnwys ei ddarpariaeth addysgol. Mae'r datganiad lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, sy'n ategu'r Ddeddf, yn ymhelaethu ar yr hyn y mae addysg yn ei olygu ar gyfer lles. Wrth ddiffinio'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl, mae'n nodi yn gryno,

'I can learn and develop to my full potential.'

Caf ddysgu a datblygu i fy llawn botensial.

At the last count, there were 5,755 looked-after children in Wales. I see no reason why their full potential is any less than that of their peers. Yes, they will face challenges other children will not, and, yes, many will have endured traumas that would be beyond the comprehension of their classmates, but that does not mean that they should expect any less from our education system. Recognition of the many difficulties these children face must never mean the acceptance of lower performance as an inevitable consequence of their experiences. I want Wales to be a country where no child is left behind. I want Wales to be a society that helps every one of our children reach his or her full potential, regardless of the circumstances into which they are born.

Ar y cyfrif diwethaf, roedd 5,755 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Ni welaf unrhyw reswm pam mae eu potensial llawn yn ddim llai nag un eu cyfoedion. Byddant, fe fyddant yn wynebu heriau na fydd plant eraill yn eu hwynebu, a, byddant, fe fydd llawer wedi dioddef trawma a fyddai y tu hwnt i amgyffred eu cyd-ddisgyblion, ond nid yw hynny'n golygu y dylent ddisgwyl dim llai gan ein system addysg. Ni ddylai cydnabod yr anawsterau y mae llawer o'r plant hyn yn eu hwynebu fyth olygu ein bod yn derbyn perfformiad is fel canlyniad anochel o'u profiadau. Rwyf am i Gymru fod yn wlad lle nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. Rwyf am i Gymru fod yn gymdeithas sy'n helpu pob un o'n plant i gyrraedd ei lawn botensial, waeth beth fo'r amgylchiadau y caiff ei eni iddynt.

And so, I note the figure of 13%, I note the progress that we have made, but I note also the distance left to travel. I hope, Llywydd, that members of all parties will join me in reaffirming our commitment to these children and to giving them the opportunity to make the very most of their talents and abilities, as I know you will, Minister.

Ac felly, nodaf y ffigur o 13%, nodaf y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, ond nodaf hefyd y pellter sydd eto i'w deithio. Rwy'n gobeithio, Lywydd, y bydd aelodau o bob plaid yn ymuno â mi i ailddatgan ein hymrwymiad i'r plant hyn ac i roi'r cyfle iddynt wneud y gorau posib o'u talentau a'u galluoedd, fel y gwn y byddwch, Weinidog.

17:04 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy’n falch iawn i gyfrannu ac yn derbyn yr holl welliannau. Roedd yn bleser i gael Ann Keane o flaen ein pwyllgor ni i fynd trwy’r adroddiad ac ateb ein cwestiynau ni. Diddorol iawn oedd darllen am ffrwyth profiad y prif arolygydd cyn diwedd ei chyfnod yn y swydd. Yn wahanol i bob sector arall o fywyd cymdeithasol, mae gan bob un ohonom brofiad o addysg sydd o leiaf yn brofiad 10 mlynedd, boed yn bleserus neu’n atgas. Nid mympwyol yw casgliadau’r adroddiad hwn, ond dadansoddiad trylwyr ar sail wyddonol a sylw craff a chyson. Er mwyn gallu newid yr effeithlonrwydd i welliant pur, mae angen trosglwyddo’r newidiadau theori i newidiadau sydd nawr ar waith i ddatblygu gweithlu gyda’r capasiti i weithredu’r newidiadau hynny.

I’m very pleased to contribute to this debate and I accept all the amendments. It was a pleasure to have Ann Keane before our committee, going through the report and answering our questions on it. It was very interesting to read about the experiences of the chief inspector before the end of her role. Unlike any other aspect of our lives, everyone has some experience of education that has lasted at least 10 years, be it that it was a pleasure or otherwise. The conclusions of this report have not been reached on a whim, but thorough a detailed analysis on a scientific basis and insightful and constant attention. In order to make things more effective, we need to transfer the theoretical changes to changes that are implemented to develop a workforce with the capacity to implement those changes.

Yn amlwg, mae gennym ni’r radd Feistr a chonsortia yn rhedeg system eang o ledaenu arfer da, ond fel yr oedd sôn yn gynharach, mae’n rhaid i ni edrych ar waith y consortia. Rwy’n derbyn y bydd yn cymryd amser, ond y peth sylweddol yw monitro effeithiol mewn dulliau rhannu a darpariaeth gyfan o’r cymorth sydd ei angen ar bob lefel fel ein bod yn symud gyda’r cyflymaf, nid gyda’r rhai mwyaf araf.

Clearly, we have the Master’s degree and the consortia disseminating good practice, but as was mentioned earlier, we must look at the work of the consortia. I accept that this will take time, but the significant thing is effective monitoring of the methods of sharing and the provision of the support needed at all levels so that we move with the fastest stream, rather than the slowest.

Mae’n hanfodol inni fuddsoddi yn y gweithlu hwnnw hefyd. Mae’r Llywodraeth Lafur wedi ymrwymo a chadw at gynnig cyllideb sydd 1% yn uwch na’r bloc grant a, thrwy £1.4 biliwn o gynllun ysgolion yr ugeinfed ganrif, wedi rhoi ar waith y rhaglen fuddsoddiad gyfalaf fwyaf erioed yng Nghymru. Felly, nid wyf yn derbyn pwynt y Torïaid bod galw am leihad o 20% yn y gyllideb addysg.

It is essential that we invest in that workforce also. The Labour Government has committed to and has succeeded in proposing a budget that is 1% above the block grant and, by £1.4 billion of twentieth-century school funding, has put in place the largest capital investment programme in Wales ever. So, I don’t accept the Conservatives’ point that calling for a decrease of 20% in the education budget is a way forward.

Os oes un gair sy’n crisialu saith llwyddiant cynyddol mewn addysg, y gair hwnnw yw ‘arweinyddiaeth’. Ar dudalen 15 o’r adroddiad, mae’n dweud:

If there is one word that encapsulates the seven growing successes in education, that word is ‘leadership’. On page 15 of the report, it says:

‘Mae canfyddiadau arolygu wedi dangos, dro ar ôl tro dros y pum mlynedd diwethaf, fod cysylltiad rhwng ansawdd arweinyddiaeth ac ansawdd deilliannau ar gyfer dysgwyr.’

‘Inspection findings have shown, time and again over the past five years, that there is a link between the quality of leadership and the quality of outcomes for learners.’

Hynny yw, os oes eisiau canolbwyntio ar un peth sy’n gyffredin i bob ysgol lwyddiannus ac yn allweddol i safonau, arweinyddiaeth yw hwnnw. Dyna’r neges a gawsom ni pan aethom ni i’r OECD ym Mharis yr haf diwethaf.

That is, if you want to focus on one thing that is common to all successful schools and is crucial to standards, that is leadership. That is the message that we heard when we visited the OECD in Paris last summer.

Adlewyrchiad o’r hyn a ddywedodd Estyn ddwy flynedd yn ôl hefyd yw hyn:

Also, this is a reflection of what Estyn said two years ago:

‘It is in the capacity and quality of leadership that the remedy lies.’

Yng ngallu ac ansawdd arweinyddiaeth y mae'r feddyginiaeth.

Rydym ni’n derbyn bod gwaith gyda ni i’w wneud. Mae’n wir drwyddi draw yn y gyfundrefn addysg. Dyma’r hyn a ddywed am ysgolion arbennig yn yr adroddiad—.

We accept that there is work still to be done. It is true generally speaking of the education system. This is what is said about special schools in the report—.

17:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks for giving way, Keith. I just wanted to come in there on your naughty comment that we intend to cut the education budget by 20%. You know that's not the case. Actually, if you look at the differential between what you are actually cutting in the education budget, it's nowhere near like that, is it?

Diolch am ildio, Keith. Roeddwn eisiau ymateb yn y fan yna i'ch sylw drygionus ein bod yn bwriadu torri'r gyllideb addysg gan 20%. Rydych yn gwybod nad yw hynny'n wir. Mewn gwirionedd, os edrychwch ar y gwahaniaeth rhwng yr hyn yr ydych mewn gwirionedd yn ei dorri yn y gyllideb addysg, nid yw'n agos at hynny, nac ydi?

17:07 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That was from Nick Bourne, who was one of your pillars, actually. I don't think that you would support education in the same way that we have.

Roedd hynna gan Nick Bourne, a oedd yn un o'ch pileri, mewn gwirionedd. Nid wyf yn credu y byddech yn cefnogi addysg yn yr un ffordd ag yr ydym ni wedi ei wneud.

Yn yr adroddiad, mae'n dweud hefyd yn y tair ysgol lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae disgwyliadau uchel ynglŷn â pherfformiad gan uwch-arweinwyr, ac maent yn gyson o ran herio staff yn drylwyr a'u dwyn i gyfrif. Er bod perfformiad, wrth edrych, er enghraifft, ar ganlyniadau PISA, yn sicr yn is na'r hyn y byddem ni'n ei ddymuno, eto i gyd, mae'r momentwm mewn addysg yng Nghymru ar i fyny—ac nid fi sy'n dweud hynny, ond y prif arolygydd.

In the report, it also states that in the three schools where there is excellent leadership, there are high expectations about the performance of senior leaders, and they are consistent in challenging staff thoroughly and in holding them to account. Although performance, in looking, for example, at the PISA results, is certainly lower than we would want, again, the momentum in education in Wales is on the up—and it's not me saying that, but the chief inspector.

Byddai cenedlaethau o'n blaen ni yn sôn am yr amser pan oedd llawysgrifen yn 'copperplate'. Ie, ond y wers yma yw dilyn datblygiadau. Siapiwyd blaenoriaethau heddiw, er enghraifft, gan economi 'globyddol' a thechnoleg, ac mae'n rhaid inni edrych ar y pethau yna.

Past generations would talk about the time when handwriting was in copperplate. Yes, but the lesson here is that we should look at the developments. The priorities of today, for example, have been shaped by the global economy and by technology, and we need to keep an eye on those things.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae addysg wedi bod gyfystyr â gormod o newid, efallai, yn ôl rhai athrawon. Ond, fel y 'copperplate', mae'r templed wedi newid. Nid ydym yn cymharu oes Fictoria â diweddglo oes Elisabeth II. Rydym mewn byd newydd ac mae eisiau arweiniad i fynd â ni yno. Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn adroddiad Donaldson fory.

In recent years, education has been synonymous with too much change, perhaps, according to some in teaching. But as with copperplate, the template has changed. We are not comparing the Victorian age with the end of the reign of Elizabeth II. We are in a new world and we need that leadership to take us there. I look forward to receiving the Donaldson report tomorrow.

Rwyf hefyd yn derbyn y peth mae sawl un yn ei ddweud am yr unedau ymddygiad—y PRUs. Gofynnais i Ann Keane a ydym ni'n chwarae'n deg gyda'r plant yn y PRUs, ac ateb Ann Keane oedd, 'nac ydym'. Yr ateb yw creu partneriaeth drwy leoli'r unedau yn agos at ysgolion fel nad ydyn nhw mor bell o'r prif adeiladau. Hefyd, nid oes digon o athrawon i gynnig yr holl gefnogaeth y mae'r plant yn y PRUs ei eisiau. Rwy'n gobeithio bod yr awdurdodau lleol wedi derbyn hyn.

I also accept, as many have said, that there are issues with the pupil referral units. I asked Ann Keane whether we are actually being fair with the children in the PRUs, and Ann Keane's response was 'no'. The solution is to create a partnership by locating those units close to schools, so that they are not such a distance away from the main buildings. Also, there aren't enough teachers to provide the range of support that the children in the PRUs need. I hope that local authorities have accepted this.

I orffen, mae'r adroddiad yn dweud, o dan flaenoriaethau'r Llywodraeth, o ran llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad yr ysgol, fod momentwm newydd yn adeiladu mewn addysg a chynnydd mewn safonau. Yn yr adroddiad hwn, cawn weld pa mor hanfodol yw arweinyddiaeth. Addas yw i ni hefyd ddweud diolch am arweiniad Ann Keane.

To conclude, the report states, under the Government's priorities, in terms of literacy, numeracy and reducing the impact of deprivation on school attainment, that there is new momentum building in education and progress in terms of standards. In this report, we see how crucial leadership is. It is also fitting for us to say thank you for the leadership of Ann Keane.

17:10 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like many, I'd like to start by paying my tribute, my thanks to Ann Keane, the outgoing chief inspector of Estyn. She has been an enormous help to the Children, Young People and Education Committee, and I know that members who have been on that committee longer than me will have appreciated how she has helped and supported the committee. Ann has always been open, honest and frank about where our school standards are in Wales and it's been helpful for us to hear her views and to hold the Government to account.

Fel llawer un arall, hoffwn ddechrau drwy dalu teyrnged, a rhoi fy niolch i Ann Keane, y prif arolygydd sy'n gadael Estyn. Mae hi wedi bod o gymorth anferth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gwn fod Aelodau sydd wedi bod ar y pwyllgor hwnnw yn hirach na fi wedi gwerthfawrogi sut mae hi wedi helpu a chefnogi'r pwyllgor. Mae Ann bob amser wedi bod yn agored, yn onest ac yn ddidwyll am ble y mae ein safonau ysgolion yng Nghymru ac mae hi wedi bod o gymorth i ni glywed ei barn ac i ddal y Llywodraeth i gyfrif.

The Estyn annual report is always a comprehensive document that not only we should pay attention to, but so should headteachers and local education authorities, as the swathes of best practice case studies really do add to this report and make it useful to a wider audience than some of the annual reports that, I have to say, I've received.

Mae adroddiad blynyddol Estyn bob amser yn ddogfen gynhwysfawr nad ni yn unig y dylai dalu sylw iddi, ond penaethiaid ac awdurdodau addysg lleol hefyd, gan fod yr ystod o astudiaethau achos arfer gorau wir yn ychwanegu at yr adroddiad hwn ac yn ei wneud yn ddefnyddiol i gynulleidfa ehangach na rhai o'r adroddiadau blynyddol, mae'n rhaid i mi ddweud, yr wyf wedi eu derbyn.

I was absolutely delighted to see Rhyl High School mentioned, highlighted in the report for its sterling work on the inclusion of pupils at risk from being permanently excluded and therefore not achieving any qualifications. It's clear that the leadership has been the turning point for driving up standards, and, again, I pay tribute to Claire Armitstead's complete transformation of Rhyl High School. And that's not just about getting more pupils those five A* to C, but also working with those pupils that I said earlier who may have been forced to have left school without any sort of qualification. They now have something to show for their years in school, and that, for me, is as important as those children who go on to get the A*s and head towards Oxford or Cambridge. We know that the leadership is a vital component for future success, and in setting the right climate for teachers and learners to succeed, and so I was pleased to see included the hard work of Claire Armitstead and her staff and her pupils, because Claire is the first person to say that her pupils are part of the team.

Roeddwn i wrth fy modd o weld Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cael ei chrybwyll, a gafodd sylw yn yr adroddiad am ei gwaith rhagorol ar gynnwys disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol a pheidio â chwblhau unrhyw gymwysterau felly. Mae'n amlwg mai'r arweinyddiaeth fu'r trobwynt ar gyfer codi safonau, ac, unwaith eto, rwy'n talu teyrnged i Claire Armitstead am weddnewid Ysgol Uwchradd y Rhyl yn gyfan gwbl. Ac nid yw hynny'n ymwneud yn unig â chael mwy o ddisgyblion i gael y pum A* i C hynny, ond hefyd gweithio gyda'r disgyblion hynny y dywedais yn gynharach a allai fod wedi cael eu gorfodi i adael yr ysgol heb unrhyw fath o gymhwyster. Erbyn hyn mae ganddynt rywbeth i'w ddangos am eu blynyddoedd yn yr ysgol, ac mae hynny, i mi, yr un mor bwysig â'r plant hynny sy'n mynd ymlaen i gael y graddau A* ar y ffordd i Rydychen neu Gaergrawnt. Rydym yn gwybod bod yr arweinyddiaeth yn elfen hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol, ac i osod yr hinsawdd gywir ar gyfer athrawon a dysgwyr i lwyddo, ac felly roeddwn yn falch o weld gwaith caled Claire Armitstead a'i staff a'i disgyblion yn cael ei gynnwys, gan fod Claire y person cyntaf i ddweud bod ei disgyblion yn rhan o'r tîm.

I'm also pleased to see that we have some improvements identified in some secondary school provision, which reflects the increase in the GCSE results that we saw last summer. This is where there has been concern over the past few years, but the data clearly vindicates the initiatives and the reforms that you, Minister, have put in place.

Rwyf hefyd yn falch o weld bod gennym rai gwelliannau wedi'u nodi mewn rhai darpariaethau ysgolion uwchradd, sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn y canlyniadau TGAU a welsom yr haf diwethaf. Dyma lle y bu pryder yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r data yn cyfiawnhau yn glir y mentrau a'r diwygiadau yr ydych chi, Weinidog, wedi eu rhoi ar waith.

I do want to touch on the issue of school funding, as I think it's an important component that the Government can use to improve outcomes for learners, and we're making sure that every part of our system has the funding that it needs to thrive. We've delivered our commitment to increasing funding in Welsh schools by 1% above the Welsh block grant, and also through the £1.4 billion-worth of twenty-first century schools programmes. Again, we're seeing the biggest capital investment programme here in Wales that has been seen for several years.

Rwyf am grybwyll y mater o ariannu ysgolion, gan fy mod yn credu bod hyn yn elfen bwysig y gall y Llywodraeth ei defnyddio i wella canlyniadau i ddysgwyr, ac rydym yn gwneud yn siŵr bod gan bob rhan o'n system y cyllid sydd ei angen i ffynnu. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i gynyddu cyllid ysgolion Cymru gan 1% yn uwch na grant bloc Cymru, a hefyd drwy'r gwerth £1.4 biliwn o raglenni ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Unwaith eto, rydym yn gweld y rhaglen buddsoddi cyfalaf fwyaf yma yng Nghymru a welwyd ers nifer o flynyddoedd.

So, investing in education is important for our economy, and I think we all know that, but it also says a lot about the importance that we place on believing in young people. I think that's quite important, and by keeping tuition fees low, maintaining the education maintenance allowance here and increasing school spending, I do think that this current Welsh Labour Government is perhaps the most young-people-friendly Government that we've ever seen. I'm proud of the record of the Welsh Labour Government on that and I would like to end by saying the words that the Minister used for Ann Keane, saying how she's left that legacy. I think that that's something we should all aspire to: to make sure that that legacy never fails.

Felly, mae buddsoddi mewn addysg yn bwysig i'n heconomi, ac rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod hynny, ond mae hefyd yn dweud llawer am y pwysigrwydd a roddwn ar gredu mewn pobl ifanc. Rwy'n credu bod hynny'n eithaf pwysig, a thrwy gadw ffioedd dysgu yn isel, cynnal y lwfans cynhaliaeth addysg yma a chynyddu gwariant ar ysgolion, rwy'n credu mai'r Llywodraeth Lafur Cymru hon efallai yw'r Llywodraeth fwyaf ystyriol o bobl ifanc yr ydym wedi ei gweld erioed. Rwy'n falch o hanes Llywodraeth Lafur Cymru ar hynny a hoffwn gloi trwy ddweud y geiriau a ddefnyddiodd y Gweinidog am Ann Keane, gan ddweud ei bod hi wedi gadael yr etifeddiaeth honno. Credaf mai dyna ddylai fod y nod i bob un ohonom: sef sicrhau na fydd yr etifeddiaeth honno fyth yn methu.

17:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Education and Skills to reply to the debate—Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ymateb i'r ddadl —Huw Lewis.

17:13

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Presiding Officer. Can I begin by thanking Members for their comments? It's clear that there are common cross-party concerns that have been expressed on more than one occasion here this afternoon, and most of them are, indeed, shared by me as the Minister.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau? Mae'n amlwg y ceir pryderon trawsbleidiol cyffredin, sydd wedi'u mynegi fwy nag unwaith yn y fan hon y prynhawn yma, ac rwyf innau fel y Gweinidog yn rhannu'r rhan fwyaf ohonynt mewn gwirionedd.

In a spirit of partnership and positive debate, I have decided to accept all of the opposition amendments that have come forward here today. I've done this because I am proud of the successes that we are seeing in our system, but I am also content to recognise those areas in which we need to improve.

Mewn ysbryd o bartneriaeth a thrafod cadarnhaol, rwyf wedi penderfynu derbyn holl welliannau'r gwrthbleidiau sydd wedi'u cyflwyno yma heddiw. Rwyf wedi gwneud hyn oherwydd fy mod i'n falch o'r llwyddiannau a welwn yn ein system, ond rwyf hefyd yn fodlon cydnabod y meysydd hynny lle mae angen i ni wella.

The report confirms that where we are seeing good delivery, for instance, of the foundation phase, it is helping children make rapid progress and mitigating against the impact of disadvantage on learning. Indeed, the recent results of our free school meal pupils and the closing of the gap that we are seeing at the foundation phase backs this up.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau lle yr ydym yn gweld cyflawni da, er enghraifft, y cyfnod sylfaen, mae'n helpu plant i wneud cynnydd cyflym a lleddfu effaith anfantais ar ddysgu. Yn wir, ategir hyn gan ganlyniadau diweddar ein disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a chan y ffaith ein bod yn gweld cau'r bwlch yn y cyfnod sylfaen.

Literacy is improving, thanks to the imperative that my predecessor introduced through the literacy and numeracy framework. It is taking a little longer, it is true, to see improvements in numeracy, but we are working to speed up the process, with a full package of support to help develop numerical reasoning skills. Last month, I hosted a national conference for secondary heads of mathematics and regional consortia maths leads—the very first of its kind. I plan to follow this with a second event for primary maths leaders later this year. I've also set up a task and finish group to provide independent expert support, which will result in a maths action plan to speed up progress, and this will include—many Members mentioned this this afternoon—that issue surrounding the confidence of the primary school workforce, in particular, as regards matters of numeracy.

Mae llythrennedd yn gwella, diolch i'r rheidrwydd a gyflwynodd fy rhagflaenydd drwy'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'n cymryd ychydig yn hwy, mae'n wir, i weld gwelliannau mewn rhifedd, ond rydym yn gweithio i gyflymu'r broses, gyda phecyn llawn o gefnogaeth i helpu i ddatblygu sgiliau rhesymu rhifiadol. Y mis diwethaf, cynhaliais gynhadledd genedlaethol i benaethiaid mathemateg ysgolion uwchradd ac arweinyddion consortia rhanbarthol mathemateg—y cyntaf un o'i math. Rwy'n bwriadu dilyn hyn gydag ail ddigwyddiad ar gyfer arweinyddion mathemateg ysgolion cynradd yn ddiweddarach eleni. Rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddarparu cymorth arbenigol annibynnol, a fydd yn arwain at gynllun gweithredu mathemateg i gyflymu cynnydd, a bydd hyn yn cynnwys—crybwyllodd llawer o aelodau hyn y prynhawn yma—y mater hwnnw o amgylch hyder y gweithlu ysgolion cynradd, yn arbennig, o ran materion rhifedd.

This month, Presiding Officer, and next, we will see the unveiling of three vital elements of my strategy for school improvement. Firstly, a new curriculum model will be described tomorrow by Professor Graham Donaldson that will deliver what I believe our young people will need in terms of a modern curriculum fit for the twenty-first century. Soon after that, we will see Professor John Furlong's review of initial teacher training unveiled. Now, that is for him to unveil, but I can speak with confidence, I think, in saying that it will change the game in terms of the standards of teaching that we expect and that the Welsh public can expect, and change the game in terms of the level of expertise and support that is offered by our universities as they serve this vital strategic need for the nation. The third element will be the roll-out and consolidation of the new deal for teachers, which will raise the bar in terms of standards of professional development. It will raise the bar in terms of the expectations we have of the workforce, but it will also raise the bar in terms of the support that they will be offered. And it will, of course, encompass many of those questions surrounding leadership that so many Members here this afternoon have stressed.

Y mis hwn, Lywydd, a'r nesaf, byddwn yn gweld dadorchuddio tair elfen hanfodol o fy strategaeth ar gyfer gwella ysgolion. Yn gyntaf, bydd model cwricwlwm newydd yn cael ei ddisgrifio yfory gan yr Athro Graham Donaldson a fydd yn cyflwyno'r hyn yr wyf yn ei gredu y bydd ei angen ar ein pobl ifanc o ran cwricwlwm modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Yn fuan ar ôl hynny, byddwn yn gweld adolygiad yr Athro John Furlong o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael ei ddadorchuddio. Nawr, mater iddo ef yw datguddio yw hynny, ond gallaf fod yn ffyddiog, rwy'n credu, wrth ddweud y bydd yn gweddnewid pethau o ran y safonau addysgu yr ydym yn eu disgwyl ac y gall y cyhoedd yng Nghymru eu disgwyl, a gweddnewid pethau o ran lefel yr arbenigedd a'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan ein prifysgolion wrth iddynt wasanaethu'r angen strategol hanfodol hwn ar gyfer y genedl. Y drydedd elfen fydd y broses o gyflwyno a sefydlu'r fargen newydd ar gyfer athrawon, a fydd yn gwella safonau datblygiad proffesiynol. Bydd yn cynyddu'r disgwyliadau sydd gennym o'r gweithlu, ond bydd hefyd yn golygu cynnydd yn y gefnogaeth a gynigir iddo. A bydd, wrth gwrs, yn cwmpasu llawer o'r cwestiynau hynny sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth y mae cynifer o Aelodau yn y fan hon y prynhawn yma wedi'u pwysleisio.

This trinity, if you like, of educational reforms, constitutes the backbone of my programme of transformation in Wales's schools and colleges. Here are the essential elements we need to make our system great and to make it fit for the twenty-first century. These elements are indispensable if we are to deliver on concerns that have been expressed by Estyn in this annual report and by, of course, the Members here today.

Y drindod hon, os mynnwch chi, o ddiwygiadau addysgol, yw asgwrn cefn fy rhaglen o weddnewid yn ysgolion a cholegau Cymru. Dyma'r elfennau hanfodol y mae eu hangen arnom i wneud ein system yn wych a'i gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r elfennau hyn yn anhepgor os ydym ni am gyflawni ar y pryderon a fynegwyd gan Estyn yn yr adroddiad blynyddol hwn ac, wrth gwrs, gan yr Aelodau yma heddiw.

17:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? No objections. Therefore amendment 1 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? No objections. Amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 3. Does anyone object? No objections. Amendment 3 is agreed.

Gwelliant 3. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 4. Any objections? No objections. Amendment 4 is agreed.

Gwelliant 4. Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Amendment 5. Does anyone object? No objections. Therefore, amendment 5 is agreed.

Gwelliant 5. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 5 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Amendment 6. Does any Member object? No objections. Therefore, amendment 6 is agreed.

Gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 6 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

Cynnig ND5698 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5698 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013-14.

1. Notes the annual report for 2013-14 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

2. Yn cymeradwyo agweddau cryfach ar addysg yng Nghymru, ond yn gresynu at y ffaith bod safonau cyffredinol yn dal i fod yn wan ac:

2. Applauds the stronger aspects of Welsh education, but regrets that overall standards are still weak and that:

a) bod angen i ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref i rannu arferion gorau gydag ysgolion gwannach i roi hwb i safonau; a

a) schools with strong leadership need to share best practice with weaker schools to boost standards; and that

b) bod angen i Lywodraeth Cymru wella mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r ddarpariaeth ohono ar gyfer athrawon newydd a phrofiadol.

b) the Welsh Government needs to improve both access to, and provision of, continuing professional development for both new and experienced teachers.

3. Yn gresynu at gyflwr unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru y mae angen gwella pob un ond dau ohonynt.

3. Regrets the state of pupil referral units in Wales, all of which, barring two, need improvement.

4. Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod safonau mewn ysgolion cynradd wedi gostwng eleni, gyda chyfran yr ysgolion cynradd sydd â safonau da neu ragorol yn disgyn o saith ym mhob 10 i ychydig dros chwech ym mhob 10.

4. Regrets Estyn's finding that standards in primary schools declined this year, with the proportion of primary schools with good or excellent standards falling from seven in ten to just over six in ten.

5. Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod disgyblion yn cael anhawster o ran defnyddio sgiliau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm mewn tua hanner ein hysgolion.

5. Regrets Estyn's finding that pupils struggle to use numeracy skills appropriately across the curriculum in around half of schools.

6. Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru feithrin gallu'r gweithlu addysg i roi polisïau allweddol ar waith mewn modd effeithiol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.

6. Believes that the Welsh Government needs to build the capacity of the education workforce for effective implementation of key policies such as the Literacy and Numeracy Framework, the Foundation Phase and the new National Curriculum.

7. Yn credu y dylai athrawon ym mhob rhan o Gymru gael mynediad i arfer gorau.

7. Believes that teachers in all parts of Wales should have access to best practice.

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion as amended is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig ND5698 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion ND5698 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

That brings today's business to a close. Thank you very much.

Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:18.*

*The meeting ended at 17:18.*